Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2024-25

DRAFT

Cyngor Gwynedd

Adroddiad Blynyddol ar Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol 2024-25

1. Cyflwyniad

Nod yr adroddiad yw dangos sut mae Cyngor Gwynedd wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bartneriaeth Gymdeithasol.

Mae **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** (y "Ddeddf SPPP"), a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys **Cyngor Gwynedd**, lunio adroddiad blynyddol i ddangos sut y maent wedi cydymffurfio â'r **Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol** a sefydlwyd gan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus.

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol geisio **consensws neu gyfaddawd** gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig, pan fyddant:

i. yn pennu eu **hamcanion llesiant**; a
ii. yn gwneud **penderfyniadau strategol** ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae **Adran 16(2)** o'r Ddeddf yn nodi nifer o ofynion penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus gydymffurfio â hwy wrth "geisio consensws neu gyfaddawd".

Er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o bennu amcanion neu wneud penderfyniadau, drwy (yn benodol):

a) ymgynghori â hwy ar **gyfnod cynnar** o'r broses, a
b) eu cynnwys drwy gydol y broses drwy:
   i. ddarparu **digon o wybodaeth** iddynt i allu ystyried yn briodol yr hyn a gynigir, a
   ii. darparu **digon o amser** iddynt i ystyried yr hyn a gynigir ac ymateb yn briodol.

Yn ôl **Adran 18** o'r Ddeddf:

1. Rhaid i gorff cyhoeddus baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad o'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.
2. Rhaid i'r adroddiad gael ei **gytuno gyda'r undebau llafur cydnabyddedig** neu gynnwys datganiad yn egluro pam na chafodd ei gytuno.

Drafft - Dim i'w gylchredeg

3. Rhaid i'r corff cyhoeddus **gyhoeddi'r adroddiad**, a'i gyflwyno i'r **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol**, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

2. Cefndir

Yn ogystal a dyletswyddau o dan y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) mae gofynion o fewn Deddfau eraill megis Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau i fod yn ymgynghori hefo gwahanol garfannau (gan gynnwys staff).

Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r undebau llafur ers nifer o flynyddoedd, i atgyfnerthu'r berthynas iach sydd yn bodoli ar y cyfan ers degawd a mwy. Mae'r fforwm hwn yn cyfarfod oddeutu bob 6 wythnos. Bwriad y grŵp hwn yw rhoi pwyslais ar gynnal perthnasau gweithio da rhwng y Cyngor a'r Undebau Llafur, gan drafod a datrys materion cyflogaeth cynhennus yn rhagweithiol, yn ogystal â trin a thrafod datblygiad yr amodau gwaith lleol a mentrau cyflogaeth eraill. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan y Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor (Rheolwr y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, Rheolwr Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant, swyddogion adnoddau dynol) a chynrychiolwyr o'r Undebau Llafur (GMB, UNISON ac Unite).

Yr undebau llafur a gydnabyddir gan Gyngor Gwynedd yw:

- GMB
- UNISON
- Unite

3. Sut y bu i ni gwrdd/cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Er ein bod fel arfer yn cynnal adolygiad blynyddol o Gynllun y Cyngor, dim ond adolygiad ysgafn a gynhaliwyd yn ystod 2024/25, gyda dim ond un prosiect newydd yn cael ei ychwanegu at y Cynllun. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ehangach gan y Cyngor y tu hwnt i Aelodau Etholedig (drwy gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor Llawn) wrth wneud y penderfyniad hwn.

Fel rhan o'r broses o lunio Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2024/25, cynhaliwyd ymgynghoriad â'r undebau llafur cydnabyddedig, gan ofyn am eu hadborth a'u sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd posibl i'w gwella. Yn benodol, gofynnwyd:

- A yw'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol?

Drafft - Dim i'w gylchredeg

- A yw'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau perfformiad effeithiol?
- Pa awgrymiadau sydd ganddynt ar gyfer gwella ymgysylltiad a lles staff?

Ymhlith yr ymatebion, nodwyd bod lle i wella'r cyfathrebu â'r undebau ar faterion staffio mewn rhai adrannau. Hefyd, cydnabuwyd bod angen datblygu ymhellach ein dull o Bartneriaeth Gymdeithasol gan ei bod yn parhau i fod yn broses o ddysgu ac esblygu. Er bod y berthynas gorfforaethol yn iach ar y cyfan, a bod yna gysylltiadau cadarnhaol o fewn rhai adrannau o'r Cyngor hefyd, cydnabyddir mai'r cam nesaf ydi mynd ymhellach a sefydlu perthynas adeiladol rhwng yr undebau llafur a phob un o adrannau'r Cyngor. Bydd hynny yn ddatblygiad rhagweithiol a chadarnhaol pellach.

Fel y sonnir uchod mae'r Grŵp Cyswllt corfforaethol rhwng y Cyngor a'r undebau llafur yn cyfarfod oddeutu bob 6 wythnos er mwyn trafod materion cyflogaeth. Er bod rhywfaint o sylw wedi ei roi i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn y gorffennol byddwn yn sicrhau ei fod wedi ei gynnwys fel eitem safonol ar agenda pob cyfarfod i'r dyfodol.

Yn ystod 2024/25 bu i'r grwp cyswllt corfforaethol gyfarfod oddeutu bob 6 wythnos. Dyma rai o'r materion a dderbyniodd sylw yn ystod y flwyddyn:

1. Cyflwyno polisi profi alcohol a chyffuriau o'r newydd.
2. Datblygu a chyflwyno polisi a system reoli absenoldebau salwch staff o'r newydd.
3. Y posibilrwydd o fabwysiadu siarter iaith Gymraeg y TUC.
4. Ymdrin â newid o fewn gwasanaethau / adrannau, mewn modd cydymdeimladol sydd yn rhoi cefnogaeth i staff.

Un enghraifft o'r bartneriaeth yn gweithio mewn modd adeiladol ydi datblygiad y polisi o'r newydd ar gynnal profion cyffuriau ac alcohol ymysg y gweithlu, a chyflwyno'r polisi a'r system rheoli absenoldebau salwch o'r newydd. Mae llwyddiant y ddau enghraifft yma wedi eu seilio ar gynnwys a chydweithio gyda'r undebau o'r dechrau un - o adnabod y 'broblem' i lunio datrysiadau. Mae'r ddau bwnc yn gallu bod yn gynhennus ac wedi golygu cryn newid mewn polisi, ond trwy gydweithio o'r dechrau llwyddwyd i gyrraedd datrysiad sydd yn dderbyniol gan y ddwy ochr.

O Ebrill 2025 bydd y Cyngor yn cymryd camau pendant i hwyluso cyfranogiad cynrychiolwyr lleol yn eu dyletswyddau undebol, gan gynnwys adnabod a neilltuo cyllideb benodol i gefnogi'r broses hon a rhyddhau cynrychiolwyr o'u swyddi parhaol.

Drafft - Dim i'w gylchredeg

Yn hanesyddol, nid ydym wedi ceisio'n benodol sicrhau consensws gyda'r undebau llafur wrth wneud penderfyniadau strategol nac wrth osod ein hamcanion llesiant. Mae'r diffyg hwn wedi cael ei gydnabod fel gwendid yn y broses, ac wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn gweithredu camau pendant i sicrhau bod digon o amser yn cael ei glustnodi yn y broses gynllunio, er mwyn galluogi cydweithio ystyrlon a chynhyrchiol gyda'r undebau.

Ein nod yw gwreiddio'r egwyddor o bartneriaeth gymdeithasol ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Fel rhan o'r ymrwymiad hyn yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn rhoi camau yn eu lle er mwyn cryfhau ein cyfraniad, gan gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o'r gofynion sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol Cymru a Deddf Partneriaethau Cymdeithasol a chyflwyno awgrym o ran sut i gwrdd â'r gofyn.
- Cyflwyno drafft o Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 fel bod cyfle i'r undebau gyflwyno unrhyw argymhellion neu sylwadau cyn i'r ddogfen dderbyn ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cabinet a'r Cyngor Llawn. (Gorffennaf 2025)
- Trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r undebau i drafod ein hamcanion llesiant presennol a'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023–28. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt rannu eu barn yn uniongyrchol ac yn rhagweithiol, gan sicrhau bod eu sylwadau'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu. (Tachwedd 2025)
- Cynnwys yr undebau'n weithredol yn y broses ddrafftio o adolygiad Cynllun Cyngor Gwynedd 2023–28, gan rannu drafft gyda nhw a'u galluogi i gyflwyno argymhellion a sylwadau cyn i'r drafft fynd gerbron y Cabinet/Cyngor Llawn. (Ionawr 2026)

Drafft - Dim i'w gylchredeg

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Adroddiad Chwarterol – Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb (Tachwedd 2025)
Aelod Cabinet:	Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor
Swyddog perthnasol:	Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr
Dyddiad y cyfarfod:	11 Tachwedd 2025

1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron sef yr ail adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i goladu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill yn ymwneud â'r ymateb i droseddu yr gan y Pennaeth Ysgol , Neil Foden.

Bu addewid i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Comisiynwyd y Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

Penodwyd yr Athro Sally Holland i ymgymryd a rôl Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ym mis Chwefror 2025. Mae Sally yn Athro Gwaith Cymdeithasol yng Nghanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gyn Gomisiynydd Plant Cymru (2015-2022).

Fel yr addewid, bydd Sally yn adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb. Dyma'r ail o'r adroddiadau hyn (y cyntaf mis Gorffennaf 2025).

Roedd disgwyl cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant ar y 24 Medi 2025, ac felly y gobaith ar gyfer yr adroddiad hwn oedd i fod yn rhannu diweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion

yr adroddiad hwnnw yn ogystal â rhaglen waith presennol y Cynllun Ymateb. Fodd bynnag, gohiriwyd cyhoeddi yr adroddiad ac felly ar adeg ysgrifennu yr adroddiad hwn roedd cyfyngiad yn yr hyn oedd yn bosib ei rannu fel diweddariad.

3.2 Camau nesaf

Gwaith y Bwrdd yn parhau gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ar gynnydd ymhen 3 mis.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant a nid oes gennyf sylwadau pellach i'w cynnig.

4.2 Swyddog Monitro

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu gan y Cabinet gyda Chadeirydd Annibynnol i gydlynu a sicrhau cynnydd ar y Cynllun Ymateb a fabwysiadwyd ganddo. Mae'n allweddol i'r trefniant llywodraethu hwn bod y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn y gwaith hollbwysig yma. Mae adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, yr Athro Sally Holland yn ddull tryloyw a chadarn o ddarparu'r sicrwydd hwnnw. Rwy'n croesawu'r adroddiad.

ADRODDIAD CHWARTEROL I'R CABINET: BWRDD RHAGLEN Y CYNLLUN YMATEB

YR ATHRO SALLY HOLLAND: CADEIRYDD Y BWRDD YMATEB

DYDDIAD: 4 Tachwedd 2025

Cyflwyniad

Ers fy adroddiad blaenorol i'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2025, mae Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb ("Y Bwrdd") wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd a monitro cynnydd ar draws holl ffrydiau gwaith y Cynllun Ymateb. Cynhaliwyd tri chyfarfod pellach ers fy adroddiad blaenorol, yn cynnwys un cyfarfod wyneb-yn-wyneb gyda'r tîm adolygu CPR. Bu lefel uchel o ymgysylltu gyda'r Bwrdd, a chafwyd presenoldeb o 100% yn y cyfarfodydd gan gynrychiolwyr Cyngor Gwynedd ac asiantaethau allanol, sy'n dangos bod aelodau ac arsylwyr yn ystyried hyn yn flaenoriaeth.

Wrth i mi gwblhau'r adroddiad hwn, mae'r Adroddiad Ymarfer Plant (CPR) ar fin cael ei gyhoeddi, a bydd wedi cael ei gyhoeddi erbyn i mi gwrdd â'r Cabinet ar 11 Tachwedd.

Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr amgylchiadau anodd pan oedwyd cyhoeddiad yr adroddiad CPR yn flaenorol, a hynny yn annisgwyl, a phwysleisiaf mai'r brif ystyriaeth oedd yr effaith bosib ar y dioddefwyr a'r goroeswyr. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynegi pryder yn ystod y cyfnod hwn am yr effaith ar yr ysgol a'r gwasanaethau eraill sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ac mae wedi ceisio sicrwydd gan uwch swyddogion yng Nghyngor Gwynedd bod cefnogaeth wedi bod yn ei lle dros y tri mis diwethaf.

Gan mai newydd gael ei gyhoeddi'n ddiweddar y mae'r adroddiad, rhaid i mi wneud yn glir bod yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau'r Bwrdd cyn iddo gael ei gyhoeddi. Nid yw'r Bwrdd wedi cyfarfod ers iddo gael ei gyhoeddi.

Y Sefyllfa Gyfredol

Yn ystod y chwarter hwn, mae'r Bwrdd wedi parhau i dderbyn diweddariadau ar y gwaith gwella sy'n mynd rhagddo yng Ngwynedd. Ers fy adroddiad diwethaf, rydym wedi gweld datblygiadau pellach, ac yn benodol;

- *Archwiliad mewnol i ymwybyddiaeth gweithlu Cyngor Gwynedd o drefniadau diogelu*
- *Cytunwyd ar gyllid a chrëwyd swydd i benodi i rôl Pencampwr Diogelu newydd fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth a pharhau i wella'r nifer sy'n gwneud yr hyfforddiant*
- *Adolygwyd Rhan Ch y cynllun gwaith (Cefnogi a Sefydlogi Ysgol Friars), gyda mewnbwn Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth dros dro, i adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr ysgol.*
- *Adolygodd y Gwasanaethau Plant eu gweithdrefnau ymhellach, e.e. Trafodaethau Strategaeth/Cyfarfodydd Rhan 5, i adlewyrchu'r dysgu hyd yma*

Ymysg yr hyn sydd wedi herio cynnydd mae:

- Sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu ar-lein gorfodol. Mae heriau penodol i sicrhau bod gan rai staff rheng flaen fynediad at gyfleusterau cyfrifiadurol i gwblhau'r hyfforddiant (yn bennaf, staff sydd ddim yn gweithio mewn swyddfa, megis y rhai yn y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu a'r Gwasanaeth Glanhau), ac mae'r Bwrdd wedi gofyn am ddiweddariadau rheolaidd tra bo datrysiadau i hyn yn cael eu rhoi ar waith.
- O ran Erthygl 12 yr UNCRC (hawliau plant a phobl ifanc i gael gwrandawiad a bod yn rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt), adroddwyd bod fforwm ieuenctid Gwynedd wedi bod yn y broses o gael ei ailsefydlu eleni. Mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen i glywed mwy am hyder pobl ifanc mewn diogelu, a'u profiad o ddiogelu yng Ngwynedd, drwy'r fforwm ieuenctid a mecanweithiau eraill. Fel Cadeirydd, rwyf wedi annog yr awdurdod lleol i ystyried adolygu a gwneud gwaith pellach i ymgorffori holl hawliau plant ledled y sir ac mae uwch swyddogion wedi mynegi eu dymuniad i wneud hyn. Mae gweithdy hanner diwrnod wedi'i drefnu yn gynnar yn 2026.
- Er bod adnoddau ychwanegol wedi dod ar gael, mae'r gwaith gwella yn cael ei wneud ar ben llwythi gwaith trwm y staff allweddol. Mae'r Bwrdd yn parhau i ystyried yr adnodd a ragwelir fydd ei angen ar ôl cyhoeddi'r CPR (h.y. staffio a hyfforddiant), i sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn medru cyflawni'r Rhaglen Waith mewn modd amserol.

Wrth aros i'r adroddiad CPR gael ei gyhoeddi, mae'r Bwrdd wedi bod yn mynd ati'n weithredol i roi cyngor ar y cynllun ymateb ac efallai y bydd y mesurau effaith yn cael eu hailsiapio a'u hailddatblygu mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad. Gwnaed hyn gyda'r nod o sicrhau y bydd y Bwrdd yn barod i ymateb yn brydlon ac yn gynhwysfawr i ganfyddiadau'r CPR, unwaith y maent ar gael i ni.

Yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Ymateb yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr, gofynnir i aelodau ac arsylwyr ystyried cynllun gwaith sydd wedi'i ddatblygu ymhellach, yn ogystal â chyfres o fesurau.

Yn y cyfamser, mae gwaith yn cael ei wneud yn genedlaethol ac yn rhanbarthol sy'n debygol o gael effaith uniongyrchol ar waith y Bwrdd a bydd yn bwysig bod y cynllun ymateb yn cael ei alinio â'r datblygiadau cenedlaethol hyn;

- Llywodraeth Cymru - **Adolygu Mecanweithiau Llywodraethu ac Atebolrwydd**
- Llywodraeth Cymru **-** **Adolygu Cyrff Llywodraethu Ysgolion.**
- Comisiynydd Plant - Argymhelliad am lywodraethu ysgolion: **Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant**

Bydd y Bwrdd yn parhau i sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau rhanbarthol neu genedlaethol ac argymhellion newydd ohonynt yn bwydo i mewn i'r cynllun gwaith. Mae'r Bwrdd yn parhau i gael ei ddiweddaru a'i friffio ar y datblygiadau hyn gan y cyrff allanol sydd hefyd yn

eistedd ar y Bwrdd fel arsylwyr. Mae'r Bwrdd wedi cynghori y dylai Cyngor Gwynedd anelu i wneud gwelliannau sy'n rhagweld datblygiadau cenedlaethol, lle nad yw hynny'n torri canllawiau presennol, yn hytrach nag aros iddynt gael eu cyhoeddi. Mae Cyngor Gwynedd yn cytuno'n llwyr gyda'r dull hwn.

Craffu a Sicrwydd

Fel Cadeirydd, rwyf yn cadw golwg fanwl iawn ar y **mecanweithiau** amrywiol sydd ar gael i'r Bwrdd i graffu, cefnogi a rhoi cyngor ar gynnydd. Yn gryno, maent fel a ganlyn:

1. Cyn y cyfarfodydd, mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariad ysgrifenedig ar bob cam gweithredu yn y cynllun ymateb. Mae swyddogion arweiniol yn adrodd ar lafar ar y rhain yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac mae cyfle i holl aelodau'r Bwrdd holi cwestiynau amdanynt.

2. Wrth i'r misoedd fynd heibio, rydym yn dechrau derbyn rhai canfyddiadau o'r mesurau effaith. Ar y cam hwn, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag *allbynnau*, e.e. faint o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant, faint o ysgolion sydd wedi'u hymweld a'u canfod i fod yn cydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau disgwyliedig. Mae gwaith mesur *deilliannau*, megis hyder plant, rhieni a staff yn y trefniadau diogelu yn eu lleoliadau, yn cael ei gynllunio ac fe adroddir ar hyn i'r Bwrdd fel y daw'r wybodaeth ar gael.

3. Rwyf yn cynnal cyfarfodydd y tu allan i'r Bwrdd i ganfod beth yw profiad pobl o'r gwaith gwella. Er enghraifft, yn ystod y chwarter hwn, rwyf wedi cwrdd â Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Friars, a RASAC (yr elusen sy'n darparu peth o'r gefnogaeth a'r cwnsela i ddioddefwyr a chymuned ehangach yr ysgol). Hefyd, rwyf yn cyfarfod bob chwarter gydag aelodau cyrff allanol cenedlaethol sy'n gweithredu fel arsylwyr i'r panel i ofyn am eu barn ar y cynnydd. Mae'r materion sy'n cael eu codi yn y cyfarfodydd yma yn cael eu cofnodi gen i ac yn cael eu trafod gyda'r uwch swyddogion perthnasol.

4. Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd yn cael ei adolygu yn gyson. Un newid a wnaed cyn fy niweddariad blaenorol yw egluro rôl Aelodau Cabinet ar y Bwrdd Ymateb. Mae'r pedwar Aelod Cabinet sy'n rhan o'r Bwrdd Ymateb yn bresennol i ddarparu atebolrwydd i'r cyhoedd, sicrhau elfen ddemocrataidd i'r bwrdd a sicrhau bod adnoddau yn eu lle i gefnogi'r gwaith. Fel Cadeirydd, rwyf yn cwrdd â'r aelodau hyn yn chwarterol i drafod cynnydd y Bwrdd.

5. Mae archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o ysgolion a'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol gan yr arolygiaethau perthnasol ac mae'r archwiliadau hyn yn ystyried yr elfen ddiogelu bob amser. Yn ogystal, yn ystod y mis hwn, mae Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal archwiliad ar y cyd o ddiogelu, a hynny ar lefel

sirol. Mae'r adroddiadau archwilio allanol yma ar gael i'r Bwrdd, ac mae gan y ddwy asiantaeth statws fel arsylwyr yn y cyfarfodydd.

Gan ddefnyddio'r dulliau uchod, mae peth triongli o'r ffynonellau tystiolaeth ac fe all y Bwrdd Ymateb ddefnyddio hyn i graffu a chefnogi cynnydd.

Camau Nesaf

Mae'r Bwrdd yn rhagweld y bydd yn adolygu canfyddiadau'r adroddiad CPR ar y cyfle cynharaf bosib. Hefyd, bydd y Bwrdd yn adolygu ac yn rhoi cyngor ar fersiwn ddiwygiedig Cyngor Gwynedd o'r Cynllun Ymateb. Mae disgwyl iddo ymgorffori amcanion a thasgau newydd neu ddiwygiedig. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i fireinio ei fesurau effaith a deilliant i sicrhau bod cynnydd yn cael ei dracio, yn ogystal â'i asesu'n ystyrlon yn erbyn ein hamcanion cyffredinol, sef *Cydnabod, Ymddiheuro, Cefnogi, Sefydlu, Dysgu, Gwella* a bod yn *Atebol.*

Sylwadau i Gloi

I grynhoi, mae hwn wedi bod yn chwarter heriol i'r bwrdd ymateb yn dilyn yr oedi annisgwyl gyda chyhoeddiad yr adroddiad CPR. Mae hyn wedi arwain at oedi o ran medru ailddatblygu'r cynllun ymateb a'r mesurau effaith i gwrdd â chanfyddiadau ac argymhellion y CPR. Gan mai dim ond newydd gael ei gyhoeddi y mae'r adroddiad CPR, mae'r adroddiad hwn i'r Cabinet yn angenrheidiol gyfyngedig gyda manylion am safbwyntiau'r Bwrdd ar ymateb Cyngor Gwynedd i'r canfyddiadau hynny. Byddaf mewn sefyllfa i ddarparu adroddiad mwy cynhwysfawr a llawn yn y diweddariad chwarterol nesaf.

Hefyd, bu oedi angenrheidiol o ran asesu'r cyfnod o amser y bydd y cynllun ymateb a'r Bwrdd yn parhau, cyn i'r gwaith gael ei ymgorffori yn rhan o weithrediadau arferol Cyngor Gwynedd. Bydd hyn yn cael ei asesu ar ôl i'r adroddiad CPR gael ei gyhoeddi.

Mae'r Bwrdd yn parhau i fod wedi ymrwymo i graffu a chynghori Cyngor Gwynedd i sicrhau bod yr holl welliannau angenrheidiol yn cael eu hymgorffori yn effeithiol a bod buddion y dioddefwyr, y goroeswyr a'r gymuned ehangach yn parhau i fod yn ganolog i bob cam gweithredu a roddir ar waith.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Bwrdd a'r partneriaid am eu hymgysylltiad parhaus a'u parodrwydd i addasu, a hynny mewn cyfnod pwysig a sensitif i ddod.

Yr Athro Sally Holland

Cadeirydd Bwrdd Rhaglen y Cynllun Ymateb

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	**Ymgynghoriad Statudol ar Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr**
Aelod Cabinet:	**Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd**
Swyddog perthnasol:	**Gareth Jones, Pennaeth Adran Gynorthwyol**
Dyddiad y cyfarfod:	**11 Tachwedd 2025**

---

1. PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyo'r ymateb yn Atodiad 4 fel ymateb Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad statudol ar yr orchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig i Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr.

1.2 Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r ymateb cyn iddo gael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru.

2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD

2.1 Fel ymgynghorai statudol, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd ddarparu ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad statudol ar orchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig y parc cenedlaethol arfaethedig. Mae'r ymgynghoriad statudol wedi cychwyn ar 15 Medi 2025 ac yn cau ar y 8 Rhagfyr 2025.

3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

3.1 <u>Cefndir</u>

3.1.1 Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021-2026), nododd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (a elwid gynt yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu 'AHNE'). Yna comisiynwyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru, fel y corff statudol ar faterion tirwedd, i

werthuso'r achos am y parc cenedlaethol newydd arfaethedig. Cynhelir yr asesiad o fewn tymor presennol y Senedd (2021-2026).

3.1.2 Os bydd CNC yn ystyried bod dynodiad yn briodol ac yn ddymunol, bydd 'gorchymyn dynodi' yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, a fydd wedyn yn penderfynu a ddylid cadarnhau, gwrthod neu amrywio'r gorchymyn dynodi. Os caiff ei gadarnhau, byddai pedwerydd parc cenedlaethol yng Nghymru yn cael ei greu. Y parc newydd cyntaf ers 1957, a'r cyntaf erioed i gael ei greu yn gyfan gwbl yng Nghymru a chan Gymru.

3.1.3 Ardal fach o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn y ffin arfaethedig (ychydig dros 11 km2 a llai na 2% o gyfanswm yr arwynebedd). Llandderfel yw'r unig anheddiad sydd tu mewn i'r ffin. Yn ôl gwybodaeth Cofrestr Tir ac Eiddo'r Cyngor mae 220 cyfeiriad yn yr ardal hefo 185 uned preswyl ac 15 uned masnachol/busnes. Yn ôl Cyfrifiad 2021 mae maint cyfartalog aelwydydd yn yr ardal yma yn 2.4 felly amcangyfrif poblogaeth sydd yn byw yn yr ardal yma ydy 528. Mae map yn dangos ffin y Parc newydd a pa ran o Wynedd sy'n disgyn i mewn i'r ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol Newydd i'w gael yn atodiad 1 a sydd yn destun yr ymgynghoriad statudol.

3.2 <u>Ymgynghoriadau Blaenorol</u>

3.2.1 Yn 2023, cynhaliodd CNC cyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2023 ar fap cychwynnol, y cyfeirir ato fel 'Map Ardal Chwilio'.

3.2.2 Cynhaliodd ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2024 ar ffin ddrafft arfaethedig, y cyfeirir ati fel 'Map Ardal Ymgeisiol'.

3.3 <u>Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad anstatudol rhwng mis Hydref a Gorffennaf 2024</u>

3.3.1 Er fod yr ymgynghoriadau yn ymwneud hefo ffin arfaethedig y parc newydd ac er ei fod ond yn effeithio ar ardal fechan o Wynedd yn unig cododd y Cyngor nifer o bryderon/cwestiynau sef:

- Yr effaith ar brisiau tai
- Yr economi wledig
- Yr economi ymwelwyr a thwristiaeth
- Iaith Gymraeg
- Cynllunio (Polisi a Rheoli Datblygu)
- Cyllideb
- Llywodraethu
- Yr ardal ymgeisiol ac yr angen am Barc Cenedlaethol Newydd

3.3.2 Mae'r tabl yn atodiad 2 yn crynhoi'r pryderon/cwestiynau a godwyd gan Gyngor Gwynedd yn ystod yr ymgynghoriadau blaenorol, ymateb CNC i'r materion a godwyd ac ein sylwadau ar ei ymatebion.

3.3.3 Mae'r tabl yn dangos nad ydym yn fodlon hefo yr ymateb i pump phryder a godwyd sef:

- Iaith Gymraeg
- Cynllunio
- Cyllideb
- Llywodraethu
- Yr ardal ymgeisiol

3.4 Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Presennol

3.4.1 Mae CNC wedi creu ffurflen ymateb ar-lein ar gyfer yr ymgynghoriad sydd ar gael yma (Ymgynghoriad Statudol Parc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr).

3.4.2 Mae ymateb drafft y Cyngor i'r ymgynghoriad i weld yn atodiad 4 sydd yn ymhelaethu ar y pryderon ym mharagraff 3.3.3.

3.5 Ymgynghoriadau a thrafodaethau mewnol

3.5.1 Ar 9 Hydref, fe wnaethon ni gyfarfod ag CNC a'r Cynghorydd Elwyn Edwards i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddo fel yr aelod lleol a gododd y pryderon:

- Yr effaith ar y iaith Gymraeg
- Cyllideb / Gwastraff arian
- Llywodraethu
- Gor dwristiaid

3.6 Camau Nesaf

3.6.1 Bydd angen i'r Cyngor cyflwyno ei sylwadau erbyn 8 Rhagfyr 2025.

3.6.2 Yn dilyn adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, ac os bydd bwrdd CNC yn cytuno, yna cyflwynir gorchymyn dynodi i Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2026. Llywodraeth Cymru sydd gyda'r awdurdod i ddynodi parc cenedlaethol neu beidio.

3.6.3 Derbyniwyd nodyn briffio gan CNC ar y 31 Hydref yn nodi:

"Bydd unrhyw wrthwynebiad a wneir gan awdurdod lleol (nad yw'n cael ei dynnu'n ôl) yn sbarduno ymchwiliad lleol. Os cynhelir ymchwiliad lleol, gwneir

asesiad o'r goblygiadau ariannol ac adnoddau, natur y gwrthwynebiadau a sut y gall awdurdodau lleol sy'n gwrthwynebu ddewis cymryd rhan."

Mae copi o'r nodyn briffio i'w weld yn atodiad 5.

Sylwadau'r swyddogion statudol

Swyddog Monitro

Mae hwn yn ymgynghoriad arwyddocaol sydd yn cyfiawnhau sylw Cabinet. Er fod y rhan o Wynedd sydd yn disgyn o fewn ffiniau y Parc Cenedlaethol arfaethedig yn gymharol fychan o ran maint daearyddol gall hyn gael oblygiadau o sylwedd i Gyngor Gwynedd. Mae'n briodol fod yr ymateb drafft yn amlygu hyn.

Prif Swyddog Cyllid

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

Atodiadau

Atodiad 1: Map o Parc Arfaethedig Glyndŵr
Atodiad 2: Ymateb CNC i sylwadau Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad blaenorol
Atodiad 3: Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog
Atodiad 4: Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Statudol
Atodiad 5: Nodyn Briffio CNC 31 Hydref

Atodiad 1 – Map o Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr



Atodiad 2 – Crynodeb o Ymateb CNC i Sylwadau Cyngor Gwynedd ar yr Ymgynghoriad Blaenorol

Crynodeb o'r Mater a Godwyd	Ymateb CNC	Sylwadau Cyngor Gwynedd
Yr effaith ar Brisiau Tai Mae gwaith ymchwil gwnaed gan 'Nationwide' yn dangos fod prisiau tai yn gallu codi hyd at 25% o fewn Parciau Cenedlaethol ac mae llawer o bobl Gwynedd yn cael ei brisio allan o'r farchnad yn barod oherwydd bod prisiau tai yn uchel i gymharu â chyflog cyfartaledd y Sir.	Mae CNC wedi comisiynu ARUP i gynnal adroddiad effaith Economaidd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r adroddiad yn cytuno bod prisiau tai cyfartalog o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn gyffredinol yn uwch nag ardaloedd cyfagos ac yn adnabod gall arwain tuag at gynnydd posibl mewn galw am dai a chyflenwad cyfyngedig. Ond mae'r adroddiad yn nodi gall APCau weithredu polisïau i gyfyngu ar brisiau tai ac mae'n tynnu sylw at bolisi CDLl Parc Cenedlaethol Eryri o flaenoriaethu tai ar gyfer cymunedau lleol, gyda datblygiadau newydd fel arfer yn gyfyngedig i dai ar raddfa fach neu fforddiadwy i drigolion lleol.	Nodi'r ymateb.
Yr Economi Wledig Mae'r ardal o amgylch Llandderfel yn ardal wledig iawn lle mae amaethyddiaeth yn un o'r prif ddiwydiannau. Mae arallgyfeirio yn bwysig i'r sector amaethyddol , ac	Mae CNC wedi comisiynu ARUP i gynnal adroddiad effaith Economaidd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn.	Nodi'r ymateb.

mae'n gallu helpu hyfywedd busnesau yng nghefn gwlad. Y pryder ydy y bydd dynodiad Parc Cenedlaethol newydd yn cyflwyno polisïau mwy caeth o ran y fath o ddatblygiadau sydd yn dderbyniol o fewn yr ardal	Mae'r adroddiad yn cydnabod bod potensial ar gyfer cyfyngiad cynyddol ar ddatblygiad masnachol mewn parciau cenedlaethol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi gall statws Parc Cenedlaethol godi cydnabyddiaeth ardal ar lefel ryngwladol, gan gynnig manteision hyrwyddo ar gyfer cynhyrchion lleol fel cig eidion, cig oen a chig carw, gan helpu cynhyrchwyr i sicrhau prisiau premiwm. Mae cynllun 'Ffermio Bro', er enghraifft, bellach ar gael i ffermydd o fewn Parc Cenedlaethol neu Dirwedd Genedlaethol.	
<u>Yr Economi Ymwelwyr a Thwristiaeth</u> Mae gor dwristiaeth yn fater sydd yn peri pryder yn rhannau o Wynedd yn enwedig ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn arwain at broblemau parcio, tagfeydd ar y ffyrdd lleol, sbwriel a llygredd sy'n arwain at wrthdaro â'r gymuned leol. Mae pryder bydd dynodi Parc Cenedlaethol yn yr ardal yma yn arwain at gynnydd yn y nifer o bobol sydd yn ymweld â'r ardal. Gall arwain at fwy o ail dai a llety gwyliau.	Mae CNC wedi comisiynu ARUP i gynnal adroddiad effaith Economaidd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r adroddiad yn cydnabod yn ogystal â gwariant cynyddol, mae ymwelwyr ychwanegol hefyd yn dod â risg o or dwristiaeth. Gallai hyn greu pwysau mewn lleoliadau penodol ac ar drafnidiaeth a gwasanaethau. Fodd bynnag, gallai APC newydd hefyd helpu i liniaru'r effeithiau hyn trwy ddarparu rheolaeth dargedig o'r	Nodi'r ymateb.

	ardal, ynghyd â pholisïau ehangach fel y dreth ymwelwyr arfaethedig yng Nghymru.	
<u>Iaith Gymraeg</u> Gall y materion sydd wedi ei nodi uchod e.e. diffyg argaeledd tai sydd yn fforddiadwy i bobl leol gael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg. Mae'r ymchwil a wnaeth Cyngor Gwynedd i gyfiawnhau cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yn glir yn dangos bod cydberthynas rhwng niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a'r iaith Gymraeg.	Mae CNC wedi cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg sy'n datgan ni fydd dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn debygol o gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, na thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae'r ardal arfaethedig i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru yn cynnwys rhannau o Wynedd sy'n cael eu cydnabod fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, lle mae'n cael ei defnyddio yn ddyddiol. Gallai ymgorffori'r cymunedau hyn mewn Awdurdod Cynllunio Lleol newydd sy'n cynnwys sawl awdurdod unedol - llawer ohonynt â lefelau is o ddefnydd y Gymraeg - beryglu gwanhau'r ffocws ar ystyriaethau Cymraeg mewn cynllunio a pholisi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar statws yr iaith a'r defnydd bob dydd mewn ardal lle mae'n ffynnu ar hyn o bryd. Er bod asesiad ar effaith yr iaith Gymraeg wedi ei gynnal nid yw'r Cyngor o'r farn bod modd lliniaru'r effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal arfaethedig sy'n disgyn o fewn ACLl Gwynedd.
<u>Cynllunio</u>		

Polisi Cynllunio - Bydd y penderfyniad terfynol ar ddynodi'r parc cenedlaethol newydd yn cael ei wneud tua'r un amser ag y bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal ein hymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau (Cynllun Datblygu Lleol). Mae angen arweiniad gan y Llywodraeth / CNC ar sut y dylai Cynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd ymdrin â'r parc cenedlaethol arfaethedig yn yr ardal sydd o fewn Gwynedd. Rheoli Datblygu - Mae angen arweiniad ar sut yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn yr ardal o fewn Gwynedd. A fydd Gwasanaeth Rheolaeth Datblygu Cyngor Gwynedd yn cynnal y gwasanaeth hwn hyd nes y bydd yr Ardal Cynllunio Leol (ACLl) newydd wedi ei sefydlu a staff newydd yn cael eu penodi? Neu a fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei allanoli i Gyngor Gwynedd am ffi ar ôl i'r ACLl cael ei sefydlu?	O dan ddeddfwriaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol ('APC') fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ('ACLl') ar gyfer ffin y Parc Cenedlaethol, a byddai'n gyfrifol am Flaengynllunio (Cynllun Datblygu Lleol) a Rheoli Datblygiadau. Mae'r adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio a baratowyd gan Arup yn cynnwys modelau amgen ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth cynllunio. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar hyn eto, gan y byddai angen i APC newydd ei ystyried, os caiff un ei greu, mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol o fewn ei ffiniau a Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Arup yn helpu i lywio unrhyw drafodaethau yn y dyfodol. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi codi pryderon ynghylch gwastraffu adnoddau os oes angen ailysgrifennu Cynlluniau Datblygu Lleol ar ôl cadarnhau Parc Cenedlaethol newydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried yr amserlen ar gyfer sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol a throsglwyddo swyddogaethau	Yr unig sicrwydd sydd gennym ydy bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa fath o wasanaeth cynllunio fydd gan y parc cenedlaethol newydd, felly nid ydym yn gallu bod yn sicr na fydd effaith negyddol ar y gwasanaethau cynllunio presennol. O ran y CDLl, mae'n anghywir I CNC datgan: *"...ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol"* Yr arweiniad a gawsom gan Is adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yw na ddylai unrhyw CDLl gynnwys rhannau o Awdurdod Cynllunio Lleol gwahanol. Gall y ddisgwyl am y penderfyniad o ddynodi'r parc cenedlaethol newydd

	cynllunio ac mae'n ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol. Dylid monitro a thrafod y mater hwn rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru gan gofio mai Llywodraeth Cymru sydd â rheolaeth yn y pen draw dros amseriad cadarnhau Gorchymyn Dynodi. Dylid monitro a thrafod y mater hwn rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru gan gofio mai Llywodraeth Cymru sydd â rheolaeth yn y pen draw dros amseriad cadarnhau Gorchymyn Dynodi. O ran ceisiadau cynllunio unigol, mae'n annhebygol y bydd bodolaeth arfaethedig Parc Cenedlaethol yn effeithio ar y rhan fwyaf o benderfyniadau, gan y byddai datblygiad yn dod o fewn hawliau datblygu a ganiateir sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn llawer o achosion.	neu beidio cael effaith ar amserlen CDLl Gwynedd.

	Fodd bynnag, ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, argymhellir bod ACLl yn cynghori datblygwyr bod Parc Cenedlaethol newydd yn yr arfaeth ac y dylent fod yn ymwybodol o'r risg ynghlwm wrth hynny wrth fwrw ymlaen â'u cais. Bydd perthnasedd Parc Cenedlaethol newydd yn cynyddu ymhellach yn y broses, ac awgrymir bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ceisio eu cyngor eu hunain mewn perthynas â materion mwy cymhleth.	
<u>Cyllideb</u> Mae angen mwy o wybodaeth ar sut bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu. Noder fod 25% o gronfeydd Parciau Cenedlaethol yn dod gan yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Yn yr hinsawdd ariannol gyfredol mae pob corff cyhoeddus yn ei wynebu, mae pryderon sylweddol am y baich ychwanegol fydd hyn yn rhoi ar y Cyngor.	Rydym yn falch o nodi, yn dilyn sylwadau mewn perthynas â'r mater hwn a'ch galwadau am eglurder, fod Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi ymateb ac ysgrifennu at Awdurdodau Lleol (gellir gweld copi o'r llythyr yn atodiad 3). Mae llythyr y Dirprwy Brif Weinidog yn cynnwys y sylwadau canlynol: *"Mae'n gwbl hanfodol bod Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu'n briodol heb leihau'r cyllid craidd ar gyfer ein Hawdurdodau Parciau Cenedlaethol presennol, a*	Falch i dderbyn llythyr gan y Dirprwy Gweinidog ond nid yw'n darparu sicrwydd. Mae ymateb CNC yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd na fydd Awdurdodau Lleol dan anfantais ariannol ond chan nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y parc cenedlaethol newydd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch o ble mae'r cyllid hwn yn dod.

	hefyd heb leihau'r cyllid sydd ar gael i Awdurdodau Lleol Cymru. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor hon"… *"Rwyf wedi ystyried y costau refeniw craidd tebygol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol cyfansoddol yr APC. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol i ddiwallu'r ddau ofyniad hyn yn llawn pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Hynny yw, ni fyddai unrhyw faich ariannol yn cael ei roi ar eich Cyngor i ddarparu cyllid i Barc Cenedlaethol newydd,"*	
<u>Llywodraethu</u> Ar hyn o bryd nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Bydd angen manylder clir ynglŷn â hyn cyn yr ymgynghoriad statudol, er mwyn rhoi cyfle rhesymol i Gyngor Gwynedd roi barn ar hyn. Fyddai'r Cyngor yn cael eu cynrychioli ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd? Mae hyn i'w gyffelybu a sefyllfa yn Ne Parc Cenedlaethol Eryri	Rydym yn cydnabod mai ardal fach o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn y ffin arfaethedig (ychydig dros 11 km2 a llai na 2% o gyfanswm yr arwynebedd). Hefyd dim ond anheddiad Llandderfel sydd wedi'i gynnwys. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch cymesuredd goblygiadau llywodraethu. Rydym wedi codi hyn gyda Llywodraeth Cymru ac wedi nodi cynsail perthnasol mewn perthynas ag enghreifftiau cymharol eraill yng	Nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Mae angen manylion ynglŷn ag os bydd y Cyngor yn cael ei chynrychioli neu yn cyfrannu ar yr Awdurdod neu beidio. Gan nad oes arweiniad cadarn wedi cael ei ddarparu ar y mater yma, er i ni godi'r mater yn ein hymateb ymgynghori blaenorol, ni all Cyngor Gwynedd wneud sylw ar hyn.

sydd o fewn ffiniau Cyngor Powys ble nad ydynt yn rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.	Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl ar hyn o bryd y byddai Cyngor Sir Gwynedd yn cael ei gynrychioli ar Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC). Bydd ardal weinyddol APC newydd yn cwmpasu nifer o awdurdodau unedol. Bydd yr awdurdodau unedol hyn yn cadw cyfrifoldeb am wasanaethau llywodraeth leol, ac eithrio cynllunio, y bydd cyfrifoldeb amdano yn disgyn ar y APC newydd. Byddai llywodraethu priodol yn cael ei ystyried yn ofalus fel rhan o gyfnod pontio a sefydlu, pe bai Parc Cenedlaethol yn cael ei gadarnhau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i rôl CNC, sydd ar dasg o wneud yr asesiad yn unig. Byddai CNC yn disgwyl i Gyngor Sir Gwynedd, fel aelod o'r APC newydd posib, allu cyfrannu at drafodaethau cychwynnol ar lywodraethu.	
<u>Ardal Ymgeisiol ac yr angen am Barc Cenedlaethol newydd.</u> Mae'r ardal o Wynedd sydd yn cael ei ystyried i fod yn rhan o'r Parc Cenedlaethol yn ffinio efo Parc Cenedlaethol Eryri. Cafodd yr ardal yma ei ystyried wrth benderfynu ar ffiniau Eryri? Os felly pam nad oedd	Mae sail hanesyddol i'r cynigion cyfredol o ran ystyriaeth a roddwyd i'r ardal yn flaenorol. Nododd Adroddiad Pwyllgor y Parciau Cenedlaethol (Lloegr a Chymru) dan gadeiryddiaeth Syr Arthur Hobhouse dir Parc	Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon â'r rheswm a roddwyd yn hymateb CNC am gynnwys rhan o Wynedd yn y Parc Cenedlaethol newydd. Nodwyd fod yr ardal o Wynedd sydd

wedi ei gynnwys o fewn ffin Parc Cenedlaethol Eryri? Beth sydd wedi newid o ran tirwedd yr ardal ymgeisiol ers dynodi Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy? Mae pum Tirwedd Genedlaethol yng Nghymru - oes rheswm penodol am ddewis yr ardal yma dros unrhyw ardal arall?	Cenedlaethol ac Ardaloedd Cadwraeth posibl (a elwid yn ddiweddarach yn AHNE a Thirweddau Cenedlaethol) a oedd yn cynnwys Bryniau Clwyd a'r Berwyn. Cafodd yr ardal o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn.	wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn ac nid i'w gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'n glir beth sydd wedi newid yn y tirwedd i'w gynnwys yn y parc cenedlaethol newydd.

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HIDCC/00586/25
Cabinet Secretary for Climate

Arweinydd, Cyngor Gwynedd
cynghorydd.niajeffreys@gwynedd.llyw.cymru

Dafydd Gibbard
Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Gwynedd
dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru

21 Awst 2025

Annwyl Nia a Dafydd

Yn gynharach eleni ysgrifennais at Gyngor Sir y Fflint yn dilyn llythyr gan eu Prif Swyddog Gweithredol. Yn y llythyr hwnnw, addawais i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yn cael ei ariannu yn y dyfodol, pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Yr wyf yn awr yn ysgrifennu i roi rhagor o wybodaeth am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid yn y dyfodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig a'r goblygiadau ariannol i Gyngor Gwynedd o ran unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r dynodiad.

Fel yr amlinellwyd yn fy ateb blaenorol, mae'n gwbl hanfodol bod Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu'n briodol heb leihau'r cyllid craidd ar gyfer ein Hawdurdodau Parciau Cenedlaethol presennol, a hefyd heb leihau'r cyllid sydd ar gael i Awdurdodau Lleol Cymru. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor hon a byddwn yn parhau i weithio i asesu'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu Parc Cenedlaethol newydd a'r cyllid sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, cyn unrhyw argymhelliad y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei wneud ynglŷn ag unrhyw ddynodiad newydd, nid yw'n bosibl meintoli cost Parc Cenedlaethol newydd posibl yn gywir eto. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau fy mod bellach wedi gallu ystyried yn fanylach y costau mwyaf sylweddol a fyddai'n deillio o greu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd a chadarnhau y bydd y rhain yn rhan o gynlluniau ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Yn benodol, gan ddefnyddio costau bras yn seiliedig ar ein Parciau Cenedlaethol presennol, rwyf wedi ystyried y costau refeniw craidd tebygol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol cyfansoddol yr APC. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol i ddiwallu'r ddau ofyniad hyn yn llawn pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Hynny yw, ni fyddai

unrhyw faich ariannol yn cael ei roi ar eich Cyngor i ddarparu cyllid i Barc Cenedlaethol newydd, gan y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i'ch Awdurdod i dalu'r costau a amlinellir o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Yn ogystal, byddwn yn nodi bod ein APCau presennol wedi elwa yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gael mynediad at gyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy raglenni fel Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP), Ffermio Bro a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i fwrw ymlaen â gwaith pwysig mewn meysydd yn cynnwys adfer natur, newid hinsawdd, mynediad a thwristiaeth gynaliadwy. Rwy'n disgwyl y byddai unrhyw APC newydd yn gallu cael mynediad at y cynlluniau hyn neu rai cyfwerth yn y dyfodol ac elwa arnynt.

Byddai angen cyfnod pontio rhwng cadarnhau unrhyw ddynodiad newydd a sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd. Er bod angen gwaith pellach ar natur trefniant pontio o'r fath, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu darparu cyllid tuag at hyn.

Yn olaf, er bod yr uchod wedi canolbwyntio ar gostau a chyllid, byddwn hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Barciau Cenedlaethol y potensial i ddod â buddion economaidd i'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu megis trwy hybu twristiaeth a'r economi ymwelwyr, yn ogystal â manteision ehangach. Fel rhan o'i asesiadau, mae CNC wedi cynnal Adolygiad Effaith Economaidd ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig, a fydd ar gael i Awdurdodau Lleol ochr yn ochr â thystiolaeth newydd arall gan CNC yn ystod ymgynghoriad statudol yn yr hydref (yn amodol ar gymeradwyaeth gan fwrdd CNC).

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Atodiad 4 – Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Statudol

4. Hoffwn i/Rydym ni wneud sylwadau ar y canlynol. Dewiswch yr opsiwn(opsiynau) sydd fwyaf priodol:

- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi'r cynnig presennol ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi egwyddor Parc Cenedlaethol ond yn awgrymu newid i'r ffin (rhowch fanylion isod)
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi egwyddor Parc Cenedlaethol yn amodol ar ymdrin â phwyntiau penodol neu eu hegluro'n briodol (rhowch fanylion isod)
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd
- ☑ Rwyf/Rydym ni'n dal heb benderfynu / ddim yn gwybod

Rhowch fanylion pellach yn ôl yr angen:

Nid oes digon o eglurder ar y faterion isod i Gyngor Gwynedd allu rhoi barn penodol ar y Parc Cenedlaethol Newydd:

Iaith Gymraeg

Mae'r ardal arfaethedig i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru yn cynnwys rhannau o Wynedd sy'n cael eu cydnabod fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, lle mae'n cael ei defnyddio yn ddyddiol. Gallai ymgorffori'r cymunedau hyn mewn Awdurdod Cynllunio Lleol newydd sy'n cynnwys sawl awdurdod unedol - llawer ohonynt â lefelau is o ddefnydd y Gymraeg - beryglu gwanhau'r ffocws ar ystyriaethau Cymraeg mewn cynllunio a pholisi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar statws yr iaith a'r defnydd bob dydd mewn ardal lle mae'n ffynnu ar hyn o bryd.

Er bod asesiad ar effaith yr iaith Gymraeg wedi ei gynnal nid yw'r Cyngor o'r farn bod modd lliniaru'r effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal arfaethedig sy'n disgyn o fewn ACLl Gwynedd.

Cynllunio

Yr unig sicrwydd sydd gennym ydy bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa fath o wasanaeth cynllunio fydd yn gweithredu yn y parc cenedlaethol newydd, felly nid ydym yn gallu bod yn sicr na fydd effaith negyddol ar y gwasanaethau cynllunio presennol.

O ran y CDLl, mae'n anghywir i CNC datgan yn ei hymateb i'r pryderon â godwyd eisoes gan Cyngor Gwynedd:

"...ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol"

Yr arweiniad a gawsom gan Is adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yw na ddylai unrhyw CDLl gynnwys rhannau o Awdurdod Cynllunio Lleol gwahanol.

Gall y ddisgwyl am y penderfyniad o ddynodi'r parc cenedlaethol newydd neu beidio cael effaith ar amserlen CDLl Gwynedd.

Cyllideb

Falch i dderbyn y llythyr gan y Dirprwy Gweinidog ond nid yw'n darparu sicrwydd.

Mae ymateb CNC yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd na fydd Awdurdodau Lleol dan anfantais ariannol ond chan nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y parc cenedlaethol newydd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch o ble mae'r cyllid hwn yn dod.

Llywodraethu

Nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Mae angen manylion ynglŷn ag os bydd y Cyngor yn cael ei chynrychioli neu yn cyfrannu ar yr Awdurdod?

Gan nad oes arweiniad cadarn wedi cael ei ddarparu ar y mater yma, er i ni godi'r mater yn ein hymateb ymgynghori blaenorol, felly mae hwn dal i barhau i fod yn fater heb ei ystyried.

Yr Ardal Ymgeisiol

Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon â'r rheswm a roddwyd yn hymateb CNC am gynnwys rhan o Wynedd yn y Parc Cenedlaethol newydd.

Nodwyd fod yr ardal o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn ac nid i'w gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'n glir beth sydd wedi newid yn y tirwedd i'w gynnwys yn y parc cenedlaethol newydd.

Nodyn briffio – Hydref 2025

Ymgynghoriad statudol ar y cynnig am Barc Cenedlaethol Glyndŵr

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyhoeddi'r nodyn briffio hwn i roi eglurhad pellach ar sawl mater, yn dilyn deialog gydag ymgyngoreion statudol a Llywodraeth Cymru. Bwriad y nodyn briffio hwn yw cefnogi awdurdodau lleol i baratoi eu hymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad statudol ar y bwriad o ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru, sef Parc Cenedlaethol Glyndŵr.

Egluro rhai materion.

1. **Trefniadau Cynllunio:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad i egluro ei safbwynt ar drefniadau cynllunio dan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Bydd y materion hyn yn derbyn sylw pellach ar ôl gwneud y Gorchymyn Dynodi, ond cyn i Weinidogion Cymru gadarnhau'r Dynodiad.

'Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod ac yn deall pwysigrwydd trefniadau cynllunio o dan unrhyw awdurdod Cynllunio newydd.

Er yn y pen draw, fel y nodir o dan y ddeddfwriaeth, byddai hwn yn benderfyniad i unrhyw Awdurdod newydd, mae'n un lle byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio'n weithredol gyda'r corff newydd yn ystod y cyfnod pontio i sicrhau bod y mater yn cael ei ystyried yn ofalus er mwyn gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd y trefniadau newydd. Byddai hyn yn cynnwys ceisio mewnbwn yr holl Awdurdodau Lleol o fewn ffiniau Parc newydd i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu ffurf, swyddogaeth ac adnoddau trefniadau cynllunio, gan gynnwys rhannu neu ddirprwyo swyddogaethau.

Mae'r dull partneriaeth hwn eisoes wedi'i fabwysiadu yn y gwaith y mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi'i wneud wrth ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynigion y Parc Cenedlaethol newydd. Roedd hyn yn cynnwys comisiynu ymgynghoriaeth Arup i gynhyrchu'r adroddiad "Adolygiad Gwasanaethau Cynllunio yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol arfaethedig yng Nghymru" sy'n nodi llinell sylfaen y gwasanaeth cynllunio presennol yn yr ardal ar draws y 5 awdurdod lleol yr effeithir arnynt ac yn ystyried modelau amgen ar gyfer cyflawni.

Byddem hefyd yn disgwyl i ddatblygiad unrhyw wasanaeth cynllunio newydd ystyried strategaeth gynllunio ehangach Llywodraeth Cymru sy'n annog ac yn cefnogi rhannu gwasanaethau a datblygu cynlluniau ar y cyd. Byddai ymestyn y dull gwasanaeth a rennir llwyddiannus presennol i fwynau, gwastraff a seilwaith ledled Gogledd Cymru yn cael ei archwilio gyda'r nod o ymestyn y dull i swyddogaethau cynllunio arbenigol a thechnegol eraill.'

Noder: Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod lleol yr effeithir arnynt gymryd rhan mewn grŵp cynghori. Y bwriad yw y bydd y grŵp hwn yn llywio datblygiadau ar ôl i CNC wneud Gorchymyn Dynodi posibl.

2. **Datganiad ariannu:**

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi darparu'r sicrwydd canlynol ynglŷn â chyllid:

'Yn dilyn fy llythyr ar 16 Ebrill, ysgrifennaf i ddarparu rhagor o wybodaeth am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid at y dyfodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig, a goblygiadau ariannol unrhyw benderfyniad a wneir gan Weinidogion Cymru ar Gyngor Sir y Fflint ynghylch y dynodiad. Gan fod potensial i hyn effeithio ar sawl Awdurdod Lleol, rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol Sir Ddinbych, Wrecsam, Powys a Gwynedd.

Fel yr amlinellwyd yn fy ateb blaenorol, mae'n gwbl hanfodol bod Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu'n briodol heb leihau'r cyllid craidd ar gyfer ein Hawdurdodau Parciau Cenedlaethol presennol, a hefyd heb leihau'r cyllid sydd ar gael i Awdurdodau Lleol Cymru. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor hon a byddwn yn parhau i weithio i asesu'r costau sydd ynghlwm wrth sefydlu Parc Cenedlaethol newydd a'r cyllid sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, cyn unrhyw argymhelliad y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ei wneud ynglŷn ag unrhyw ddynodiad newydd, nid yw'n bosibl meintoli cost Parc Cenedlaethol newydd posibl yn gywir eto. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau fy mod bellach wedi gallu ystyried yn fanylach y costau mwyaf sylweddol a fyddai'n deillio o greu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd a chadarnhau y bydd y rhain yn rhan o gynlluniau ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Yn benodol, gan ddefnyddio costau bras yn seiliedig ar ein Parciau Cenedlaethol presennol, rwyf wedi ystyried y costau refeniw craidd tebygol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol cyfansoddol yr APC. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol i ddiwallu'r ddau ofyniad hyn yn llawn pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Hynny yw, ni fyddai unrhyw faich ariannol yn cael ei roi ar eich Cyngor i ddarparu cyllid i Barc Cenedlaethol newydd, gan y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i'ch Awdurdod i dalu'r costau a amlinellir o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Yn ogystal, byddwn yn nodi bod ein APCau presennol wedi elwa yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gael mynediad at gyllid cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy raglenni fel Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP), Ffermio Bro a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i fwrw ymlaen â gwaith pwysig mewn meysydd yn cynnwys adfer natur, newid hinsawdd, mynediad a thwristiaeth gynaliadwy. Rwy'n disgwyl y byddai unrhyw APC newydd yn gallu cael mynediad at y cynlluniau hyn neu rai cyfwerth yn y dyfodol ac elwa arnynt.

Byddai angen cyfnod pontio rhwng cadarnhau unrhyw ddynodiad newydd a sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd. Er bod angen gwaith pellach ar natur trefniant pontio o'r fath, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu darparu cyllid tuag at hyn.

Yn olaf, er bod yr uchod wedi canolbwyntio ar gostau a chyllid, byddwn hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gan Barciau Cenedlaethol y potensial i ddod â buddion economaidd i'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu megis trwy hybu twristiaeth a'r economi ymwelwyr, yn ogystal â manteision ehangach. Fel rhan o'i asesiadau, mae CNC wedi cynnal Adolygiad Effaith

Economaidd ar gyfer y Parc Cenedlaethol arfaethedig, a fydd ar gael i Awdurdodau Lleol ochr yn ochr â thystiolaeth newydd arall gan CNC yn ystod ymgynghoriad statudol yn yr hydref (yn amodol ar gymeradwyaeth gan fwrdd CNC).'

Sylwer: Adlewyrchir yr elfen ardoll awdurdodau lleol o'r cyllid yn setliadau unigol yr awdurdodau lleol. Dyma'r arfer safonol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol presennol yng Nghymru. Nid trefniant dros dro nac unigryw ar gyfer y dynodiad hwn mo hyn. Mae'r datganiad uchod yn ailadrodd hyn ac yn atgyfnerthu y byddai'n berthnasol i Barc Cenedlaethol Glyndŵr.

3. **Cynlluniau Datblygu Lleol:**

Mae Parc Cenedlaethol yn dod yn ystyriaeth berthnasol mewn perthynas â chynllunio unwaith y bydd Gorchymyn Dynodi yn cael ei gadarnhau gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, bydd awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr fel ei gilydd yn ystyried perthnasoldeb y Parc Cenedlaethol dros amser - a bydd lefel y tebygolrwydd a'r risg yn cynyddu trwy wahanol gamau'r broses ddynodi. Bydd trefniadau trosiannol yn cael eu rhoi ar waith tra bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu, a bydd hyn yn helpu i osgoi effeithiau anfwriadol ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig ac yn bwriadu osgoi dyblygu neu gostau diangen. Bydd deialog adeiladol rhwng awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru yn hanfodol a bydd y grŵp cynghori uchod yn helpu i lywio'r drafodaeth yn hyn o beth.

4. **Amserlen a Chamau Nesaf**:

Dyddiad cau'r Ymgynghoriad: Gofynnir am ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Dynodi drafft a'r ffin arfaethedig erbyn 8 Rhagfyr 2025.

Penderfyniad Bwrdd CNC: Ar 12 Ionawr 2026, bydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y cynnig ochr yn ochr ag ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid gwneud y Gorchymyn Dynodi a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau.

Cyfnod Hysbysu: Os bydd Gorchymyn yn cael ei wneud, ond cyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, rhaid i CNC gyhoeddi Hysbysiad yn cadarnhau bod y Gorchymyn wedi'i wneud a'i fod yn mynd i gael ei gyflwyno i'w gadarnhau. Mae hyn yn sbarduno cyfnod o 28 diwrnod lle gellir cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd CNC yn cysylltu â phob awdurdod lleol. Os cyflwynodd awdurdod wrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori, neu ddarparu cefnogaeth amodol, a bod yr awdurdod hwnnw'n parhau i fod yn anfodlon, rhaid iddo gadarnhau ei wrthwynebiad yn ystod y cyfnod Hysbysu hwn. Noder mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau bod unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno i CNC mewn pryd ac yn unol â'r Hysbysiad.

5. **Ymholiad Posibl**:

Bydd unrhyw wrthwynebiad a wneir gan awdurdod lleol (nad yw'n cael ei dynnu'n ôl) yn sbarduno ymchwiliad lleol. Os cynhelir ymchwiliad lleol, gwneir asesiad o'r goblygiadau ariannol ac adnoddau, natur y gwrthwynebiadau a sut y gall awdurdodau lleol sy'n gwrthwynebu ddewis cymryd rhan.

Nid oes gofyn i awdurdodau lleol nad ydynt yn gwrthwynebu gymryd rhan, er y gallant ddewis gwneud sylwadau ar faterion penodol.

Cefnogaeth a gwybodaeth bellach.

Mae CNC yn parhau i fod ar gael i gynghori awdurdodau lleol drwy gydol y broses hon. Cysylltwch â ni drwy eich swyddogion enwebedig neu gan ddefnyddio'r manylion isod os oes angen eglurhad neu gymorth pellach arnoch.

Rydym yn eich atgoffa bod y dogfennau canlynol ar gael ar hyn o bryd drwy wefan y prosiect:

https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/proposed-national-park-statutory-consultation-2025

Ar gael yn flaenorol	Dadansoddiad newydd 2025
Adroddiad Ardal neu Chwilio (a map)	**Adroddiad Buddion i Natur**
Adroddiad cyfnod ymgysylltu (2023)	**Asesiad o'r Effaith ar Iechyd**
Adroddiad ar y Nodweddion Arbennig	**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**
Adroddiad Grymoedd dros Newid	**Adroddiad effaith economaidd**
Adroddiad Opsiynau Rheoli	**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
Adroddiad Ardaloedd Gwerthuso	**Adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio**
Adroddiad Ardal Ymgeisiol (a map)	
Adroddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus (2024)	**Y prosesau ar gyfer nodi enw**
	Adolygiad o'r ffin

Yn gywir

Ash Pearce

rhaglen.tirweddau.dynodedig@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Arweinydd Tîm Rhaglen Tirweddau Dynodedig / Designated Landscapes Programme Team Leader

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**11fed o Dachwedd 2025**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes** **Aelod Cabinet Economi a Chymuned**
Swyddog Cyswllt:	**Llyr B Jones** **Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned** **Esyllt Rhys Jones** **Rheolwr Rhaglenni Adfywio**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**LlyrBJones@gwynedd.llyw.cymru** **01286 679219 (est.32219)** **EsylltRhysJones@gwynedd.llyw.cymru** **01286 679513 (est. 32513)**
Teitl yr Eitem:	**Cynnal Pleidlais Ardaloedd Gwella Busnes Caernarfon**

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1. Nodi fod y Cynnig Ardal Gwella Busnes (AGB) a dogfennau atodol gan HWB Caernarfon wedi eu derbyn gan y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau;
2. Fod y Cabinet yn cyfarwyddo'r Swyddog Canlyniadau i gynnal pleidlais HWB Caernarfon;
3. Cymeradwyo'r trefniadau a'r goblygiadau ariannol a nodir yn Rhan 3 o'r adroddiad;
4. Dirprwyo'r hawl i Aelod Cabinet Economi i bleidleisio ar ran yr Awdurdod ym mhleidlais yr AGB.
5. Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus yn Gaernarfon ac yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005, dirprwyo hawl i Bennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â phenaethiaid yr adrannau canlynol i gymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Cytundeb Ymarferol a'r Cytundeb Gwaelodlin a chwblhau y cytundebau yn unol a threfniadau y Cyngor:
   - Amgylchedd
   - Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

- Cyfreithiol
- Cyllid.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Fe nodir yn Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 fod angen i awdurdodau lleol awdurdodi y broses o gynnal pleidlais Ardal Gwella Busnes. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sydd yn gyfrifol am awdurdodi hyn.

2.2. Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw'n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro'n sylweddol gyda pholisi presennol, yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr, neu fod baich yr ardoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, fe gefnogir y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd :

- Mae cynnig HWB Caernarfon yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnes.
- Wrth gynnal pleidlais, mae'r gymuned fusnes yn derbyn y cyfle i gefnogi HWB Caernarfon er mwyn rhoi'r gallu iddynt wireddu'r amcanion sydd wedi eu nodi o fewn y cynlluniau busnes.
- Gallai'r HWB Caernarfon arfaethedig ddenu buddsoddiad ychwanegol ag uchafu cynnig a phroffil Caernarfon
- Byddai' HWB Caernarfon yn gyfrwng i gydweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

Nid oes sail i weithredu y feto statudol.

3 CYFLWYNIAD

3.1. Yn dilyn pleidlais lwyddiannus yn ôl yn 2015 sefydlwyd Ardal Gwella Busnes Caernarfon yn Ebrill 2016 ac fe sefydlwyd cwmni HWB Caernarfon i weithredu'r AGB. Yn unol â Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005 dim ond am gyfnod o 5 mlynedd mae AGB yn weithredol. Bu'n ofynnol dilyn proses o bleidleisio yn ôl yn 2021 ar gyfer ail dymor HWB Caernarfon . Bydd y cyfnod ail dymor yn dod i ben Mawrth 2026 felly mae'n ofynnol eto dilyn yr un drefn am dymor arall.

3.2. Er mwyn cynnal pleidlais am gyfnod pellach mae'n ofynnol i Gwmni HWB Caernarfon, yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 gyflwyno rhybudd ar yr Awdurdod Bilio er mwyn gallu cynnal y bleidlais. Yn unol â'r Rheoliadau'r Cyngor ydi'r Awdurdod Bilio.

3.3. Mae HWB Caernarfon wedi cyflwyno rhybudd i'r Cyngor ar gyfer adnewyddu yr AGB. Mae Cwmni HWB Caernarfon wedi cyflwyno'r rhybudd i'r Cyngor ac mae'r cynigion sydd wedi eu derbyn wedi eu hadolygu. Nid yw'n ymddangos fod y rhybudd yn gwrthdaro gydag

unrhyw bolisi sydd gan y Cyngor. Gyda chymeradwyaeth y Cabinet y cam nesaf fydd i'r Cyngor gyfarwyddo'r Swyddog Canlyniadau i gynnal y bleidlais.

3.4. Fel rhan o'r broses, mae HWB Caernarfon wedi bod yn ymgynghori gyda'r cyfarwyddwyr ynghyd a'r busnesau sydd yn talu'r ardoll am eu cynigion ar gyfer 2026-2031. Mae Cynnig HWB Caernarfon a'r atodiadau wedi eu cynnwys yn y dogfennau cefndirol.

3.5. Rhagwelir y bydd manylion a threfniadau'r AGB arfaethedig yn cynnig ardoll unffurf o 1.5% yn erbyn cyfradd trethi annomestig, gan eithro eiddo sydd a gwerth trethiannol llai na £2,000. Amcangyfrifir y byddai'r AGB yn codi hyd at £102,000 y flwyddyn (sef £510,000 dros 5 mlynedd) yn Caernarfon.

3.6. <u>Amserlen</u>

Mae'r anghenion cyfreithiol sydd yn gysylltiedig â chynnal y bleidlais wedi ei gynnwys yn yr amserlen isod:

Gweithredu	**Angen o fewn y Rheoliadau**	**Dyddiad ***
Penderfyniad Cabinet		11.11.25
Swyddog Canlyniadau i gyhoeddi'r bleidlais	42 dydd cyn y bleidlais	6.1.26
Cyhoeddi papurau pleidleisio	Dydd olaf: 28 dydd cyn dydd y bleidlais	20.1.26
Dydd olaf i bleidleisio		19.2.26
Cyfri'r pleidleisiau	Cyn gynted ag yn ymarferol bosibl ar ôl dydd y bleidlais	20.2.26
Cyhoeddi'r canlyniad		20.2.26
Dydd cychwyn yr AGB		01.04.26

* syniad amlinellol o'r amserlen yw hon.

3.7 Os yw'r bleidlais yn llwyddiannus bydd Cwmni HWB Caernarfon a'r AGB yn parhau yn weithredol hyd at 31 Mawrth 2031. Os fydd y bleidlais yn aflwyddiannus bydd Cwmni HWB Caernarfon a'r AGB yn dirwyn i ben 31 Mawrth 2026.

3.8. Cytundebau Ffurfiol

Yn unol â'r Rheoliadau, mae cyfres o gytundebau rhwng y Cyngor a Chwmni HWB Caernarfon. Mae'n rhaid i'r cytundebau hyn fod mewn lle yn dilyn pleidlais o blaid. Mae'r cytundebau drafft wedi eu cynnwys yn y dogfennau cefndirol.

Cytundeb Gwaelodlin: mae'r cytundeb hwn yn diffinio'r lefel o wasanaeth sydd yn cael eu gweithredu gan y Cyngor o fewn ardal yr AGB. Yn unol â'r cytundeb bydd yn ofynnol i'r Cyngor hysbysu Cwmni HWB Caernarfon o unrhyw newid i'r gwasanaeth hwn yn ystod ei dymor. Pwrpas y cytundeb hwn ydi i dawelu meddyliau busnesau, o fewn yr ardal, nad ydynt yn talu'r ardoll ar gyfer gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Mae'r cytundeb hwn ar hyn o bryd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau fod y fersiwn gyfredol yn adlewyrchu gwasanaethau cyfredol y Cyngor o fewn ffiniau'r AGB. Bydd drafft o'r cytundeb yn cael ei negodi gyda Chwmni HWB Caernarfon. Yn ddarostyngedig i ganlyniad 'Ie' bydd y cytundeb yn cael ei gytuno a'i ffurfioli.

Cytundeb Ymarferol : dogfen yw hon sydd yn gytundeb rhwng Cwmni HWB Caernarfon a'r Cyngor yn amlinellu a gosod trefniadau gweinyddol, casglu'r ardoll a'r manylion gorfodaeth yng nghyd-destun ardoll yr AGB. Y Cyngor sydd a'r hawl cyfreithiol i sefydlu trefniadau ariannol ac i anfonebu a chasglu'r ardoll yng Ngwynedd. Mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau fod Cyfrif Refeniw AGB wedi ei sefydlu. Bydd y trefniant yn dirwyn i ben oni bai am bleidlais lwyddiannus ac yna bydd disgwyl i Gwmni HWB Caernarfon a'r Cyngor gytuno i Gytundeb Ymarferol newydd o 1af Ebrill 2026 ymlaen. Pe byddai'r bleidlais yn erbyn yr AGB bydd angen i'r Cyngor a chwmni HWB Caernarfon negodi'r telerau terfynol. Mewn sefyllfa o'r fath mae'r risg ariannol yn gysylltiedig ag ardollau heb eu talu yn gyfrifoldeb i'r AGB ac nid y Cyngor.

3.9. Goblygiadau AGB Caernarfon i Gyngor Gwynedd

Rhagwelir y byddai oblygiadau canlynol i'r Cyngor fel yr awdurdod lleol perthnasol :

Goblygiadau Ariannol – Mae'r gwaith hyd yma wedi adnabod fod 20 hereditament o fewn ffin AGB Caernarfon ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Fe all y nifer yma newid dros gyfnod tymor yr AGB. Fel busnes sydd yn talu trethi busnes mae cost yn gysylltiedig â phleidlais lwyddiannus. Yn seiliedig ar Restr Brisio Trethi Annomestig 2023, mae'r tabl isod yn amlinellu be fyddai cost flynyddol i Gyngor Gwynedd dros dymor nesaf yr AGB Caernarfon pe byddai'r bleidlais o blaid. Byddai'r ardoll yn swm sefydlog dros dymor yr AGB.

Hereditament	Gwerth Trethiannol	Cost Blynyddol yr Ardoll
Toliedau Cyhoeddus Maes Parcio Baclava	£3,000	£25.56
Llyfrgell	£5,5000	£468.60
5 Stryd Castell (Cwmni Gyrfaoedd)	£19,000	£161.88
5 Stryd Castell	£36,500	£310.98
Swyddfeydd y Cyngor	£300,000	£2,556.00
Maes Parcio y Mor Uchaf (A047)	£16,250	£138.45
Maes Parcio (A048)	£4,450	£37.91
Crown Buildings	£169,000	£1,439.88
Part 2nd Flr, Swyddfa Arfon	£16,250	£138.45
Cwmni Cynnal, Part2nd Flr	£38,750	£330.15
Wisdom, First Floor Swyddfa Arfon	£9,700	£82.64
Gwe 1st Floor Swyddfa Arfon	£14,500	£123.54
Swyddfa Arfon Penrallt	£155,000	£1,320.60
Maes Parcio Eglwys Crist (A045)	£57,000	£485.64
Maes Parcio Penllyn	£35,500	£302.46
Cyngor Gwynedd Stryd y Jel	£94,000	£800.88
Hen Ysgol	£9,500	£80.94
Maes Parcio Aml Lawr	£33,250	£283.29
Doc	£21,500	£183.18
Archifdy	£40,250	£342.93
Cyfanswm	**1,128,400**	**9,613.97**

Proses o Gynnal y Bleidlais - Yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd Cyngor Gwynedd yn unol a'r rheoliadau yn cyfarwyddo y Swyddog Canlyniadau (a benodwyd dan Adran 35 Deddf Cynrychiolaeth y Bobol) i gynnal pleidlais o'r gymuned fusnes o fewn yr ardal ddynodedig i brofi cefnogaeth i AGB yng Nghaernarfon.

Pleidlais y Cyngor - yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y Cabinet, yn unol a'r trefniadau yn 2015 a 2021, bydd Aelod Cabinet Economi yn penderfynu sut y bydd y Cyngor yn pleidleisio ac sawl pleidlais gaiff eu bwrw.

Cytundebau cyfreithiol - bydd y cytundebau arfaethedig a ddisgrifir uchod yn cael eu cwblhau a byddant yn sail i drefniadau cydweithio rhwng y ddau sefydliad.

Cefnogaeth Hir Dymor - Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd Cyngor Gwynedd yn cefnogi AGB Caernarfon yn ystod y trydydd tymor gan gefnogi a phlethu eu hun i waith adfywio a datblygu economi Caernarfon ymhellach.

Effaith ar Fframwaith Bolisi a Chaffael

Nid oes goblygiadau'r fframwaith bolisi na rheolau caffael.

Materion Cydraddoldeb

Nid oes gan gynnwys yr adroddiad hwn oblygiadau cydraddoldeb uniongyrchol.

Materion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn adnabod saith nod llesiant. Mae'n gosod uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r adroddiad hwn a'r gwaith yn gysylltiedig â'r AGB yn ymateb i'r Nodau Llesiant hyn:

- Cymru Lewyrchus - Yng Ngwynedd mae'r sector fanwerthu a busnesau yng nghanol ein trefi yn cyfrannu yn sylweddol tuag at economi'r sir ynghyd a chynnig trawstoriad o gyfleoedd cyflogaeth. Mae canol Tref Caernarfon yn cyfrannu'n sylweddol tuag at economi Gwynedd;
- Cymru Iachach - mae ymweld â chanol ein trefi, gyda'r amrediad o wasanaethau, atyniadau a mannau agored yn cyfrannu tuag at iechyd a lles unigolion;
- Cymru sy'n fwy cyfartal - mae canol trefi yn fannau sydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd a darpariaethau i drawstoriad eang o'r boblogaeth, beth bynnag fo cefndir nag amgylchiadau'r unigolion;
- Cymru o Gymunedau Cydlynus - mae canol trefi bywiog a ffyniannus yn cynnig amrediad o wasanaethau, adloniant, siopau a gwasanaethau mewn amgylchedd braf a diogel. Mae hyn yn allweddol i ddyfodol cymunedau;
- Cymru a Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - mae canol trefi yn cyfrannu tuag at warchod ein diwylliant drwy ei phobl, atyniadau, a gwasanaethau ynghyd a'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd eang - mae cefnogi canol trefi, y busnesau a chynhyrchwyr lleol yn cefnogi'r agenda lleihau carbon. Mae'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus o fewn canol trefi yn allweddol.
- Cymru Gydnerth - mae canol ein trefi yn allweddol wrth sefydlu strwythurau a chyfleoedd sydd yn gallu wynebu ac ymateb i heriau economaidd a chymunedol i'r dyfodol.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1. Yn unol a Rheoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005 mae'r Ardal Gwella Busnes Caernarfon wedi cyflwyno cais i Gyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Bilio, i gynnal balot.

4.2. Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cydnabod fod yr egwyddor o gael Ardal Gwella Busnes o fewn tref neu ddinas yn cynnig ffordd o ddenu buddsoddiad i adfywio. Mae'r model yn gerbyd ar gyfer adfywio ble nad oes sicrwydd o unrhyw ffynhonnell ariannu amgen. Mi fydd y balot yn cynnig cyfle i fusnesau i bleidleisio dros barhad yr AGB yng Nghaernarfon neu beidio.

5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet, bwriedir cyhoeddi'r bleidlais erbyn 6ed o Ionawr . Unwaith byddai'r rhybudd wedi ei gyflwyno, byddai hyn yn caniatáu rhyddhau'r papurau pleidleisio ynghyd a manylion y cynigion arfaethedig (gyda nodiadau esboniadol) yn ystod mis Ionawr 2026.

5.2. Yn unol â'r amserlen uchod, byddai dyddiad cau pleidlais bost erbyn 19 o Chwefror 2026 , a'r canlyniad ar 20fed o Chwefror 2026.

5.3. Pe byddai pleidlais o blaid AGB bydd y penderfyniad yn dod yn weithredol o 1af Ebrill 2026.

6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

<u>Sylwadau Pennaeth Cyllid</u>

"Mae'r Gwasanaeth Trethi wedi gweithio gyda cwmni HWB Caernarfon dros ddau dymor cyntaf y cynllun er mwyn casglu'r ardoll ar ran y cwmni, sicrhau ei fod yn cael ei drosglwyddo'n briodol i'r cwmni a chymryd camau priodol i adfer ôl-ddyledion. Felly, os mai canlyniad y bleidlais yw y dylai'r Ardal Gwella Busnes barhau, mae'r gofynion gweinyddol eisoes yn eu lle ac yn gyfarwydd i ni. Mae'r ardoll yn cael ei filio ar wahân i'r Ardreth Annomestig a dylid nodi nad yw'r Cyngor yn trosglwyddo unrhyw arian i'r cwmni tan bydd wedi cael ei gasglu gan y Gwasanaeth Trethi a'i anfonebu'n briodol gan y cwmni.

Rwyf wedi cydweithio ag awdur yr adroddiad ac rwyf yn fodlon â chywirdeb ffigyrau'r ardoll sy'n ymddangos yn y rhan "Goblygiadau AGB Caernarfon i Gyngor Gwynedd" o'r adroddiad.

Sylwadau Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yma wedi derbyn mewnbwn gan y Gwasanaethau Cyfreithiol . Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad a gallaf roi arweiniad pellach yn y cyfarfod pe cyfyd angen.

Dogfennau Cefndir

- Cynnig AGB Caernarfon
- Cytundeb Gwaelodlin Drafft
- Cytundeb Ymarferol Drafft

Cynigion Busnes - 3ydd tymor

1 Ebrill 2026 – 31 Mawrth 2031

Wedi eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd ar ddydd Mawrth 16 Medi 2025

Cynnwys

1 Cynigiwr AGB
2 Cynllun Busnes AGB
3 Trefniadau ariannol a llywodraethu
4 Ymgynghoriad ar dalwyr lefi
5 Cronfa ddata pleidleiswyr
6 Hysbysiad ysgrifenedig
7 Cost y bleidlais
8 Gwasanaethau Sylfaenol a Chytundeb Gweithredu
9 Ffin AGB

Atodiad 1: Cynllun Busnes AGB HWB Caernarfon (fersiwn word)
Atodiad 2: Arolwg Talwyr Lefi
Atodiad 3: Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad
Atodiad 4: Llythyr hysbysiad i Lywodraeth Cymru
Atodiad 5: Llythyr ffurfiol at Gyngor Gwynedd yn gofyn i wasanaethau etholiadol gynnal pleidlais
Atodiad 6: Map Ffiniau AGB Caernarfon
Atodiad 7: Llythyrau Cefnogaeth i'r AGB
Atodiad 8: Cytundeb Gwaelodlin Arfaethedig (derbyniwyd fersiwn ddiwygiedig 18/8/25)
Atodiad 9: Cytundeb Gweithredol Arfaethedig (heb ei ddiwygio gan Gyngor Gwynedd hyd yma)

1 Cynigiwr AGB
Y cynnig AGB yw HWB Caernarfon, cwmni nid-er-elw cyfyngedig trwy warant a sefydlwyd yn 2013 (wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif cwmni 09959600) i oruchwylio AGB HWB Caernarfon. Mae'r erthyglau cymdeithas ar gael ar gais.

Bydd HWB Caernarfon yn cyflwyno'r cynllun busnes trydydd tymor pe bai'r AGB yn cael ei bleidleisio yn y bleidlais sydd i ddod.

2 Cynllun Busnes AGB
Bydd copi o Gynllun Busnes AGB (atodiad 1) yn cael ei gyhoeddi i holl dalwyr lefi AGB erbyn 5 Rhagfyr 2025.

Wedi'i sefydlu yn 2016, mae HWB Caernarfon yn Ardal Gwella Busnes, wedi'i hariannu a'i harwain gan fusnesau i gyflawni mentrau er budd Caernarfon. Ein cenhadaeth yw hyrwyddo'r dref a darparu cymorth busnes i'n haelodau, cefnogi digwyddiadau a gwyliau, croesawu ymwelwyr, helpu i gynnal canol tref deniadol, a gweithio ar y cyd â busnesau lleol a sefydliadau allweddol i ysgogi gwelliannau.

Er mwyn cyflawni ein comisiwn, bydd HWB Caernarfon yn canolbwyntio ar bedair thema allweddol fel y'u blaenoriaethwyd gan ein haelodau (pleidleisiodd 80% o'r busnesau yr ymgynghorwyd â nhw bob un o'r pedair thema yn hanfodol neu'n bwysig) gyda'r arian wedi'i ddyrannu fel y bo'n briodol ac yn unol â'r gyllideb yn y cynllun busnes:

1. **Yn Falch o Hyrwyddo:** codi proffil Caernarfon, cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant ymwelwyr, o fudd i'n busnesau a'n cymuned.
2. **Glân, Gwyrdd ac Eco-gyfeillgar:** creu tref fywiog, deniadol, hygyrch, a phrofiad unigryw i'n hymwelwyr.
3. **Man Diogel:** hyrwyddo lles, darparu mannau diogel, ac amgylchedd croesawgar i'n hymwelwyr a'n trigolion.
4. **Cryfach Gyda'n Gilydd:** darparu cymorth o safon i'n haelodau, gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid, sicrhau cynhwysiant.

3 Trefniadau Ariannol a Llywodraethu
I weld y gyllideb amlinellol o bum mlynedd ar gyfer HWB Caernarfon, trefniadau llywodraethu a rheolau ar gyfer pwy sy'n atebol am y lefi, gweler y cynllun busnes yn atodiad 1.

4 Ymgynghoriad â Thalwyr Lefi
Mae HWB Caernarfon yn ymgynghori'n barhaus â busnesau ar y materion sy'n effeithio arnynt nhw a chanol y dref yn fwy cyffredinol, gyda digon o gyfleoedd i'n haelodau roi eu hadborth, eu cynigion a'u syniadau i ni.

- Anfonir gylchlythyrau o leiaf yn chwarterol at 120 o fusnesau sydd wedi cofrestru i dderbyn ein bwletinau digidol.
- Mae 12 cylchlythyr wedi'u cyhoeddi yn ystod y deuddeg mis diwethaf.
- Amgaewyd Gwybodaeth Ddefnyddiol ynghyd â bil lefi 2025/26 yr aelodau, gan gynnwys dogfen wybodaeth ariannol a thaflen yn tynnu sylw at gyflawniadau a chynlluniau ar gyfer y flwyddyn.
- Rydym yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thalwyr lefi a'r gymuned ehangach.

    - 4,735 o ddilynwyr ar Facebook HWB Caernarfon.
- Mae rheolwr HWB Caernarfon yn rheolaidd o gwmpas y dref, yn ymweld â'r busnesau a chysylltu â nhw.
- Cynhaliwyd 4 sesiwn galw heibio ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025, lle cafwyd gwahoddiad agored i fusnesau ddod i siarad â'n rheolwr ac aelod o'r Cyfarwyddwyr Bwrdd.
- Gwahoddir yr holl aelodau i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol HWB Caernarfon. Cynhaliwyd y diweddaraf yng Nghlwb Hwylio Caernarfon ar 9 Gorffennaf 2025.

Yn ogystal, cynhaliodd HWB Caernarfon ddau arolwg fel rhan o'i broses ymgynghori trydydd tymor:

i) Arolwg ciplun ym mis Chwefror 2025 a gynhaliwyd gan dîm HWB Caernarfon i asesu awydd cynnar am yr AGB ac awgrym o brosiectau AGB 3 tebygol i'w harchwilio ymhellach.

ii) Arolwg helaeth ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025 (gweler atodiadau 2 a 3) a gynhaliwyd gan *Ymgynghori Lafan*, sy'n nodi cynnwys tebygol y cynllun busnes trydydd tymor.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys manylion prif weithgareddau a chyflawniadau ail dymor yr AGB.

Mae canlyniadau'r arolygon yn rhoi hyder a chadarnhad i'r Bwrdd bod mandad ardderchog i fwrw ymlaen ag ysgrifennu'r cynllun busnes a mynd â'r AGB drwodd i bleidlais am drydydd tymor.

Mae'r adroddiad gan *Ymgynghori Lafan* yn seiliedig ar adborth yr arolwg wedi'i gynnwys yn atodiad 3.

5 Cronfa Ddata Pleidleiswyr

Mae HWB Caernarfon wedi derbyn data wedi'i ddiweddaru gan Gyngor Gwynedd ar 12 Mehefin 2025 yn manylu ar enwau a chyfeiriadau'r holl hereditamentau sy'n atebol i dalu'r lefi AGB.

Gofynnir am gronfa ddata arall ym mis Rhagfyr 2025 i gwblhau'r rhestr bleidleiswyr cyn i'r hysbysiadau pleidleisio gael eu cyhoeddi. Dim ond at ddibenion adnewyddu'r AGB y defnyddiwyd gwybodaeth yn unol ag arferion diogelu data da.

Bydd cronfa ddata lawn i bleidleiswyr yn cael ei hanfon at Siôn Huws yn y tîm etholiadau erbyn 16 Rhagfyr 2025 er mwyn caniatáu digon o amser i gyhoeddi'r hysbysiad pleidleisio ddydd Mawrth 6 Ionawr 2026 gyda phapurau pleidleisio i'w hanfon ddydd Mawrth 20 Ionawr 2026. Mae trafodaethau manwl wedi cael eu cynnal rhwng Cyngor Gwynedd a'r tîm etholiadau i sicrhau bod y broses ddemocrataidd yn gallu rhedeg yn esmwyth.

6 Hysbysiad Ysgrifenedig

Mae HWB AGB Caernarfon wedi cydymffurfio â deddfwriaeth AGB mewn perthynas â'r gwahanol hysbysiadau sy'n ofynnol. Mae llythyr wedi'i gyhoeddi at Lywodraeth Cymru ar 17 Ebrill 2025 yn rhoi hysbysiad o fwriad AGB Caernarfon i fynd i bleidlais AGB (atodiad 4).

Ar 13 Mai 2025 anfonwyd llythyr at Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn gofyn i Gyngor Gwynedd gynnal y bleidlais ar ran AGB HWB Caernarfon gyda nodyn yn cadarnhau bod disgwyl i'r cynigion terfynol gael eu cyflwyno i Gyngor Gwynedd erbyn Hydref 2025. Mae llythyr ffurfiol arall, wedi ei ddyddio 16 Medi 2025, yn gofyn am gynnal pleidlais wedi ei atodi (atodiad 5).

Yr hysbysiad nesaf i'w gyhoeddi fydd yr hysbysiad pleidleisio ddydd Mawrth 6 Ionawr 2026 ac yna cyhoeddi papurau pleidleisio ddydd Mawrth 20 Ionawr 2026.

7 Cost y bleidlais

Yn unol â deddfwriaeth AGB, Rheoliad 20 o dan *Reoliadau Ardaloedd Gwella Busnes (Cymru) 2005*, bydd cost y bleidlais yn cael ei dalu gan Gyngor Gwynedd (Deiliad y Bleidlais).

Mae HWB AGB Caernarfon wedi rhoi cronfa wrth gefn o £3,000 o'r neilltu, sydd ar gael pe bai Cyngor Gwynedd yn gofyn iddi dalu'r costau pleidleisio oherwydd amgylchiadau sy'n codi yn rheoliad 10 o *Reoliadau Dosbarthau Gwella Busnes (Cymru) 2005*, sef:

- Canlyniad y bleidlais yw pleidlais 'na', **a**
- Mae nifer y pleidleiswyr cymwys yn y bleidlais yn llai na 20%

8 Gwasanaethau Sylfaenol a Chytundeb Gweithredu

Mae'r Cytundeb Gwasanaethau Sylfaenol yn nodi'r gwasanaethau safonol sylfaenol a ddarperir ar hyn o bryd gan Gyngor Gwynedd. Mae cytundeb diwygiedig wedi'i baratoi gan Gyngor Gwynedd a'i dderbyn gan HWB AGB Caernarfon ar 18 Awst 2025. Bydd y ddau barti yn llofnodi'r cytundeb pan fydd yr AGB yn dechrau ei dymor newydd. Bydd copi o'r cytundeb gwaelodlin ar gael ar gais. (gweler atodiad 8)

Mae'r Cytundeb Gweithredu yn cadarnhau'r trefniadau y bydd yr Lefi AGB yn cael ei chasglu ynghyd â threfniadau cyffredinol ynghylch y berthynas sydd i'w sefydlu rhwng Cyngor Gwynedd a HWB AGB Caernarfon am gyfnod tymor yr AGB. Mae cytundeb diwygiedig wedi'i baratoi gan Gyngor Gwynedd a'i dderbyn gan HWB AGB Caernarfon. Bydd y ddau barti yn llofnodi'r cytundeb pan fydd yr AGB yn dechrau ei dymor newydd. Bydd copi o'r Cytundeb Gweithredu ar gael ar gais. (gweler atodiad 9)

9 Ffin AGB

Mae'r strydoedd canlynol (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol) wedi'u cynnwys o fewn ffin AGB. Mae map yn dangos yr ardal dan sylw:

Allt Pafiliwn	Lôn y Felin
Banc Cei	Stryd Newydd
Balaclafa	Stryd Niwbwrch(Eagles Hotel)
Stryd Bangor	Fford Y Gogledd (Rhif 14 Alexandra, Gorsaf betrol Morrisons, Garej Moduron Menai)
Y Bont Bridd	Styd Pedwar a Chwech
Pendeitsh	Penrallt Uchaf
Allt y Castell	Stryd y Plas
Y Maes	Pepper Lane

Castle Street / Stryd y Castell	Penllyn
Tre'r Gôf	Pen y Graig
Lôn yr Eglwys	Pen Llyn
Stryd yr Eglwys	Stryd Y Llyn
Doc Fictoria	Rhes Pretoria
Stryd Garnon	Rhes Segontiwm
Glan Môr / Glan Môr Uchaf (Turkey Shore & Crown Street)	Stryd y Jêl
Tan y Bont	Cei Llechi
Stryd Fawr	Stryd Capel Joppa
Stryd Twll yn y Wal	Penrallt Isaf
Lôn Crwyn	Lôn Parc
Lôn Twthill	Ffordd Santes Helen
Stryd y Farchnad	Stryd y Porth Mawr

Caernarfon

HWB - Ardal Gwella Busnes Caernarfon:
CYNLLUN BUSNES TRYDYDD TYMOR 2026 – 2031

Degawd o gynnydd!

PLEIDLEISIWCH "Ia!" o 23 Ionawr i 19 Chwefror 2026

CANOL TREF
CAERNARFON
TOWN CENTRE
HWB Caernarfon
ALLWEDD - KEY
STRYD FAWR - HIGH ST
PEN DEITSH - CASTLE DITCH
Y MAES - CASTLE SQUARE
ALLT Y CASTELL - CASTLE HILL
RHOSTYLLYN - POOL HILL
STRYD Y LLYN - POOL ST
RHES SEGONTIWM - SEGONTIUM TERRACE
FFORDD SANTES HELEN - ST HELEN'S RD

Croeso gan ein Cadeirydd

Annwyl aelodau HWB Caernarfon,

Fel perchennog busnes balch yma yng Nghaernarfon, rwy'n rhannu eich angerdd am ein tref unigryw, ei ddiwylliant, ei dreftadaeth, ei hanes, ei hysbryd cymunedol a'i chynnig amrywiol. Yn fy rôl fel Cadeirydd HWB Caernarfon dros y tair blynedd diwethaf, rwyf wedi gweld y cynnydd a'r newidiadau cadarnhaol sydd wedi caniatáu i'r dref a'i busnesau ffynnu. Mae'r Ardal Gwella Busnes (AGB) yn gweithio'n galed ar ran ei aelodau, gan adeiladu partneriaethau lleol cryfach a chyflawni strategaethau a phrosiectau, yn helpu i sicrhau bod Caernarfon yn cael ei hyrwyddo'n dda ac yn cyrraedd ei lawn botensial.

Mae wedi bod yn her i gael y dref yn ôl ar ei thraed ar ôl COVID 19, ac rydym yn cydnabod nad ydym wedi gwneud popeth yn iawn yn HWB Caernarfon yn ystod yr ail dymor hwn. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i barhau i wella, i gyflawni ein haddewidion a pharhau i adeiladu ar ein deng mlynedd o gynnydd. Mae llawer yn ystyried Caernarfon fel tref wych sy'n ffynnu. Gyda chefnogaeth ein busnesau sy'n talu lefi, byddai trydydd tymor AGB pum mlynedd o fis Ebrill 2026 yn ein galluogi i barhau i yrru eich blaenoriaethau, gwireddu ystod o brosiectau allweddol, a sicrhau bod Caernarfon yn parhau i fod yn gyrchfan gref a gwydn i fuddsoddi, gweithio, ymweld â hi ac i fyw yma.

Rhwng 23 Ionawr a 19 Chwefror 2026 cynhelir pleidlais lle cewch eich cyfle i bleidleisio am dymor AGB newydd. Mae cryfder ein cymuned fusnes yn golygu bod gennym lais cryfach gyda'n gilydd a gallwn edrych ymlaen at fwy o lwyddiant a rennir. **Bydd pleidlais "Ia" yn golygu y gall ein gwaith da barhau a bydd ein tref yn elwa'n economaidd ac yn gymdeithasol o dros £500,000 o fuddsoddiad o incwm lefi AGB dros y pum mlynedd nesaf, gan sicrhau ffyniant hirdymor Caernarfon.**

Bydd pleidlais "Na" yn golygu y bydd yr holl brosiectau a gwasanaethau y mae HWB Caernarfon yn eu darparu yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026. Ni fydd gan unrhyw sefydliad arall y gallu na'r adnoddau i gamu ymlaen a pharhau â'r prosiectau rydych chi wedi'u blaenoriaethu. Efallai na fyddwch bob amser yn sylwi ar y gwaith da rydyn ni'n ei wneud ar eich rhan ... ond byddwch yn sicr yn sylwi os yw'n gorffen!

Mae'r cynllun busnes hwn wedi'i lunio yn dilyn adborth o fisoedd lawer o ymgynghori â busnesau'r dref. Mae'r Bwrdd a minnau yn credu y dylai ei gynnwys atseinio gyda chi – y taliwriaid lefi - ac rydym yn gobeithio y bydd ein cynigion yn cael eu cefnogi gan y busnesau.



Allwn ni ddim ei wneud hebddoch chi! Pleidleisiwch "Ia" rhwng 23 Ionawr a 19 Chwefror 2026.

Diolch a Chofion,

John Stanley Evans, perchennog Tafarn Y Bachgen Du

Cadeirydd – HWB Caernarfon

Beth yw AGB?

Mae Ardal Gwella Busnes (AGB) yn fenter a arweinir gan fusnesau a gefnogir gan ddeddfwriaeth y llywodraeth sy'n rhoi'r pŵer i fusnesau godi a gwario arian yn lleol, gan wella ardal fasnachol ddiffiniedig. Maent yn cael eu hariannu trwy lefi orfodol ar fusnesau cymwys o fewn ardal AGB ar ôl pleidlais lwyddiannus.

Mae 347 o Ardaloedd Gwella Busnes yn gweithredu yn y DU ar hyn o bryd. Maent yn hollol annibynnol o'r awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol eraill ac yn cyflawni prosiectau ar ben y gwasanaethau sylfaenol a ddarperir ganddynt.

Mae HWB Caernarfon yn cael ei reoli gan fwrdd o gynrychiolwyr busnesau lleol ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2016. Mae bellach yn agosáu at ddiwedd ei ail dymor, ac mae'n un o 12 AGB sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf rydym wedi gweithio gyda chi a'n partneriaid i gyflawni ystod eang o gyflawniadau cadarnhaol i'n tref. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y cynllun busnes hwn.

Uchafbwyntiau'r Ail Dymor – cipolwg ar gyflawniadau!

Marchnata a Hyrwyddo

- Ariannu a gweithredu'r Ganolfan Groeso yn Oriel Pendeitsh. Cefnogwyd dros 3,500 o ymwelwyr yn ystod 2024
- Darparu WI-FI am ddim canol tref, gan nodi Caernarfon fel tref 'ddigidol glyfar'. 5,000 o ddefnyddwyr unigryw dros y 12 mis diwethaf
- Cydweithio gyda'r BBC ar stori 'Trefi Ffyniannus' ym mis Mehefin 2025, gan hyrwyddo ein tref a'i chanfyddiad gyda stori newyddion da

Cymorth a Chyfathrebu Busnes

- Cylchlythyrau rheolaidd ar weithgareddau HWB, cyfleoedd grant, a gwybodaeth ddefnyddiol. Anfonwyd 12 rhifyn dros y 12 mis diwethaf
- Lansio cynlluniau grant amrywiol, gan gynnwys y grant gwella busnes diweddar a'r grant digwyddiadau busnes
- Darparu cyfleoedd hyfforddi am ddim, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch, Data WI-FI Patrwm, Makaton

Gwella apêl weledol y dref

- Gosod baneri lliwgar ar strydoedd canol y dref pob gwanwyn
- Talu 50% o gostau'r coed Nadolig bach pob blwyddyn, a'u gosod uwchben siopau canol y dref
- Trefnu ac ariannu glanhau gwteri cannoedd o adeiladau yng nghanol y dref yn haf 2023

Digwyddiadau

- Ariannu a rheoli llawer o ddigwyddiadau cyffrous, gan gynnwys Diwrnod Archarwyr cyntaf erioed Caernarfon yn 2023 a Diwrnod y Deinosoriaid yn 2024, ac ein Dathliad 'Dolig blynyddol – llawn hwyl ac yn rhad ac am ddim i deuluoedd allu mwynhau
- Un o brif noddwyr Gŵyl Fwyd Caernarfon, a'n rhoi ar y map, gan ddenu dros 40,000 o ymwelwyr i Gaernarfon ar y diwrnod
- Noddi digwyddiadau allweddol eraill, gan gynnwys Gŵyl Arall, Balchder Caernarfon, gweithgareddau Gariswn y Castell, a llawer mwy

🌟 PLEIDLEISIWCH Ia! 🌟✨

i gadw HWB Caernarfon a'r cyfan a wnawn

Ail Dymor – Rhifau Allweddol

- **Buddsoddiad o £300,000** i'n themâu allweddol – Yn Falch o Hyrwyddo, Glân, Gwyrdd ac Eco-gyfeillgar, Man Diogel a Cryfach Gyda'n Gilydd
- **£16,000** o gyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer prosiectau drwy grantiau SPF
- **42,300** o ymwelwyr yng Nghaernarfon ar gyfer Gŵyl Fwyd 2024
- **5,000** o ymwelwyr ychwanegol i Stryd y Llyn yn ystod Diwrnod Archarwyr ym mis Hydref 2023
- **4,000** o ymwelwyr ychwanegol i ganol tref Caernarfon yn ystod Diwrnod y Deinosoriaid 2024
- **3,537** o dwristiaid o 27 gwlad wedi ymweld â'r Ganolfan Groeso yn ystod 2024
- **4,735** o ddilynwyr ar Facebook HWB Caernarfon, wedi cynyddu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf
- **300** o deuluoedd yn cymryd rhan yn ein Helfa Wyau Pasg flynyddol
- **250** o ymgeiswyr i'n cystadleuaeth flynyddol Santes Dwynwen ym mis Ionawr

Bydd y tudalen yma, a'r ddogfen cyfan, yn cael ei gynllunio'n broffesiynol cyn ei yrru allan i'r busnesau ar ddechrau Ionawr 2026.

Ymgynghoriad Trydydd Tymor

Yn dilyn canlyniadau cadarnhaol arolwg 'meddal' a gynhaliwyd gyda rhai aelod-fusnesau gan ein tîm ym mis Chwefror 2025 i fesur yr awydd am drydydd tymor AGB, roedd Bwrdd Cyfarwyddwyr HWB Caernarfon o'r farn ei bod yn bwysig cyfarwyddo ymgynghorydd annibynnol i arolygu trawstoriad o'n haelodau, gan ddileu unrhyw ragfarn a sicrhau gwrthrychedd. Cymerodd llawer ohonoch rhan mewn arolwg gan *Ymgynghori Lafan* yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2025. Rydym yn diolch i bawb a roddodd eu hamser i fynegi eu syniadau a'u barn, a oedd yn hynod werthfawr ac sydd wedi ein helpu i lunio'r cynllun busnes hon.

Canlyniadau arolwg Chwefror 2025 oedd y byddai **71%** o'r busnesau a arolygwyd yn pleidleisio **"Ia"** i dymor AGB arall.
Yn ystod cyfnod o dair wythnos ym mis Mehefin a Gorffennaf, arolygodd *Ymgynghori Lafan* amrywiaeth o fusnesau sy'n cynnig ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau. Unwaith eto, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol – **77% o blaid** rhoi tymor AGB pum mlynedd arall i HWB Caernarfon gyda sgôr graddio o 3.66* allan o 5* am ein cefnogaeth i fusnesau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn amlwg, mae gennym le i wella, ond roedd yn wych gweld mae'r bleidlais fwyaf poblogaidd oedd 4*.

Yn ogystal ag arolygu busnesau'n uniongyrchol, fe wnaethom hefyd ddarparu pedair sesiwn galw heibio yn Oriel Pendeitsh ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025, a chafwyd cyfle i fynegi eich barn yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghlwb Hwylio Caernarfon ar 9 Gorffennaf. Mae eich ymgysylltiad a'ch adborth mor bwysig, fel ein bod yn parhau i alinio â blaenoriaethau ein haelodau a mynd i'r afael â'ch pryderon.

Beth arall a ddwedasoch

- Roedd llawer o sylwadau yn cefnogi ymdrechion HWB Caernarfon, gan gydnabod y gwerth ychwanegol i'r dref drwy ddigwyddiadau, grantiau busnes, nawdd lleol, harddu corfforol, a phresenoldeb cydlynydd ymroddedig er gwaethaf adnoddau cyfyngedig.
- Fe wnaethoch chi ddweud bod gwelliant sylweddol wedi bod yng ngweithgareddau ac ymgysylltiad HWB Caernarfon yn ystod ail hanner y tymor presennol. Mae rhai ohonoch yn teimlo bod angen i ni gyfathrebu a chydweithio mwy â'n haelodau.
- Mae'r mwyafrif helaeth ohonoch yn cytuno â phwysigrwydd ein pedair thema a hoffent gynnal y themâu mewn trydydd tymor. Fe wnaethoch chi sgorio 'Man Diogel' fel y flaenoriaeth uchaf, gan bwysleisio pwysigrwydd diogelwch a chreu mannau diogel.
- Hoffech weld mwy yn cael ei wneud i helpu i gadw Caernarfon yn daclus, yn enwedig mewn ardaloedd problematig penodol yng nghanol y dref.

- Dywedodd rhai ohonoch fod angen i ni wneud mwy o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar fusnes a llai o ddigwyddiadau cymunedol.
- Soniodd rhai ohonoch am ehangu capasiti HWB Caernarfon i ddarparu cymorth busnes ychwanegol a chynyddu ei gyrhaeddiad gweithredol, tra eich bod hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau cyllidebol a'r heriau o gael dim ond un aelod o staff llawn amser.
- Dywedodd rhai y byddai'n ddefnyddiol pe gallai HWB Caernarfon ddarparu cymorth i fusnesau i wneud ceisiadau am grant.
- Dywedodd llawer ohonoch ein bod ni'n gwneud gwaith da ar hyrwyddo'r dref ac adeiladu ei hunaniaeth gyda'n digwyddiadau a'n nawdd, er bod rhai yn dweud nad oedden nhw wedi gweld ein hymdrechion yn eu rhan nhw o'r dref.

Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr ac wedi ymgorffori cymaint â phosibl yn y cynllun busnes hwn. Mae'r prosiectau a'r gwasanaethau y mae HWB Caernarfon yn bwriadu eu darparu yn ei drydydd tymor AGB yn seiliedig ar eich blaenoriaethau! Diolch i bawb am eich mewnbwn.

Tystebau

"Fel busnes sy'n gweithio'n agos gyda HWB Caernarfon, rydym yn cefnogi'n llawn y gwaith pwysig maen nhw'n ei wneud i hyrwyddo'r dref a'i chymuned fasnachol. Mae'r sefydliad wedi bod yn llais cryf i fusnesau lleol, yn enwedig trwy eu grantiau bach effeithiol – fel ein grant o £500 ar gyfer arwydd newydd, sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n presenoldeb. Mae HWB yn chwarae rhan hanfodol wrth wthio Caernarfon ymlaen fel lle i fyw, ymweld â hi a gwneud busnes. Yn yr amseroedd heriol hyn, mae angen cefnogaeth barhaus i sicrhau bod y dref yn ffynnu. Edrychwn ymlaen at gydweithio â nhw i greu dyfodol gwell i'r dref a'i busnesau."
Aled a Heledd Davies-Jones, 'Castle Gift Shop'

"Ar ôl rhedeg busnesau yng Nghaernarfon am y 40 mlynedd diwethaf, ac fel cyn-aelod o'r Siambr Fasnach, hoffwn leisio fy nghefnogaeth i HWB Caernarfon. Mae HWB yn darparu cyswllt hanfodol o gefnogaeth rhwng y gymuned fusnes a Chyngor Gwynedd yn ogystal â helpu i gydlynu ysbryd o gydlyniant a chydweithrediad rhwng y busnesau eu hunain. Mae'r cyllid y mae'n ei

ddarparu ar gyfer digwyddiadau, a'r adnoddau y mae'n eu cynhyrchu (e.e. map canol tref, wifi) rwy'n credu eu bod yn hanfodol i gyflwyno'r dref fel canolfan flaengar a llwyddiannus i'r gymuned leol ac ymwelwyr."
Sue Kirk, Teithiau Hanesyddol Cymru

"Rwyf wedi bod yn berchennog busnes yn nhref Caernarfon ers 1989. Mae dyfodiad HWB wedi bod o gymorth mawr i'r busnesau bach yn y dref sydd wedi dechrau teimlo'r straen o redeg busnes mewn dirywiad economaidd cyn ac ar ôl Covid. Mae'r dref hon yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth yn ogystal â chefnogaeth gan bobl leol o ddydd i ddydd. Fel llawer o fusnesau eraill, rydym wedi derbyn cefnogaeth gan HWB i wella'r tu allan i'n hadeilad. Mae HWB wedi cefnogi'r Ŵyl Fwyd flynyddol sy'n dod â'r cyllid angenrheidiol i'r dref bob mis Mai, yn ogystal â threfnu digwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn. Yn wahanol i drefi cyfagos eraill, mae HWB wedi sicrhau bod gennym Ganolfan Groeso sy'n adnodd hanfodol i ymwelwyr a phobl leol hefyd.
Trwy gydweithio â'r Cyngor a busnesau'r dref, mae HWB yn sicrhau dyfodol i'r dref. Diolch am eich cefnogaeth a'ch gwasanaeth."
Carys Owen, Siop Y Ddraig

"Mae HWB Caernarfon wedi bod yn un o'r rhai sy'n darparu'r grant mwyaf i Gŵyl Fwyd Caernarfon bob blwyddyn. Mae'r ŵyl yn un o'r prif ddigwyddiadau a gynhelir yng Nghaernarfon ac felly mae'n ddigwyddiad gyda chostau ariannol sylweddol. Mae derbyn cymorth ariannol gan HWB bob blwyddyn yn ein helpu i sicrhau y gallwn barhau i gynnal yr ŵyl ond hefyd yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn talu ein costau. Daw'r grant hwn o'r incwm y mae HWB yn ei gasglu gan fusnesau'r dref ac felly mae'n ffordd i fusnesau gyfrannu a chefnogi digwyddiad sy'n denu dros 40,000 o ymwelwyr i'r dref, llawer ohonynt yn aros i fwynhau'r hyn sydd gan y dref i'w gynnig y tu hwnt i oriau'r ŵyl ei hun. Derbyniodd Gŵyl Fwyd Caernarfon y wobr gyntaf drwy Ogledd Cymru fel 'digwyddiad y flwyddyn' cyn mynd ymlaen i'r rownd derfynol drwy Gymru yn y 'Go Tourism Awards'. Mae hyn yn destun balchder i ni gan ein bod yn gallu cynnig digwyddiad o'r fath safon yn ein tref - does dim amheuaeth na allem fod wedi gwneud hynny ein hunain ac mae'r gefnogaeth grant blynyddol gan HWB, ynghyd â chefnogaeth Rheolwr HWB, yn un o'r ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant yr Ŵyl."
Mirain Roberts (Ysgrifennydd) a Nici Beech (Cadeirydd), Gŵyl Fwyd Caernarfon

Elfennau Allweddol Cynllun Trydydd Tymor AGB 2026 - 2031

Fe wnaethoch chi ddweud wrthym eich bod chi'n cefnogi ein pedair thema bresennol ac yr hoffech i'r rhain barhau, felly byddant yn gwneud hynny!

1. **Yn Falch o Hyrwyddo:** codi proffil Caernarfon, cynyddu nifer a gwariant yr ymwelwyr, o fudd i'n busnesau a'n cymuned.
   - ✓ Parhau i weithredu'r Ganolfan Groeso gan hyrwyddo'r busnesau a darparu gwasanaeth gwerthfawr i'n hymwelwyr
   - ✓ Noddi a threfnu digwyddiadau allweddol yng Nghanol y Dref, gan annog ymwelwyr a gwella delwedd ein tref
   - ✓ Cydweithio â rhanddeiliaid a gweithredu strategaethau i gynyddu apêl a niferoedd ymwelwyr Caernarfon
2. **Glân, Gwyrdd ac Eco-gyfeillgar:** creu tref fywiog, deniadol, hygyrch, a phrofiad unigryw i'n hymwelwyr.
   - ✓ Darparu cynlluniau grant bach ar gyfer busnesau, gan wella ymddangosiad yr eiddo a hyrwyddo canol tref croesawgar
   - ✓ Codi baneri uwchben llawer o fusnesau canol y dref bob gwanwyn a Choed Nadolig bach bob mis Rhagfyr
   - ✓ Cydweithio â grwpiau cymunedol, ysgolion ac eraill i ysbrydoli a hyrwyddo prosiectau gwyrdd a mentrau glanhau
3. **Man Diogel:** hyrwyddo lles, darparu mannau diogel, ac amgylchedd croesawgar i'n hymwelwyr a'n trigolion.
   - ✓ Creu a noddi rhaglenni lles a darparu gweithdai, grwpiau ffocws a digwyddiadau cymdeithasol am ddim
   - ✓ Cynnal a noddi digwyddiadau sy'n gyfeillgar i deuluoedd a gweithredu prosiectau diogel a phleserus i bawb
   - ✓ Cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru a rhanddeiliaid, gan weithredu mannau diogel a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
4. **Cryfach Gyda'n Gilydd:** darparu cymorth o safon i'n haelodau, gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid, sicrhau cynhwysiant.
   - ✓ Cefnogi ein haelodau gyda chyfathrebu ystyrlon, cyfleoedd rhwydweithio, addasu ein gwasanaethau er lles cydweithredol
   - ✓ Dathlu digwyddiadau diwylliannol ac amrywiaeth y dref tra'n parchu gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol, gan hybu cynhwysiant
   - ✓ Adeiladu partneriaethau a mentrau ar y cyd gyda'n haelodau, elusennau lleol, ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni blaenoriaethau

Gan ystyried eich adborth penodol, byddwn yn sicrhau bod y meysydd ffocws hyn yn cynnwys:

Cefnogi pob busnes

Rydym am i bob busnes lleol gael dweud eu dweud ac elwa o fod yn rhan o'n AGB, waeth beth fo'u sector neu eu lleoliad. Mae hyn yn golygu ailasesu ble a sut rydym yn darparu ein prosiectau a'n gwasanaethau, gan sicrhau bod y busnesau ar gyrion yr ardal AGB yn cael eu cynnwys. Byddwn yn cynyddu cyfleoedd rhwydweithio ac yn annog mwy o ymgysylltu trwy gyfarfodydd anffurfiol. Gan weithio fel cydweithfa o fusnesau, gallwn ddefnyddio pŵer ein AGB i lobïo newid ac i sicrhau cyfleoedd i'n tref.
Fe wnaethoch chi ddweud wrthym yr hoffech weld cyfleoedd grant ar gyfer busnesau newydd, gan annog entrepreneuriaeth a lleihau cyfraddau'r siopau gwag. Byddwn yn lansio cynllun grant ar gyfer hyn yn y tymor newydd, os bydd y bleidlais yn llwyddiannus.
Fe wnaethoch hefyd fynegi cefnogaeth i'n syniad o gynllun Cerdyn Rhodd Caernarfon, gan annog pobl i siopa a gwario'n lleol. Rydym yn bwriadu lansio'r cynllun yn ystod 2026 os rhoddir tymor AGB newydd.

Cryfhau partneriaethau

Dywedasoch wrthym ei bod yn hanfodol bod HWB Caernarfon yn cydweithio â'n partneriaid statudol i sicrhau bod y dref yn ddeniadol, yn lân ac yn groesawgar, felly bydd hyn yn rhan allweddol o'n hagenda. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Tref Caernarfon, gan sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu gwneud i'r eithaf er budd ein tref a'n busnesau. Mae angen mwy o ymdrech i gadw canol y dref yn lân ac yn daclus, a byddwn yn cynyddu ein gwaith a'n cydweithrediad gyda Thîm Tacluso Cyngor Gwynedd. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd eich lefi AGB yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau ychwanegol ac ni chaiff ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau y mae'r awdurdodau eisoes wedi addo eu gwneud, sy'n cael eu hariannu trwy eich ardrethi busnes.

Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref

3.1.1 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf), mae'r Cyngor eisoes yn codi ffi am y mwyafrif o wasanaethau gofal a/neu gefnogaeth drwy ddilyn y polisi codi tâl cyfredol. Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ar draws y gwasanaethau ac er mwyn cynnal gwasanaethau cynaliadwy i'r dyfodol, mae'r adroddiad yn argymell diweddaru'r polisi. Bydd y newidiadau sy'n cael eu hargymell yn golygu y bydd rhai unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaethau am ddim yn hanesyddol yn talu ffi i'r dyfodol, ond bydd yr egwyddorion canlynol yn parhau i warchod trigolion fwyaf bregus Gwynedd:

- Mae gan bawb sy'n derbyn gwasanaethau gofal a/neu gefnogaeth hawl i asesiad ariannol er mwyn penderfynu os oes ganddynt y modd i gyfrannu at eu gofal/cefnogaeth neu beidio.
- Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau fod gan berson sy'n talu am ofal isafswm incwm i'w galluogi i dalu rhent, biliau, bwyd a chostau byw eraill cyn cychwyn talu am ofal. Mae'r isafswm incwm yma yn amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa'r unigolyn, budd-daliadau ayyb.
- Ni fydd unrhyw un yn talu mwy na £100 yr wythnos am wasanaeth gofal di-breswyl (unrhyw ofal neu gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu tu allan i gartref preswyl neu nyrsio cofrestredig).
- Mae Tîm Incwm a Lles y Cyngor yn cefnogi bobl drwy'r broses o dderbyn asesiad ariannol, ac hefyd yn cynnig cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys iddyn nhw os yn gorfod talu am ofal a/neu gefnogaeth.

3.1.2 Mae'r Polisi Codi Tâl am Ofal presennol mewn lle yng Ngwynedd ers 2017, gweler Atodiad 3. Lluniwyd y polisi yn dilyn pasio'r Ddeddf er mwyn:

- cadarnhau bwriad Cyngor Gwynedd i godi tâl am wasanaethau gofal preswyl/nyrsio a rhai gwasanaethau dibreswyl
- cadarnhau fod Cyngor Gwynedd yn ymgorffori gofynion rheoliadau a chod ymarfer y Ddeddf yn y polisi

3.2 Cod ymarfer y Ddeddf

3.2.1 Mae gan gynghorau yr hawl i godi ffi am wasanaethau gofal a chymorth, ond mae'n rhaid gweithredu yn unol â Rhan 4 a 5 o'r cod ymarfer (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol):

"Oni bai am ofynion y Ddeddf, y Rheoliadau a'r cod hwn, pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu arfer ei ddisgresiwn i godi ffi am ofal a chymorth y mae'n ei ddarparu neu ei drefnu, mater i'r awdurdod hwnnw yw llunio ei bolisi a'i gynnwys ynghylch codi ffioedd o'r fath. Yn unol â gofynion y Ddeddf, y Rheoliadau a'r cod hwn, mae angen i awdurdodau benderfynu pa ofal a chymorth, os o gwbl, y byddant yn codi ffi amdano, natur a lefel unrhyw ffioedd a godir a sut y caiff y ffioedd eu cymhwyso at unigolion penodol sy'n derbyn gofal a chymorth."

3.2.2 Nid yw'r addasiadau sy'n cael eu hargymell i'r polisi yn effeithio ar ffioedd am wasanaethau preswyl a ddarperir mewn cartrefi preswyl/nyrsio, dim ond gwasanaethau di-breswyl.

3.2.3 Mae rhai sefyllfaoedd (isod), lle mae'r Ddeddf yn nodi'n glir na fydd yr awdurdod lleol yn cael codi am wasanaethau gofal a chymorth, a bydd polisi Gwynedd yn parhau i gydymffurfio â'r rheoliadau yma:

- gofal a chymorth a ddarperir i'r rhai sydd â Chlefyd Creutzfeldt-Jacob;
- gwasanaethau/cymorth ôl-ofal a ddarperir o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- asesiadau o anghenion, cynllunio gofal, llunio cynlluniau gofal ayyb.
- cludiant i wasanaeth dydd lle y darperir cludiant fel rhan o'r broses o ddiwallu anghenion person;
- eiriolaeth broffesiynol annibynnol pan fydd awdurdod lleol wedi trefnu i ddarparu hyn yn unol â'r cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 y Ddeddf.
- gofal a chymorth a ddarperir fel ail-alluogi a drefnwyd o dan Ran 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) neu Ran 4 (Diwallu Anghenion) y Ddeddf, neu ail-alluogi a drefnir fel taliadau uniongyrchol o dan adrannau 50 neu 52 (taliadau uniongyrchol) y Ddeddf, i berson am hyd at 6 wythnos i'w alluogi i gynnal neu adennill ei allu i fyw'n annibynnol gartref.

3.2.4 Yn ogystal, mae rhai gwasanaethau lle mae gan Gyngor Gwynedd y disgresiwn i godi ffi ar eu cyfer ond sydd wedi bod yn cael eu darparu am ddim yn hanesyddol:

- Gofal Dydd a ddarperir mewn canolfannau/lleoliadau penodol y tu allan i'r cartref (er mae unigolion yn cyfrannu at eu darpariaeth bwyd).
- Gwasanaethau Cefnogol Iechyd Meddwl yn y gymuned (ag eithrio gwasanaethau o dan rhan 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1993)
- Gwasanaethau Cefnogol Dementia yn y gymuned.

3.2.5 Un rhan o'r argymhelliad ydi i roi'r hawl i'r Adran Oedolion godi ffi am y gwasanaethau yma, yn ddibynnol ar asesiad ariannol.

3.3 Gofalwyr di-dâl

3.3.1 Ail ran yr argymhelliad yw i addasu'r geiriad a gwneud y cymal ar ofalwyr di-dâl o fewn y polisi codi tâl yn fwy eglur.

3.3.2 Diffinir gofalwr di-dâl fel:

“rhywun sy’n gofalu neu sy’n bwriadu darparu gofal di-dâl i oedolyn oherwydd salwch corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar sylweddau, neu ofalu am blentyn anabl” (Carers Trust, 2024)

3.3.3 O ran gofalwyr di-dâl, mae’r Ddeddf yn nodi:

“Pan fydd awdurdod lleol yn diwallu anghenion gofalwr sy'n oedolyn drwy drefnu neu roi cymorth yn uniongyrchol iddo, neu'n darparu taliadau uniongyrchol i'w alluogi i gael y cymorth hwn, mae ganddo ddisgresiwn i godi ffi ar y gofalwr sy'n oedolyn am y rhain”.

3.3.4 Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw’r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dâl ac argymhellir fod y polisi yma’n parhau. Mae nifer o resymau, ond yn bennaf gwyddom fod gofalwyr di-dâl yn rhoi gofal a chefnogaeth gwerthfawr i unigolion a bod hyn yn tynnu pwysau sylweddol oddi ar wasanaethau gofal a chymorth. Mae angen i’r Cyngor barhau i gefnogi gofalwyr di-dâl i gyflawni’r rôl werthfawr yma. Dyma’r egwyddorion fydd y Cyngor yn eu dilyn wrth benderfynu os fydd ffi yn cael ei godi am wasanaeth :

1. Ni fydd y cyngor yn codi tâl am wasanaethau uniongyrchol i gefnogi gofalwyr di-dâl (sef gwasanaeth sydd yn enw’r gofalydd lle nad oes unrhyw elfen o ofal/cyfrifoldeb am y person sydd angen gofal).
2. Dylid codi tâl am unrhyw wasanaeth lle mae elfen o ofal i’r unigolyn sy’n derbyn cymorth e.e. gofal personol, gwasanaeth cadw cwmni neu oruchwyliaeth. Byddai’r gwasanaeth yma yn rhan o gynllun gofal a chefnogaeth yr unigolyn sydd angen gofal a nhw fyddai yn gyfrifol am y ffi, yn hytrach na’r gofalwr di-dâl. Wrth gwrs, bydd faint fydd unigolyn yn ei gyfrannu yn ddibynnol ar asesiad ariannol.
3. Byddai’r eithriadau arferol sydd wedi eu dyfynnu o’r cod ymarfer yn rhan 3.2 uchod yn berthnasol.

3.4 Cefnogaeth cyflogaeth a hyfforddiant

3.4.1 Yn y gwasanaeth Anableddau Dysgu yn benodol, ond o fewn gwasanaethau eraill hefyd, mae pwyslais yn cael ei roi ar drio cefnogi unigolion mewn i gyflogaeth neu gyfleoedd hyfforddiant lle fo’r unigolyn yn awyddus i wneud hyn. Mae hyn yn aml yn lle cefnogaeth mewn canolfan ddydd traddodiadol. Mae hyn eto yn tynnu pwysau oddi ar wasanaethau gofal a chymorth traddodiadol, yn ogystal a chyfrannu at yr economi leol a’r holl fuddion eraill sydd yn dod law yn llaw. Argymhellir peidio codi ffi am y gwasanaeth/gefnogaeth i gael bobl fewn i gyflogaeth/hyfforddiant.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Effaith ariannol

4.1.1 Yn y sefyllfa ariannol bresennol, mae’n anorfod ystyried codi ffioedd am wasanaethau lle mae disgresiwn i'r Cyngor wneud. Mae pwysau ar y gyllideb sydd ar gael i gynnal gwasanaethau gofal, ond mae'r angen am ofal yn cynyddu. Mae pwysau cynyddol ar wasanaethau gofal wrth i boblogaeth Gwynedd heneiddio a byw’n hirach gyda gwaeledd a/neu anableddau (Comisiwn Bevan, 2024).

4.1.2 Mae adroddiad Llechen Lân wedi amlygu’r angen i fynd i'r afael â’r her sy’n ein wynebu drwy newid mewn ymarfer a symud oddi wrth gwasanaethau traddodiadol tuag at wasanaethau sy’n canolbwyntio ar gryfderau, ond mae addasu’r polisi codi tâl i uchafu cyfraniadau at ein

gwasanaethau yn ystyriaeth bwysig law yn llaw. Mae'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus gan rai cynghorau yn barod, er enghraifft mae 4 allan o'r 6 Cyngor yn y Gogledd eisoes yn codi tâl am wasanaethau dydd.

4.1.3 Mae'n anodd rhoi ffigwr manwl ar faint o incwm fyddai'r newidiadau yn ei gynhyrchu gan fod pawb yn gymwys am asesiad ariannol, ond disgwylir y byddai'r ffigwr o gwmpas £100,000 y flwyddyn yn ychwanegol. Byddai gan bawb sy'n derbyn gofal a chymorth yr hawl i asesiad o'u sefyllfa ariannol cyn gorfod cyfrannu, ac mae uchafswm o £100 yr wythnos wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru.

4.2 Cysondeb

4.2.1 Mae'r cod ymarfer hefyd yn nodi'r egwyddorion canlynol a ddylai fod yn greiddiol i bolisïau codi tâl am ofal:

- bod yn gyson, er mwyn dileu amrywiadau yn y ffordd y caiff pobl eu hasesu'n ariannol ac y codir ffioedd arnynt;
- cymhwyso ffioedd yn gydradd fel y bydd y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth tebyg yn cael eu trin yn yr un modd a lleihau anghysondebau rhwng codi am fathau gwahanol o ofal a chymorth i'r eithaf;
- annog a galluogi'r rhai sy'n dymuno aros mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant neu ymgymryd â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, neu gynllunio ar gyfer costau diwallu eu hanghenion yn y dyfodol, i wneud hynny;
- bod yn gynaliadwy i awdurdodau lleol yn yr hirdymor.

4.2.2 Bydd y newidiadau sy'n cael eu hargymell yn galluogi codi'n gyson am wasanaethau gofal a chymorth, lle bynnag ac i bwy bynnag y mae'n cael ei roi. Bydd y newidiadau hefyd yn annog a galluogi unigolion, lle bo hynny'n opsiwn, i gael mynediad at hyfforddiant, addysg, cyflogaeth ayyb yn hytrach na hyrwyddo'r model traddodiadol o wasanaeth gofal/cefnogaeth ar un safle.

5. <u>UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD</u>

5.1 Ymgynghoriad cyhoeddus

5.1.1 Mae cod ymarfer y ddeddf yn nodi;

"Pan fydd awdurdodau yn llunio polisïau newydd, neu'n diwygio polisïau sy'n bodoli eisoes yn sylweddol, rhaid iddynt ymgynghori â'r rhai yr effeithir arnynt yn lleol ac ystyried eu barn cyn penderfynu ar ba bolisi, neu ba ddiwygiadau i'w polisi, y dylent ei roi neu eu rhoi ar waith".

5.1.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng y 14/11/2024 a'r 23/12/2024. Derbyniwyd 73 ymateb ac mae canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld yn llawn yn atodiad 1. I grynhoi:

- Yn gyffredinol, nid oedd tua hanner yr ymatebwyr yn hyderus fod ganddynt ddealltwriaeth o'r polisi a pha wasanaethau sydd yn denu ffi ar hyn o bryd, yn enwedig o bersbectif gofalwyr di-dâl.
- Amlygwyd barn cryf y dylai gwasanaethau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl barhau i fod am ddim, ond bod y polisi yn aneglur fel ag y mae.
- 71% yn teimlo na ddylid codi ffi am wasanaethau cefnogol iechyd meddwl ac ymhlith y sylwadau roedd rhai wedi nodi y byddai gwneud hynny yn rhoi fwy o straen ar unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl.
- 7 allan o 66 o ymatebion wedi nodi'n benodol y dylai gwasanaethau dydd barhau i fod am ddim.

5.2 Deddf Cydraddoldeb 2010

5.2.1 Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad 2. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Gan fod ymdrech rhagweithiol i sicrhau fod bob unigolyn yn cael asesiad ariannol fel nad oes unrhyw un sy'n methu a fforddio talu yn gorfod gwneud hynny, nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw effaith negyddol ar unigolion gyda nodweddion cydraddoldeb. Yn hytrach, mae'n adnabod fod cysoni'r ffioedd yn hyrwyddo cyfle cyfartal o safbwynt mynediad at gefnogaeth a gofal ar draws.

5.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

5.3.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r polisi wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac yn unol a'r 5 ffordd o weithio.

6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Argymhellir y dylid diweddaru polisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a gweithredu'r polisi newydd ar unwaith (Atodiad 4). Argymhellir gweithio gyda unigolion sydd yn cael eu heffeithio dros y misoedd nesaf fel bod pawb wedi cael cefnogaeth ac asesiad ariannol erbyn y flwyddyn ariannol nesaf sy'n cychwyn ar y 1/4/26. Dyma grynodeb o'r diweddariadau:

- Parhau i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i ofalwyr di-dâl am ddim, er fod y disgresiwn gan y Cyngor i godi ffi.
- Egluro yn glir pa wasanaethau i ofalwyr fydd am ddim, a pha wasanaethau y bydd ffi amdanynt.
- Rhoi'r hawl o fewn y polisi i'r Adran Oedolion godi ffi am wasanaethau dydd 'traddodiadol' ar safle penodol, sydd wedi bod am ddim yn hanesyddol. Bydd y ffioedd yma yn cael eu pennu yn flynyddol fel yr holl ffioedd eraill. Er gwybodaeth, byddai cost cefnogaeth 1:1 mewn gwasanaeth dydd yn £24.21 yr awr ar gyfer 2025/26, a cost cefnogaeth mewn grŵp yn £10.90 yr awr. Disgwylir codi ffi hyd at uchafswm o £100 yr wythnos am y gwasanaeth yma, a hynny ar sail asesiad ariannol o sefyllfa pob unigolyn. Byddwn yn sicrhau cefnogaeth i unigolion sy'n cael eu heffeithio gan y cynnydd mwyaf er mwyn gwarchod eu mynediad at y gwasanaethau sydd o fudd iddynt.
- Rhoi'r hawl o fewn y polisi i'r Adran Oedolion godi ffi hyd at yr uchafswm o £100 yr wythnos am pob gwasanaeth cefnogol, gan gynnwys gwasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl (ag eithrio gwasanaethau o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl). Bydd hyn yn cysoni'r polisi ar draws yr holl wasanaethau.
- Peidio codi ffi am wasanaethau cefnogi unigolion fewn i gyflogaeth a/neu hyfforddiant.

6.2 Pwysleisir, os yw'r penderfyniad yn cael ei wneud i addasu'r polisi codi tâl am ofal, bydd yr egwyddorion canlynol yn parhau i warchod unigolion bregus Gwynedd :

- Bydd pawb sydd yn derbyn gwasanaethau gofal a/neu gefnogaeth yn gymwys am asesiad ariannol. Bydd yr asesiad yma yn ystyried asedau a lefel incwm yr unigolyn, ac yn penderfynu ar gyfraniad sydd yn fforddiadwy i'r unigolyn. Mae gan unigolion yr hawl i wrthod yr asesiad ariannol, ond byddant yn talu am gost llawn eu gofal, hyd at yr uchafswm o £100 yr wythnos.
- Os ydi'r asesiad yn dangos fod unigolyn yn gorfod cyfrannu, mi fydd cefnogaeth ar gael gan y Cyngor i sicrhau eu bod yn derbyn y budd-daliadau y maent yn gymwys i'w derbyn.
- Os yw'r asesiad ariannol yn dangos nad oes gan yr unigolyn y modd ariannol o gyfrannu at y gofal, mi fyddant yn derbyn y gwasanaeth am ddim. Mi fydd hyn yn cael ei ail asesu os yw sefyllfa yr unigolyn yn newid.
- Mae uchafswm cyfraniad yn cael ei osod gan Llywodraeth Cymru o £100 yr wythnos. Ni fydd unrhyw un yn cyfrannu mwy na £100 yr wythnos am eu pecyn gofal di-breswyl.

6.3 Yn ymarferol, fe ddylai'r egwyddorion uchod olygu na fydd unrhyw un yn cyfrannu mwy nag y gallan nhw ei fforddio am ofal a/neu gefnogaeth. Os oes unrhyw un yn anghytuno gyda'r asesiad ariannol, mae modd apelio, ac mae'r wybodaeth am sut i wneud hyn yn cael ei wneud yn glir i unigolion wrth iddyn nhw fynd drwy'r broses o gael asesiad ariannol.

7. SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL.

7.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn croesawu'r diweddariad i'r Polisi hwn sy'n cysoni ffioedd am ofal cymdeithasol i oedolion yng Ngwynedd. Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae sefyllfa ariannol y gwasanaethau sy'n darparu gofal i oedolion yn wynebu pwysau parhaus, fel sydd wedi ei amlygu gyda'r gwaith Llechen Lân. Mae diweddaru'r Polisi Codi Tâl yn rhan allweddol o llywodraethiant y gwasanaeth, a bydd ei gynnwys yn cael ei ystyried wrth symud ymlaen gyda'r drefn gyllidebu.

7.2 Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar broses ymgynghori ac ystyriaeth o'r gofynion ynglŷn a ffioedd am wasanaethau gofal. Darparwyd asesiad ardrawiad ynghyd a chrynodeb o'r cyd destun statudol cyffredinol. Nid oes gennyf sylwadau pellach i gynnig o safbwynt priodoldeb.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 - Adroddiad yn amlinellu ymatebion yr ymgynghoriad

Atodiad 2 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Atodiad 3 - Polisi Codi Tâl am Ofal presennol

Atodiad 4 – Polisi Codi Tâl am Ofal diwygiedig

Ymgynghoriad Polisi Codi Tâl am Ofal

Dyddiad Cau 23/12/2024

Crynodeb

Fel crynodeb, mae'r prif ganlyniadau fel y ganlyn:

- Roedd 73 ymateb i'r ymgynghoriad.

- Roedd 38% o'r ymatebwyr yn aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal, 25% yn ofalydd di-dâl a 4% yn ddefnyddiwr gwasanaethau gofal. Atebodd 33% 'arall'.

- Roedd 55% yn ymwybodol o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd. Roedd y 45% arall yn anymwybodol.
    - Roedd 15 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn uchod, y thema fwyaf cyffredin oedd fod y Cyngor heb gysylltu gyda teuluoedd na gofalwyr neu wedi clywed gan eraill.

- Roedd 72% o'r ymatebwyr wedi dewis 'nac ydi' fel ymateb i'r cwestiwn os yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu, a 28% wedi dewis 'ydi'.
    - Roedd 14 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd aneglur/ddim yn deall y polisi.

- Roedd 71% o ymatebwyr wedi dewis dylai barhau y polisi lle nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd), 14% wedi dewis na ddylai a 15% dim barn cryf.
    - Roedd 17 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd byddai codi tal yn cosbi gofalwyr yn ariannol / gofalwyr methu fforddio talu.

- Roedd 71% o'r ymatebwyr wedi ymateb na ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl, gyda 21% wedi nodi dylai a 8% dim barn cryf.
    - Roedd 15 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd y dylai fod am ddim.

- Fel ymateb i'r cwestiwn 'os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd, dylai'r ffi gael ei godi drwy:' roedd 42% wedi dewis ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb, 39% wedi dewis ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos), ac 18% dim barn cryf.

  - Roedd 26 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd dylasai fod am ddim / anghytuno gyda codi ffi.

- Roedd 51% o ymatebwyr wedi dewis na ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014), gyda 32% yn dewis dylai a 17% yn dewis dim barn cryf.
  - Roedd 14 o ymatebwyr wedi nodi sylwadau i gyd-fynd gyda'r cwestiwn yma, y thema fwyaf cyffredin oedd yn darparu eu trafnidiaeth eu hunain yn barod.

- Roedd 48% o ymatebwyr wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael effaith negyddol neu ychydig o effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned, tra fod 44% wedi dewis dim effaith, a 7% wedi dewis effaith gadarnhaol neu ychydig o effaith gadarnhaol.

- Roedd y mwyafrif 69% wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael effaith negyddol neu ychydig o effaith negyddol ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, tra fod 17% wedi dewis dim effaith, a 14% wedi dewis effaith gadarnhaol neu ychydig o effaith gadarnhaol.

- Lle yn briodol, mae dadansoddiad pellach wedi cael ei wneud i ddangos ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg fesul ymateb i'r cwestiwn 'Y ydych yn:'. Mae'r dadansoddiad yma wedi cael ei gynnwys yn Atodiad A. Gan fod nifer ymatebwyr yn rhai o'r grwpiau yn isel mae angen cymryd gofal wrth edrych ar y dadansoddiad yma.

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

2.0 Canlyniadau Yr Arolwg
- 2.1 Yr Ymatebwyr
- 2.2 Ymwybyddiaeth o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd
- 2.3 Eglurder y Polisi Codi Tâl
- 2.4 Ffi am Ofal Uniongyrchol i Ofalwyr Di-dal
- 2.5 Ffi am Wasanaethau Cefnogol Iechyd Meddwl
- 2.6 Codi Ffi am Fynychu Gwasanaethau Dydd
- 2.7 Codi Ffi am Drafnidiaeth

3.0 Canlyniadau Eich barn
- 3.1 Effaith ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned
- 3.2 Effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaiddgymdeithasol

4.0 Canlyniadau Cwestiynau Cydraddoldeb – Amdanoch chi
- 4.1 Rhyw
- 4.2 Grŵp Oedran
- 4.3 Sgiliau yn y Gymraeg
- 4.4 Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol
- 4.5 Hil
- 4.6 Crefydd
- 4.7 Rhywioldeb
- 4.8 Hunaniaeth Rhywedd
- 4.9 Anabledd

Atodiad A

1.0 Cyflwyniad

Mae bwriad diweddaru polisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau fod y polisi yn parhau i gyd fynd a gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n mynnu nad yw unrhyw un talu mwy nag y gallant fforddio'n rhesymol.

Mae gofyn ar y Cyngor i adolygu ei ffioedd yn amserol er mwyn sicrhau fod y ffioedd sy'n cael eu codi yn adlewyrchu'r costau gwirioneddol o ddarparu gwasanaethau.

Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys a chynaliadwy i'r dyfodol, un ystyriaeth fydd i ychwanegu'r hawl i'r Cyngor godi am wasanaethau penodol sydd wedi bod am ddim yn hanesyddol (er enghraifft gwasanaethau dydd).

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd i gael eich barn ar rai o'r agweddau o fewn y polisi. Bydd canlyniadau yr ymgynghoriad yn bwydo mewn i argymhellion o addasiadau i'r polisi fydd yn mynd gerbron cabinet y Cyngor yn fuan yn 2025.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad gau ar y 23 o Ragfyr 2024 am 5 o gloch.

Roedd 73 ymateb i'r ymgynghoriad.

2.0 Canlyniadau Yr Arolwg

2.1 Yr Ymatebwyr

Roedd 72 ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 1).

Tabl 1 – Ymatebion i'r cwestiwn 'A ydych yn:' fel nifer a canran

A ydych yn:	**Nifer**	**Canran**
Arall	24	33%
Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal	27	38%
Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal	3	4%
Gofalydd di-dâl	18	25%
Cyfanswm	**72**	**100%**

Roedd 38% (n=27) o'r ymatebwyr ymatebodd i'r cwestiwn uchod wedi dewis eu bod yn 'aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal', 33% (n=24) wedi dewis 'arall', 25% (n=18) wedi dewis eu bod yn 'ofalydd di-dâl' a 4% (n=3) wedi dewis 'defnyddiwr gwasanaethau gofal'.

O'r 24 o ymatebwyr dewisodd arall, ni wnaeth y mwyafrif (n=18) nodi unrhyw sylw ychwanegol. Fe wnaeth y 6 ymatebwr arall nodi eu bod yn weithiwr cymdeithasol (n=2), aelod o deulu person wedi marw oedd mewn gofal (n=1), aelod o'r cyhoedd (n=1), gofalwr sy'n cael eu talu (n=1) a person hŷn (n=1).

Lle yn briodol, mae dadansoddiad pellach wedi cael ei wneud i ddangos ymateb y gwahanol grwpiau sydd wedi eu nodi yn nhabl 1 i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg. Mae'r dadansoddiad yma wedi cael ei gynnwys yn Atodiad A. Dylai peth ofal gael ei ddefnyddio pan yn edrych ar yr ymatebion fesul grŵp yn y tabl yma, gan fod nifer ymatebwyr yn rhai o'r grwpiau yn isel.

2.2 Ymwybyddiaeth o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd

Roedd 73 ymateb i'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?:', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 2).

Tabl 2 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?' fel nifer a canran

Ymwybyddiaeth	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn ymwybodol	33	45%
Ymwybodol	40	55%
Cyfanswm	**73**	**100%**

Roedd 55% (n=40) o'r ymatebwyr yn ymwybodol o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd, tra fod 45% (n=33) ddim yn ymwybodol. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 15 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 3).

Tabl 3 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?' fel nifer

Thema	**Nifer (15 ymateb)**

Cyngor heb gysylltu gyda teuluoedd na gofalwyr neu wedi clywed gan eraill	5
Talu/cyfrannu yn barod	2
Ymwybodol ond ddim yn deall sut mae'n gweithio	2
Angen cysylltu gyda defnyddwyr unigol am godi ffioedd	1
Angen fod yn fwy eglur beth yw yr hafaliad 'Minimum Income Amount'	1
Anghytuno gyda'r cyngor yn codi ffi	1
Ymgynghoriad ddim ar agor am ddigon hir ac ar gyfnod prysur	1
Cytuno ond angen eglurder	1
Sefyllfa personol yr unigolyn	1
Ydi hwn am ddim i oedolion sydd ei angen	1
Cyfanswm Themâu (nid sylwadau)	**16**

Roedd 16 prif thema yn y sylwadau yma. Y thema mwyaf cyffredin oedd Cyngor heb gysylltu gyda teuluoedd na gofalwyr neu wedi clywed gan eraill (n=5), wedyn eu bod yn talu/cyfrannu yn barod (n=2) ac eu bod yn ymwybodol ond ddim yn deall sut mae'n gweithio (n=2).

2.3 Eglurder y Polisi Codi Tâl

Roedd 71 ymateb i'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 4).

Tabl 4 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?' fel nifer a canran

Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur	**Nifer**	**Canran**
Nac ydi	51	72%
Ydi	20	28%
Cyfanswm Popeth	**71**	**100%**

Dewisodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (72%, n=51) 'nac ydi' fel ymateb i'r cwestiwn ynglŷn ag eglurder y polisi codi tâl am ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu, gyda 28% (n=20) wedi dewis 'ydi'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 14 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 5)

Tabl 5 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?' fel nifer

Thema	**Nifer (14 ymateb)**

Aneglur / dim yn deall y polisi	4
Adroddiad ddim yn cyfeirio at ofalwyr di-dal	1
Ddim yn siŵr sut mae'n gweithio	1
Cyfrannu yn barod am ofal ysbaid	1
Ddim yn sicr beth sydd ar gael am ddim i ofalwyr di-dal	1
Rhan fwyaf o ofalwyr ddim yn ymwybodol o'r polisi, pobl anabl ddim yn gwybod gall ffi cael ei godi	1
Dim ateb	1
Gall codi ffi am amser mewn uned rwystro gofalwyr rhag allu gweithio	1
Gofalu yn gyfrifoldeb hir dymor	1
Heb ddarllen y polisi	1
Yndi	1
Cyfanswm Themâu	**14**

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau oedd aneglur / ddim yn deall y polisi (n=4). Roedd nifer o sylwadau yn dilyn thema tebyg gan gynnwys 'ddim yn siŵr sut mae'r gweithio (n=1), ddim yn sicr beth sydd ar gael am ddim i ofalwyr di-dal (n=1) a rhan fwyaf o ofalwyr ddim yn ymwybodol o'r polisi, pobl anabl ddim yn gwybod gall ffi cael ei godi (n=1).

2.4 Ffi am Ofal Uniongyrchol i Ofalwyr Di-dal

Roedd 72 ymateb i'r cwestiwn 'Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd). A ddylai'r polisi yma barhau?', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 6).

Tabl 6 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd). A ddylai'r polisi yma barhau?' fel nifer a canran

A ddylai'r polisi yma barhau	**Nifer**	**Canran**
Dim barn gryf	11	15%
Dylai	51	71%
Na ddylai	10	14%
Cyfanswm Popeth	**72**	**100%**

Dewisodd y mwyafrif, sef 71%, o'r ymatebwyr 'dylai' fel ymateb i'r cwestiwn os dylai'r polisi yma barhau (n=51), gyda 15% (n=11) wedi dewis 'dim barn cryf' a 14% (n=10) 'na ddylai'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 17 o sylwadau wedi cael eu nodi. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 7)

Tabl 7 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd). A ddylai'r polisi yma barhau?' fel nifer

Thema	**Nifer (17 ymateb)**
Byddai codi tal yn cosbi gofalwyr yn ariannol / gofalwyr methu fforddio talu	5
Gall hyn achosi tlodi neu rhoi pwysau ariannol	2
Effaith gofalu ar allu unigolyn i weithio	2
Ddim yn deall am be mae hyn yn sôn	2
Angen sicrhau fod hyn ddim yn achosi caledi	1
Angen i ofalwyr cael amser i'w llesiant i sicrhau eu bod yn aros yn iach	1
Sut mae gofalwyr wedi cael eu ymgynghori	1
Cyngor mewn sefyllfa cyllidol heriol	1
Ddim yn siŵr	1
Dylai wasanaethau dydd i oedolion fod am ddim	1
Fyddai'n anodd i bobl heb y wasanaeth yma	1
Gofalwyr di-dal yn arbed pres i'r cyngor / person sydd angen gofal ddim yn cael y cymorth mae nhw angen	1
Cyfanswm Themâu	**19**

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau oedd byddai codi tal yn cosbi gofalwyr yn ariannol / gofalwyr methu fforddio talu (n=5). Roedd sylwadau pellach yn dilyn themâu tebyg gan gynnwys gall hyn achosi tlodi neu rhoi pwysau ariannol (n=2) ac angen sicrhau fod hyn ddim yn achosi caledi (n=1). Roedd themâu eraill yn codi gan gynnwys effaith gofalu ar allu unigolyn i weithio (n=2) a ddim yn deall am be mae hyn yn sôn (n=2) ymysg eraill.

2.5 Ffi am Wasanaethau Cefnogol Iechyd Meddwl

Roedd 72 ymateb i'r cwestiwn 'Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl? ', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 9).

Tabl 8 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl?' fel nifer a canran

A ddylai'r Cyngor godi ffi	**Nifer**	**Canran**
Dim barn gryf	6	8%

Dylai	15	21%
Na ddylai	51	71%
Cyfanswm Popeth	**72**	**100%**

Dewisodd y mwyafrif o ymatebwyr 'na ddylai' (71%, n=51) fel ymateb i'r cwestiwn os dylai'r Cyngor godi ffi, gyda 21% (n=15) yn dewis 'dylai' a 8% (n=6) 'dim barn cryf'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 15 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 9).

Tabl 9 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl?' fel nifer

Thema	**Nifer (15 ymateb)**
Dylasai fod am ddim	4
Fyddai hyn yn rhoi mwy o bwysau neu fyrdwn ar yr unigolyn (ariannol neu straen)	3
Dylasai GIG cyflawni hyn	2
Angen trin pawb yr un fath	1
Cleifion ddim yn gorfod talu am cyflwr corfforol hirdymor	1
Dim yn deall	1
Dylasai ffi cael ei godi	1
Efallai	1
Lleihau annibyniaeth	1
Ymateb aneglur - dim categori	1
Cyfanswm Themâu	**16**

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau oedd dylasai fod am ddim (n=4), fyddai hyn yn rhoi mwy o bwysau neu fyrdwn ar yr unigolyn (ariannol neu straen) (n=3) a dylasai GIG gyflawni hyn (n=2).

2.6 Codi ffi am Fynychu Gwasanaethau Dydd

Roedd 66 ymateb i'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy:', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 10).

Tabl 10 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy:' fel nifer a canran

A ddylai'r ffi gael ei godi drwy	**Nifer**	**Canran**
Dim barn gryf	12	18%
Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb	28	42%
Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos).	26	39%
Cyfanswm Popeth	66	100%

O'r rhai ymatebodd i'r cwestiwn hwn, dewisodd 42% (n=28) 'ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb' a 39% (n=26) 'Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos)'. Dewisodd 18% (n=12) 'dim barn cryf'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 26 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 11)

Tabl 11 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy:' fel nifer

Thema	**Nifer (26 ymateb)**
Dylasai fod am ddim / anghytuno gyda codi ffi	7
Gofal dydd yn cael effaith ar lesiant ac annibyniaeth	5
Dylasai y cwestiwn gynnwys opsiwn i beidio codi ffi	3
Gwasanaethau dydd yn galluogi i ofalwyr weithio	2
Pwysau ychwanegol	2

Codi ffi yn arwain at dorri staff gofal	2
Codi ffi yn arwain at ofalwyr di-dal stopio gweithio i ddarparu gofal	2
Deall fod cyngor angen codi arian ond dylasai hyn fod mewn adrannau eraill	1
Angen asesiad os am godi ffi	1
Codi ffi yn effeithio gofal yn negyddol ac arwain i bobl chwilio am ofal preswyl sydd ddim ar gael.	1
Dim yn deall pam dydi dementia ddim yn ran o'r GIG	1
Disgresiwn os yw 2 aelod o'r teulu yn derbyn gofal dydd	1
Dylasai ffi fod yn wahanol yn dibynnu ar anghenion gofal	1
Fysai unrhyw ffi yn debygol o gael effaith negyddol ar yr aelwydydd sydd eu hangen	1
Gwasanaethau dydd yn rhoi amser i ofalwyr a newid i'r person sydd yn derbyn gofal	1
Hapus i dalu os fysai'r wasanaeth yn cael ei wella	1
Rhai methu fforddio talu ffi	1
Cyfanswm Themâu	**33**

Y thema mwyaf cyffredin yn y sylwadau yma oedd dylasai fod am ddim / anghytuno gyda codi ffi (n=7), trafod gofal dydd yn cael effaith ar lesiant ac annibyniaeth (n=5) a dylasai y cwestiwn gynnwys opsiwn i beidio codi ffi (n=3).

2.7 Codi Ffi am Drafnidiaeth

Roedd 72 ymateb i'r cwestiwn 'A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)?', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 12).

Tabl 12 – Ymatebion i'r cwestiwn 'A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)?' fel nifer a canran

Codi ffi am drafnidiaeth	**Nifer**	**Canran**
Dim barn gryf	12	17%
Dylai	23	32%
Na ddylai	37	51%
Cyfanswm Popeth	72	100%

Dewisodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (51%, n=37) 'na ddylai' fel ymateb i'r cwestiwn ynglŷn a codi ffi am drafnidiaeth, tra fod 32% (n=23) wedi dewis 'dylai' a 17% (n=12) wedi dewis 'dim barn gryf'. Gwnaed dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiwn uchod fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn', a mae'r tabl wedi ei gynnwys yn Atodiad A.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 14 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 13)

Tabl 13 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)?' fel nifer

Thema	**Nifer (14 ymateb)**
Yn darparu trafnidiaeth eu hunain yn barod	3
Dylasai trafnidiaeth fod am ddim / annheg i'r unigolyn dalu	2
Efallai gwneud cyfraniad	2
Annheg i roi cyfyngiadau ariannol ar ddefnyddwyr	1
Codi ffi os fforddiadwy i'r unigolyn	1
Gobeithio gallu osgoi codi ffi ond os rhaid dylasai godi ffi teg	1
Pawb methu talu unrhyw dal ychwanegol	1
Talu am drafnidiaeth yn barod	1
Teg talu am drafnidiaeth	1
Ymateb aneglur - dim thema wedi nodi	1
Cyfanswm Themâu	**14**

Y themâu mwyaf cyffredin fel ymateb i'r cwestiwn yma oedd yn darparu eu trafnidiaeth eu hunain yn barod (n=3), dylasai trafnidiaeth fod am ddim / annheg i'r unigolyn dalu (n=2) ag efallai gwneud cyfraniad (n=2).

3.0 Canlyniadau Eich barn

<u>3.1 Effaith ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned</u>

Roedd 70 ymateb i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 14).

Tabl 14 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned:' fel nifer a canran

Effaith ar yr iaith Gymraeg	**Nifer**	**Canran**
Effaith gadarnhaol	4	6%
Ychydig o effaith gadarnhaol	1	1%
Dim effaith	31	44%
Effaith negyddol	26	37%
Ychydig o effaith negyddol	8	11%
Cyfanswm Popeth	70	100%

Roedd y mwyafrif (48%, n=34) wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael 'effaith negyddol' neu 'ychydig o effaith negyddol' ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned, tra fod 44% (n=31) wedi dewis 'dim effaith', a 7% (n=5) wedi dewis 'effaith gadarnhaol' neu 'ychydig o effaith gadarnhaol'.

Roedd cyfle i rhoi sylwadau ychwanegol am y cwestiwn yma, a roedd 15 o sylwadau. Mae'r prif themâu wedi cael eu nodi yn y tabl isod (Tabl 15).

Tabl 15 – Themâu y sylwadau sy'n cyd-fynd gyda'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i statws o fewn y gymuned:' fel nifer

Thema	**Nifer (15 ymateb)**
Dim yn gweld effaith ar yr iaith Gymraeg	2
Dim yn gweld sut mae hyn yn berthnasol	2
Dwyieithog lle bosib os ddim yn effeithio ansawdd gofal	1
Angen mwy o gefnogaeth i bobl gyda anghenion cyfathrebu ychwanegol	1
Fydd gwasanaethau lleol iaith Gymraeg yn cau	1
Gofal lleol yn aml yn Gymraeg	1
Gwynedd yn dlotach a fydd yr iaith felly yn cael ei effeithio	1
Helpu cymdeithasu os yn gallu cyfarfod pobl sy'n siarad Cymraeg	1

Iaith Gymraeg yn gallu bod yn rwystr i lefel gofal sydd ar gael gan ei fod yn effeithio gallu bobl sydd ddim yn siarad Cymraeg i fod yn ofalwyr	1
Llai o fynediad at wasanaethau yn cael effaith negyddol ar lot o bethau gan gynnwys y Gymraeg	1
Mae methu cyfarfod siaradwyr Cymraeg eraill gan eich bod methu fforddio teithio neu'r gwasanaethau yn wahaniaethol	1
Ydy'r iaith yn cael ei weld yn fwy pwysig na gofal?	1
Dim thema	1
Dim ymateb	1
Cyfanswm Themâu	**16**

3.2 Effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaiddgymdeithasol

Roedd 70 ymateb i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol? ', mae'r canlyniadau yn y tabl isod (Tabl 16).

Tabl 16 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y newidiadau hyn ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol?' fel nifer a canran

Effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol	**Nifer**	**Canran**
Effaith gadarnhaol	7	10%
Ychydig o effaith gadarnhaol	3	4%
Dim effaith	12	17%
Effaith negyddol	41	59%
Ychydig o effaith negyddol	7	10%
Cyfanswm Popeth	**70**	**100%**

Roedd y mwyafrif (69%, n=48) wedi dewis y fyddai y newidiadau yn cael 'effaith negyddol' neu 'ychydig o effaith negyddol' ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, tra fod 17% (n=12) wedi dewis 'dim effaith', a 14% (n=10) wedi dewis 'effaith gadarnhaol' neu 'ychydig o effaith gadarnhaol'.

4.0 Canlyniadau Cwestiynau Cydraddoldeb – Amdanoch chi

Mae'r tablau isod (Tabl 17 - 25) yn cynnwys ymatebion i'r cwestiynau cydraddoldeb cafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

4.1 Rhyw

Tabl 17 – Ymatebion i'r cwestiwn ynglŷn a 'Rhyw'

Rhyw	**Nifer**	**Canran**
Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol	1	1%

Dyn / Gwryw	26	36%
Dynes / Benyw	41	57%
Gwell gennyf beidio â dweud	4	6%
Cyfanswm Popeth	**72**	100%

4.2 Grŵp Oedran

Tabl 18 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Nodwch eich grŵp oedran'

Grŵp Oedran	**Nifer**	**Canran**
25 - 34 oed	4	6%
35 - 44 oed	13	18%
45 - 54 oed	19	26%
55 - 64 oed	14	19%
65 - 74 oed	12	17%
75 - 84 oed	5	7%
Gwell gennyf beidio â dweud	5	7%
Cyfanswm Popeth	**72**	100%

4.3 Sgiliau yn y Gymraeg

Tabl 19 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?'

Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?	**Nifer**	**Canran**
Arall	4	6%
Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg	11	16%
Gwell gennyf beidio â dweud	6	9%
Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu	4	6%
Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl	34	49%
Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn	8	11%
Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu	3	4%
Cyfanswm Popeth	**70**	100%

4.4 Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol

Tabl 20 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?'

Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol	**Nifer**	**Canran**
Arall	3	4%
Cymreig	46	65%
Gwell gennyf beidio â dweud	4	6%
Prydeinig	12	17%
Seisnig	6	8%
Cyfanswm Popeth	**71**	100%

4.5 Hil

Tabl 21 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth yw eich hil?'

Hil	**Nifer**	**Canran**
Arall	2	3%
Asiaidd	1	1%
Gwell gennyf beidio â dweud	4	6%
Gwyn	64	90%
Cyfanswm Popeth	**71**	100%

4.6 Crefydd

Tabl 22 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Beth yw eich crefydd?'

Crefydd	**Nifer**	**Canran**
Arall	3	4%
Bwdhaidd	2	3%
Cristion	35	49%
Dim crefydd	25	35%
Gwell gennyf beidio â dweud	6	8%
Cyfanswm Popeth	**71**	100%

4.7 Rhywioldeb

Tabl 23 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?'

Rhywioldeb	Nifer	Canran
Arall	3	4%
Deurywiol (Bisexual)	2	3%
Dynes hoyw / lesbiaidd	1	1%
Gwell gennyf beidio â dweud	8	11%
Heterorywiol / Strêt	56	80%
Cyfanswm Popeth	**70**	100%

4.8 Hunaniaeth Rhywedd

Tabl 24 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb)'

Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?	Nifer	Canran
Gwell gennyf beidio â dweud	8	11%
Nac ydi	61	87%
Ydi	1	1%
Cyfanswm Popeth	**70**	100%

4.9 Anabledd

Tabl 25 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os: a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a b. Bod gan y nam effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?'

Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?	Nifer	Canran
Gwell gennyf beidio â dweud	10	14%
Nac ydw	47	66%
Ydw	14	20%
Cyfanswm Popeth	**71**	100%

Atodiad A

Lle yn briodol, mae dadansoddiad pellach wedi cael ei wneud i ddangos ymateb y gwahanol grwpiau sydd wedi eu nodi yn nhabl 1 i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg. Mae'r dadansoddiad yma wedi cael ei gynnwys isod. Dylai peth ofal gael ei ddefnyddio pan yn edrych ar yr ymatebion fesul grŵp yn y tabl yma, gan fod nifer ymatebwyr yn rhai o'r grwpiau yn isel.

Tabl 26 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Pa mor ymwybodol ydych chi o bolisi codi tâl am ofal Cyngor Gwynedd, a'r gwasanaethau gofal hynny lle mae ffi'n cael ei godi ar hyn o bryd?' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'

A ydych yn:	Ymwybyddiaeth o'r polisi codi tâl am ofal	Nifer	Canran
Arall	Ddim yn ymwybodol	10	42%
	Ymwybodol	14	58%
Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal	Ddim yn ymwybodol	13	48%
	Ymwybodol	14	52%
Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal	Ddim yn ymwybodol	3	100%
	Ymwybodol	0	0%
Gofalydd di-dâl	Ddim yn ymwybodol	7	39%
	Ymwybodol	11	61%
Heb nodi	Ymwybodol	1	
	Cyfanswm Popeth	**73**	

Tabl 27 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Yw'r polisi codi tâl yn ei gwneud yn eglur pa ffioedd mae'n rhaid i ofalwyr di-dâl eu talu?' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'

A ydych yn:	Yw'r polisi yn eglur	Nifer	Canran
Arall	Nac ydi	17	74%
	Ydi	6	26%
Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal	Nac ydi	20	77%
	Ydi	6	23%
Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal	Nac ydi	2	67%
	Ydi	1	33%
Gofalydd di-dâl	Nac ydi	12	67%
	Ydi	6	33%
Heb nodi	Ydi	1	
	Cyfanswm Popeth	71	

Tabl 28 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Er fod y disgresiwn ganddo i wneud, nid yw'r Cyngor wedi bod yn codi ffi am ofal uniongyrchol i ofalwyr di-dal (lle bo'r gwasanaeth yn enw'r gofalydd). A ddylai'r polisi yma barhau? ' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'

A ydych yn:	Dylai'r polisi yma barhau?	Nifer	Canran
Arall	Dim barn gryf	4	17%
	Dylai	13	54%
	Na ddylai	7	29%
Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal	Dim barn gryf	4	15%
	Dylai	20	74%
	Na ddylai	3	11%
	Dim barn gryf	1	33%

Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal	Dylai	2	67%
Gofalydd di-dâl	Dim barn gryf	1	6%
	Dylai	16	94%
Heb nodi	Dim barn gryf	1	
	Cyfanswm	72	

Tabl 29 – Ymatebion i'r cwestiwn ''Nid oes gan y Cyngor hawl i godi ffi ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983). A ddylai'r Cyngor godi ffi am wasanaethau cefnogol Iechyd Meddwl i unigolion sydd ddim yn dod o dan Adran 117 o'r ddeddf Iechyd Meddwl?' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'

A ydych yn:	**Dylai'r Cyngor godi ffi?**	**Nifer**	**Canran**
Arall	Dylai	11	46%
	Na ddylai	13	54%
Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal	Dim barn gryf	3	11%
	Dylai	3	11%
	Na ddylai	21	78%
Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal	Na ddylai	2	100%
Gofalydd di-dâl	Dim barn gryf	3	17%
	Dylai	1	6%
	Na ddylai	14	78%
Heb nodi	Na ddylai	1	
	Cyfanswm Popeth	72	

Tabl 30 – Ymatebion i'r cwestiwn 'Os bydd y Cyngor yn codi ffi am fynychu gwasanaethau dydd (gwasanaeth mewn canolfan ddydd tu allan i'r cartref, wedi ei staffio). A ddylai'r ffi gael ei godi drwy: ' fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'

A ydych yn:	**Labeli rhes**	**Nifer**	**Canran**
Arall	Dim barn gryf	1	4%
	Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb	10	43%
	Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos).	12	52%
Aelod teulu defnyddiwr	Dim barn gryf	8	33%
	Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb	9	38%

gwasanaethau gofal	Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos).	7	29%
Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal	Dim barn gryf	3	100%
Gofalydd di-dâl	Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb	8	53%
	Ffi sydd yn ariannu cost y gwasanaeth yn llawn, ond fod gan bawb yr hawl i asesiad i bennu eu cyfraniad (hyd at yr uchafswm presennol o £100 yr wythnos).	7	47%
Heb nodi	Ffi 'fflat' nominal yn daladwy gan bawb	1	
	Cyfanswm Popeth	66	

Tabl 31 – Ymatebion i'r cwestiwn A ddylai'r Cyngor godi ffi am drafnidiaeth sydd ddim yn gymwys o dan rhan 4 ag 5 o'r Cod Ymarfer (2014)? *fel nifer a canran fesul ymateb i'r cwestiwn 'A ydych yn:'*

A ydych yn:	**Dylai'r Cyngor godi ffi?**	**Nifer**	**Canran**
Arall	Dim barn gryf	3	13%
	Dylai	12	50%
	Na ddylai	9	38%
Aelod teulu defnyddiwr gwasanaethau gofal	Dim barn gryf	6	22%
	Dylai	7	26%
	Na ddylai	14	52%
Ddefnyddiwr gwasanaethau gofal	Dim barn gryf	1	33%
	Na ddylai	2	67%

Gofalydd di-dâl	Dim barn gryf	2	12%
	Dylai	4	24%
	Na ddylai	11	65%
Heb nodi	Na ddylai	1	
	Cyfanswm Popeth	72	

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cysoni ffioedd am ofal i oedolion yng Ngwynedd

3.6 Noder * uchod yn dynodi'r gofyn ychwanegol i'r ymarfer cyfredol fyddai'n effeithio Cyngor Gwynedd. Ni fyddai'n ofynnol cynnal y cyfarfodydd hyn yn gyfarfodydd aml-leoliad, ond byddai'n rhaid i swyddogion fod ar leoliad yn y siambrau er mwyn gweddarlledu, a byddai'r gwaith 'gosod' a'r adnoddau ar gyfer rhedeg y cyfarfodydd yn gyffelyb a'r gwaith gosod a chynnal cyfarfod aml-leoliad sy'n cael ei weddarlledu.

3.7 Yn amlwg, mae goblygiadau penodol o ran adnoddau wrth ymestyn y ddarpariaeth ymhellach, yn arbennig gan fod technoleg gyfredol ar gyfer gweddarlledu yng Nghyngor Gwynedd ar seiliau gwan iawn gan ei fod yn ddarpariaeth analog gan wahanol gwmnïau, ac felly'n gallu methu yn aml. Rhaid ystyried uwchraddio'r siambrau, adnoddau staffio digonol ac arbenigol, costau trwyddedau i weddarlledu ayyb wrth ystyried ein hymateb.

3.8 Dylid nodi nad oes systemau safonol ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd yn bodoli yng Nghymru, gyda phob awdurdod wedi addasu eu systemau unigol i weddarlledu a chynnal cyfarfodydd hybrid ar sail unigol. Nid oes trefniadau safonol i weddarlledu cyfarfodydd rhithiol yn unig yn bodoli ar draws Cymru chwaith. O ystyried y sail bregus yma ar draws y wlad, dylid nodi fod angen atebion technegol sy'n safonol a hyblyg ar gyfer Cymru gyfan, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, fel y gall pob awdurdod, ac eraill, megis Cydbwyllgorau Corfforedig hefyd ddefnyddio'r dechnoleg yn rhwydd.

<u>Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub</u>

3.9 Mae'r adroddiad hefyd yn ymgynghori a ddylid ymestyn y dyletswydd i weddarlledu ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub. Tra yr ystyrir mai mater i'r cyrff cyhoeddus hynny yw ymateb, mae'r egwyddor o sicrhau tryloywder i'r cyhoedd yr un mor berthnasol i'r cyrff hynny ag ydynt i awdurdodau lleol. Noder nad oes ymestyn yr ymgynghoriad i gynnwys dyletswydd i weddarlledu ar Cydbwyllgorau Corfforedig.

<u>Cyfnodau Cadw</u>

3.10 Mae'r ymgynghoriad yn nodi fod Deddf 2021 yn datgan, mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd llawn prif gynghorau, bod yn rhaid i recordiad o'r darllediad fod ar gael yn electroneg am gyfnod penodol ar ôl y cyfarfod. Nid yw'r term 'cyfnod penodol' wedi cael ei ddiffinio yn y gyfraith ac felly mater i bob prif gyngor yw pennu hynny. Mae arferion yn amrywio ledled Cymru. Mae gan Weinidog Cymru ddiddordeb mewn safbwynt ynghylch cyfnod cadw recordiadau o'r cyfarfodydd, ac yn holi a ddylai'r cyfnod cadw

fod yr un fath a'r cyfnod cadw cofnodion ysgrifenedig electroneg o'r cyfarfodydd, hynny yw, chwe blynedd.

3.11 Nodir ar y safle we fod cyfnod cadw ar gyfer recordiadau o bwyllgorau Cyngor Gwynedd ar gael am 6 mis ac y gellir cysylltu am gopi y tu allan i'r cyfnod hwn. Mae'r recordiadau yn fyw ar y safle we am bron i 12 mis, ac mae cost penodol i'r awdurdod i gael gafael ar unrhyw recordiad yn dilyn y cyfnod hwnnw.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 28 Tachwedd 2025.

5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 Cyflwynwyd yr ymaterion drafft i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu sylwadau ar 4 Tachwedd 2025. Cyflwynir sylwadau aelodau'r pwyllgor ar lafar yng nghyfarfod y Cabinet.

5.2 Swyddogion Statudol

Sylwadau Pennaeth Cyllid

"Mae'r ymateb drafft a gyflwynir yma yn amlygu'n ddiamwys y pryder am yr adnoddau ychwanegol allai fod yn angenrheidiol petai'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd yn cael ei ymestyn. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."

Sylwadau Swyddog Monitro

Mae'r ymgynghoriad mewn gwirionedd ar ymestyn y rheidrwydd statudol i we ddarlledu cyfarfodydd democrataidd y Cyngor. Fel welir o'r adroddiad fod y Cyngor eisoes yn gweithredu tu hwnt i gymhelliant cyfreithiol ac yn gwe ddarlledu ystod o gyfarfodydd. Fodd bynnag drwy osod gofyn cyfreithiol i we ddarlledu pob cyfarfod perthnasol , sydd i'w groesawu, mae hefyd yn golygu fod angen priodoli yr adnoddau i gyfarch y dyletswydd yn ddidramgwydd. Mae'r ymateb yn rhoi sylw priodol i'r angen am gyfarch yr angen am adnoddau ond hefyd sustemau effeithiol i gyfarch y gofyn.

ATODIAD A

Cwestiynau'r ymgynghoriad.

Cwestiwn 1 - Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y ddyletswydd i ddarlledu cyfarfodydd yn fyw i gynnwys cyfarfodydd ychwanegol prif gyngor?
Mae'r Cyngor yn croesawu'r egwyddor o dryloywder democrataidd a'r ymgais i ehangu mynediad y cyhoedd at waith llywodraeth leol ac fel dull o gryfhau atebolrwydd cyhoeddus. Fodd bynnag, mae nifer o faterion ymarferol ac ariannol y mae'n rhaid eu hystyried cyn gweithredu unrhyw ddyletswydd newydd. Mae'r Cyngor yn pryderu y gallai'r ddyletswydd newydd arwain at bwysau ariannol sylweddol, yn enwedig ar gyfer cyfarpar darlledu, storio fideo ac adnoddau staffio. Byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid parhaus penodol i gefnogi'r ddyletswydd estynedig. O ystyried bod y gofyn cyfredol i weddarlledu cyfarfodydd y Cyngor Llawn, argymhellir bod hyn yn cael ei adnabod fel Cam 1 o'r siwrne. Awgrymir y dylid ystyried ymestyn y gofyn cyfreithiol i gynnwys cyfarfodydd sydd o'r diddordeb uchaf i'r cyhoedd fel Cam 2, yn benodol cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Cynllunio a Phwyllgorau Craffu. Dylid wedyn ymestyn i Gam 3 i gynnwys y Pwyllgorau Gwasanaethau Democratiaeth, Llywodraethu ac Archwilio, Trwyddedu a Safonau, ond bod hyn yn gam i'r dyfodol. Mae goblygiadau penodol o ran adnoddau wrth ymestyn y ddarpariaeth ymhellach, yn arbennig gan fod technoleg gyfredol ar gyfer gweddarlledu ar seiliau gwan iawn. Dylid nodi nad oes systemau safonol ar gyfer gweddarlledu cyfarfodydd yn bodoli yng Nghymru, gyda phob awdurdod wedi addasu eu systemau unigol i weddarlledu a chynnal cyfarfodydd hybrid ar sail unigol. Nid oes trefniadau safonol i weddarlledu cyfarfodydd rhithiol yn unig yn bodoli ar draws Cymru chwaith. O ystyried y sail bregus yma ar draws y wlad, dylid nodi fod angen atebion technegol sy'n safonol a hyblyg ar gyfer Cymru gyfan, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, fel y gall pob awdurdod, ac eraill, megis Cydbwyllgorau Corfforedig hefyd ddefnyddio'r dechnoleg yn rhwydd.
Cwestiwn 2 - A oes cyfarfodydd pwyllgorau eraill prif gyngor rydych chi'n meddwl y dylid ymestyn y ddyletswydd ar eu cyfer?
Gweler paragraff olaf yr ymateb i gwestiwn 1.
Cwestiwn 3 - Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y gofyniad i ddarlledu cyfarfodydd i gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub?
Mae'r egwyddor o sicrhau tryloywder i'r cyhoedd yr un mor berthnasol i'r cyrff hynny ag ydynt i awdurdodau lleol. Argymhellir bod yr awdurdodau hyn yn cychwyn ar eu trefniadau gweddarlledu fel rhan o'r ymestyn y soniwyd amdano fel 'cam 2' yn ymateb Cyngor Gwynedd i gwestiwn 1 uchod.

Cwestiwn 4 - A ddylai darlledu cyfarfodydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub gael eu hymestyn i gyfarfodydd y tu hwnt i gyfarfodydd llawn yr awdurdodau, ee pwyllgorau safonau?

Mater i'r awdurdodau perthnasol yw rhoi arweiniad wrth ymateb, fodd bynnag mae'r egwyddor o dryloywder yn allweddol bwysig.

Cwestiwn 5 - Mewn perthynas â phrif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, ydych chi'n cytuno y dylid cadw recordiadau o gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu

Dylid adnabod cyfnod cadw penodol ar gyfer cadw recordiadau o gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu, megis 6 neu 12 mis. Rhaid cofio mai cofnod ffurfiol y pwyllgor yw'r cofnod ysgrifenedig o'r cyfarfod ac nid recordiad o'r gweddarllediad.

Yn ogystal, rhaid cofio fod cost ar gyfer cadw'r recordiadau, gan eu bod yn ffeiliau digidol mawr.

Cwestiwn 6 - Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol ehangu'r ddyletswydd i ddarlledu cyfarfodydd ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Yn gyffredinol i Gymru, mae'r effaith o ymestyn y ddyletswydd i weddarlledu pwyllgorau'r cynghorau am fod yn effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, gyda'r iaith i'w chlywed mewn trafodaethau byw mewn Awdurdodau Lleol. Byddai'n angenrheidiol i ddeddfwriaeth nodi'n glir bod disgwyl i bob pwyllgor ddarlledu yn y Gymraeg a'r Saesneg, nid ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn yn unig.

Yng Nghyngor Gwynedd byddai effaith cadarnhaol ar y Gymraeg o ehangu'r gofynion. Gan y cynhelir pob pwyllgor trwy gyfrwng y Gymraeg eisoes, byddai eu gweddarlledu yn sicrhau bod y Gymraeg i'w chlywed dros y we yn fyw yn fwy aml. Rydym yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Noder bod y trefniant o gynnal pwyllgorau trwy'r Gymraeg yn drefniant DI-OFYN yng Ngwynedd. Nid oes rhaid i unrhyw un wneud cais o flaen llaw i siarad Cymraeg. Byddai sicrhau gofyniad i bob Awdurdod Lleol ddarparu cyfieithu ar y pryd yn ddi-ofyn ar gyfer pob cyfarfod, a bod dyletswydd ar bob Cadeirydd i annog siaradwyr i gyfrannu'n Gymraeg yn hybu'r Gymraeg ac yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

Os oes rhaid i siaradwyr Cymraeg wneud cais i gael siarad Cymraeg mewn cyfarfod, yna mae'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol.

Cwestiwn 7 - Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r ddyletswydd i ddarlledu cyfarfodydd er mwyn sicrhau: • ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na

Saesneg; a • nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?
Gweler uchod ynghylch trefniant di-ofyn i gyfrannu yn y Gymraeg mewn pwyllgorau. Byddai hynny yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl gael gwrando ar y Gymraeg yn fyw mewn pwyllgorau, neu wrando ar recordiad wedyn. Bydd hyn yn ei dro yn cynorthwyo datblygiadau a darpariaeth Deallusrwydd Artiffisial yn y Gymraeg. Wedi dweud hynny, rhaid hefyd sicrhau bod digon o swyddogion sydd â'r sgiliau cywir yn yr iaith i sicrhau cywirdeb a safon wrth ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Mae rhai awdurdodau hefyd yn defnyddio neu'n ystyried defnyddio is-deitlau wrth weddarlledu - dylid sicrhau bod is-deitlau Cymraeg hefyd ar gael fel mater o gydraddoldeb i bawb.
Cwestiwn 8 - Esboniwch pa effeithiau cadarnhaol a negyddol ydych chi'n credu y mae darlledu cyfarfodydd y cyngor yn eu cael ar grwpiau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol, a pha fesurau y gellir eu cymryd i sicrhau mynediad a chynrychiolaeth deg.
Yn gyffredinol mae gweddarlledu mwy o gyfarfodydd y Cyngor yn cael effaith gadarnhaol ar wahanol grwpiau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol gan leihau anghydraddoldeb ar yr un pryd. Mae sicrhau democratiaeth agored i bawb yn egwyddor bwysig y dylid ei pharchu. Fodd bynnag, nid yw gweddarlledu yn ateb y gofyn i bawb. Rhaid cofio bod rhai pobl mewn ardaloedd difreintiedig ac ardaloedd gwledig sydd heb fynediad at ddarpariaeth gwe digonol, neu ddiffyg mynediad at gyfarpar i wylio gweddarllediadau. Yn ogystal, ni fydd yn hwylus i bawb gan y bydd gwrando dros gyfrifiadur ac edrych ar sgrîn yn anodd i rai.
Cwestiwn 9 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma
Noder nad oes unrhyw gyfeiriad yn yr ymgynghoriad at yr angen i weddarlledu cyfarfodydd Cydbwyllgorau Corfforedig. Ystyrir y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad penodol ar hyn, ynghyd â chyllideb ar gyfer gwireddu'r elfen bwysig hon.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	**TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR**
Aelod Cabinet:	**Cynghorydd Huw Wyn Jones Aelod Cabinet Cyllid**
Swyddog perthnasol:	**Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid**
Dyddiad y cyfarfod:	**11 Tachwedd 2025**

1. PENDERFYNIAD A GEISIR:

Argymell i'r Cyngor llawn ar 4 Rhagfyr 2025 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27:

- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. yn cynyddu'r premiwm o 100% i 150%).**

2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD:

2.1 Yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad blynyddol os yw am godi Premiwm ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi ("anheddau wedi eu meddiannu'n gyfnodol). Heb benderfyniad, byddai'n rhaid cynnig disgownt o 50% ar Dreth Cyngor eiddo o'r fath.

2.2 Er mai'r Cyngor llawn sydd rhaid gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â disgownt neu bremiwm Treth Cyngor, a lefel y disgownt neu bremiwm, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor mae angen i'r Cabinet wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.

2.3 Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26, mae'r Cyngor wedi codi Premiwm Treth Cyngor o 150% ar ail gartrefi a 100% ar eiddo gwag hirdymor, ond mae deddfwriaeth yn rhoi caniatâd i'r Cyngor godi Premiwm o hyd at 300%.

2.4 Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn cynyddu'r gyfradd Premiwm, bydd yn rhaid iddo ystyried a fyddai penderfyniad o'r fath yn rhesymol ar ôl ystyried y canllawiau statudol, canlyniad ymchwil a chyngor cyfreithiol y mae'r awdurdod wedi'i gael.

2.5 Mae copi o'r Canllawiau Statudol diweddaraf yn Atodiad 2.

3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

Cefndir/ Cyflwyniad

3.1 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

3.2 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

3.3 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

3.4 Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)

3.5 Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

3.6 Mae *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy'n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.

3.7 Mewn ymateb i'r newid deddfwriaethol yma, ar 1 Rhagfyr 2022 penderfynodd y Cyngor gynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi i 150% a chadw'r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd hyn yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr yn ystod hydref 2022. Ar 7 Rhagfyr 2023 penderfynodd y Cyngor gadw'r Premiwm ar yr un lefel yn 2024/25 ac ar y 5 Rhagfyr 2024 penderfynodd y Cyngor gadw'r Premiwm ar yr un lefel yn 2025/26.

3.8 Mae adroddiad y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2022, pan osodwyd lefel presennol y Premiwm am y tro cyntaf, wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn egluro'r holl resymeg dros osod y lefelau hynny.

3.9 Yn 2022 daethpwyd i'r casgliad:

"12.6. Mae'r Cabinet wedi gwneud ei argymhelliad gan ddod i'r casgliad nad oes modd sefydlu cyfiawnhad cyffelyb i gynyddu'r premiwm uwchlaw cyfradd o 150%. Nid yw nifer o'r camau pellach hyn megis newidiadau i'r gyfundrefn cynllunio na threth busnes wedi dod yn weithredol eto a felly nid ydym wedi cael cyfle i asesu ardrawiad y polisïau hyn yng ngwyneb newid sylweddol iawn yn y Premiwm, na'r oblygiadau ymarferol."

3.10 Roedd hyn yn dilyn proses ymgynghori eang yn ystyried yr ystod o gynnydd oedd yn agored hyd at 300%. Bellach mae sawl newid wedi dod yn weithredol a dechrau cael effaith ar y farchnad. Mae'r system trethi busnes wedi newid ers 1 Ebrill 2023 gan gynyddu y gofynion i ganiatáu trosglwyddo eiddo gwyliau i dreth busnes i osod am 182 diwrnod ac argaeledd o 282 diwrnod.

3.11 Er mwyn gallu amddiffyn penderfyniad i godi Premiwm ar gyfradd uwch nag y mae ar hyn o bryd, mae angen sail a rhesymeg i adolygu.

3.12 Byddai'r penderfyniad a geisir yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ac yn ddatblygiad o'r penderfyniad yn 2022 gan ddefnyddio y canfyddiadau o'r ymgynghoriad i ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ardrawiadau.

3.13 Yn ôl y canllawiau statudol:

> Rhaid cadarnhau unrhyw fwriad i amrywio neu ddirymu penderfyniad i gymhwyso premiwm cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi.
>
> Hefyd, anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn penderfynu cynyddu premiwm uwchlaw 100% gan wneud hynny o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynnydd arfaethedig i'r premiwm yn berthnasol iddi.
>
> Bydd hyn yn golygu y bydd modd ystyried y premiwm wrth bennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd yn rhoi digon o amser i drethdalwyr ystyried effaith premiwm uwch ar eu hamgylchiadau ariannol personol a gwneud dewisiadau ynghylch eu heiddo

3.14 Er bod y Canllawiau newydd felly yn rhoi'r argraff y dylai Cynghorau gynnal ymgynghoriad cyn penderfynu codi premiwm ac yn enwedig cyn penderfynu codi premiwm uwchlaw 100%, does dim gofyniad i wneud hyn bob tro mae Cyngor yn penderfynu codi'r premiwm yn uwch. Mae'r penderfyniad a geisir yn cynnig cadw graddfa'r premiwm ar ail gartrefi fel ag y mae a codi'r graddfa premiwm ar eiddo gwag.

3.15 Wrth i'r Cabinet ystyried diwygio'r graddfeydd dalier sylw penodol at ganlyniadau yr ymgynghoriad yn 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn eang, wedi derbyn ymateb sylweddol ac yn seiliedig ar geisio barn ar gynnydd hyd at 300% (atodir yr adroddiad penderfyniad 2022). Ond, yn briodol a gan adlewyrchu ar y penderfyniad yn Rhagfyr 2022, dylid ystyried canfyddiadau y gwaith ymchwil ynghyd â'r wybodaeth ehangach ac asesiadau wrth ystyried y cyd destun a chyfiawnhad ar gyfer penderfyniad. Mae'r argymhelliad ynghylch eiddo gwag hirdymor yn seiliedig ar ystadegau a gwybodaeth sy'n tynnu sylw at effaith y premiwm ar eiddo y math penodol hwn. Nodir bod lefel yr eiddo gwag hirdymor wedi aros yn ddigyfnewid ers y penderfyniad yn 2022. Y rhagdybiaeth a gymerwyd ar y pryd o ganlyniad i'r ymgynghoriad oedd gosod lefel benodol i gyflawni bwriad y premiwm. Mae'r ystadegau cyfredol yn arwain at y casgliad bod angen adolygu'r lefel. O ganlyniad, mae sail i barhau i ddibynnu ar yr ymgynghoriad a'r canlyniad wrth ystyried y wybodaeth ddiweddaraf i adolygu'r lefel premiwm eiddo gwag hirdymor.

3.16 Ni ellir fyth cael gwared o'r risg o her gyfreithiol yn llwyr, ond byddai modd pwyso a mesur y Gwaith Ymchwil a gyflwynir yng ngweddill yr adroddiad yma ac yn Atodiad 3 er mwyn dod i gasgliad os oes modd lliniaru'r risg yma i lefel derbyniol.

4. GWAITH YMCHWIL

4.1 Comisiynwyd gwaith ymchwil penodol yn 2024 gan y Cyngor llawn er mwyn dadansoddi'r effaith yr oedd y Premiwm yn ei gael ar gymunedau Gwynedd.

4.2 Cyhoeddwyd canlyniad y gwaith ymchwil hwnnw ym mis Tachwedd 2024, ac fe'u defnyddiwyd ar gyfer gwneud penderfyniad ar gyfradd y premiwm ar gyfer 2025/26.

4.3 Dengys y gwaith ymchwil hwnnw, (er bod rhaid cofio y gallai ffactorau eraill hefyd fod yn dylanwadu ar y sefyllfa) fod y premiwm wedi gwneud cyfraniad at ddod ag ail gartrefi yn ôl i ddefnydd fel prif breswylfeydd.

4.4 Ymddengys hefyd bod y newid rheoliadau llety gwyliau wedi, ac yn parhau i, ddylanwadu – gan arwain at lif o eiddo o lety gwyliau i ail gartrefi, gan wrthbwyso rhywfaint ar effaith y duedd (uchod) i ail gartrefi newid i fod yn brif breswylfeydd.

4.5 O ran effaith y premiwm ar <u>eiddo gwag hirdymor</u>, mae'n anodd canfod unrhyw batrwm pendant. Roedd nifer uwch wedi trosglwyddo ar ôl cynnydd premiwm yn 2021, ond yn dilyn hynny mae'r niferoedd wedi bod yn amrywiol iawn. Nodir "does dim effaith hirhoedlog amlwg", a hynny dros gyfnod ble bu i'r gyfradd aros ar 100% ers 2021.

4.6 Ers y gwaith ymchwil manwl hwnnw, rydym wedi diweddaru'r data a dadansoddi unrhyw batrymau neu newidiadau pellach ers Tachwedd 2024. Mae canlyniad y diweddariad i'r Gwaith Ymchwil yn Atodiadau 3(a) a 3(b).

4.7 Fel yn y Gwaith Ymchwil blaenorol nid oes unrhyw batrwm pendant i'w weld. Mae niferoedd yr eiddo gwag hirdymor yn parhau heb newid nodweddiadol.

<u>Ystyriaethau eraill</u>

4.8 Mae'r gwaith ymchwil yn dangos fod nifer yr ail gartrefi wedi cynyddu ers 2024/25 ar ôl sawl blwyddyn o ostwng, gyda'r newid yn fwy amlwg nag oedd yng ngwaith ymchwil Tachwedd 2024. Mae'r newid hwn o ganlyniad i newid deddfwriaethol lle bellach rhaid gosod eiddo am 182 diwrnod y flwyddyn i fod yn gymwys i fod ar y rhestr ardrethi annomestig (gweler paragraff 3.10 uchod).

4.9 Fel canlyniad i'r newid hwn mae Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi trosglwyddo nifer o eiddo o fewn Gwynedd o'r gyfundrefn ardrethi annomestig i fand Treth Cyngor a gan nad oes trigolyn yn yr eiddo mae'r anheddau hyn hefyd yn destun Premiwm.

4.10 Serch hynny, deallwn fod nifer fawr o apeliadau wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa'r Prisiwr yn erbyn y penderfyniad i drosglwyddo eiddo o un gyfundrefn i'r llall sy'n golygu fod y sefyllfa o safbwynt nifer yr ail gartrefi yn parhau yn gyfnewidiol ar hyn o bryd. Hynny yw, er fod y tueddiad o ostyngiad yn nifer yr ail gartrefi wedi dod i ben, mae hynny o ganlyniad i newid deddfwriaethol a ni welir fod hyn yn gyfiawnhad i newid y raddfa Premiwm ar ail gartrefi (Adran 12B Deddf 1992) ar gyfer 2026/27.

4.11 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar hyn o bryd ar fireinio dosbarthiad eiddo hunan-ddarpar at ddibenion trethi lleol, a all arwain at newidiadau i'r rheolau "182 diwrnod" a gall hyn newid y sefyllfa yn y flwyddyn nesaf. Mae'r ansicrwydd yma hefyd yn fater i'w ystyried ac yn awgrymu y byddai'n gynamserol newid y gyfradd premiwm i ail gartrefi ar hyn o bryd.

5. CASGLIADAU

5.1 Mae ystadegau a gwaith ymchwil dros sawl blwyddyn yn awgrymu fod y Premiwm ar ail gartrefi yn gwireddu ei fwriad, ac fod y cynnydd diweddar mewn niferoedd yn ganlyniad i ffactorau deddfwriaethol eraill fel sydd wedi eu hamlygu uchod. Wrth ystyried yr holl faterion sydd wedi eu hamlygu uchod, ni welir fod cyfiawnhad dros gynyddu'r Premiwm ar ail gartrefi ar gyfer 2026/27.

5.2 Ar y llaw arall, mae'r gwaith ymchwil wedi dangos nad yw cadw graddfa'r Premiwm ar gyfer eiddo gwag hirdymor ar lefel is na'r Premiwm ar ail gartrefi wedi cael effaith ar leihau nifer yr eiddo gwag. Mae gan y Cyngor Gynllun Tai Gwag yn ei le sydd yn anelu i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd, ond serch hynny mae nifer yr anheddau sydd wedi bod yn wag yng ers nifer o flynyddoedd yn parhau'n bryder ac fel mae'r gwaith ymchwil yn nodi (Rhan 4 uchod) nid yw lefel Premiwm o 100% i weld fod wedi cael effaith ar hyn.

5.3 Mae'n briodol, felly, fod lefel y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael ei adolygu.

5.4 Mae’r Canllawiau Statudol yn datgan:

> Mae ystod o ffactorau a allai helpu awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid codi premiwm ai peidio. Bydd rhai ffactorau yn benodol i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi, ond bydd ffactorau eraill yn berthnasol i'r ddau. Mae'r ffactorau hyn wedi'u rhestru isod er mwyn helpu awdurdodau lleol. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

- Nifer a chanrannau'r eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi yn yr ardal leol.
- Dosbarthiad eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol.
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth.
- Patrymau o ran y galw am gartrefi fforddiadwy a faint ohonynt sydd ar gael.
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol.
- Yr effaith bosibl ar y Gymraeg.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn cynyddu'r cyflenwad tai a nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn helpu i sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto.

5.5 Gall unrhyw gynnydd yng ngraddfa’r Premiwm fod yn destun her gyfreithiol ac yn hynny o beth rhaid ystyried beth sydd wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf ers i’r Cyngor benderfynu yn Rhagfyr 2024 fod 100% yn lefel briodol ar gyfer y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor.

5.6 Ym Mehefin 2025 roedd 1,121 eiddo gwag hirdymor yn y sir fel a ganlyn:

yn wag am rhwng 1 a 3 blynedd	yn wag am rhwng 3 a 5 mlynedd	yn wag am fwy na 5 mlynedd.
574	231	316

5.7 Gwelir fod dros 500 annedd wedi bod yn wag yng Ngwynedd ers dros 3 blynedd, a hynny yng nghyd-destun sefyllfa lle mae argyfwng tai wedi cael ei adnabod. Mae Tîm Tai Gwag o fewn yr Adran Tai ac Eiddo yn mynd i'r afael â'r sefyllfa yn wyneb adnoddau cyfyngedig, a bu hyn yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 25 Medi 2025: Adroddiad. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael sicrwydd fod cynlluniau addas yn eu lle i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ymhellach i hynny, mae Grŵp o swyddogion o ystod o adrannau yn ystyried camau i'w cymryd gydag eiddo gwag problemus. Yn ngwŷdd hyn, felly, mae'r gwaith ymchwil a chraffu diweddaraf yn amlygu ei bod yn gynyddol anodd cyfiawnhau graddfeydd gwahanol ar gyfer Premiwm eiddo gwag hirdymor o'i gymharu ag ail gartrefi.

5.8 Petai awydd i gynyddu lefel y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor tu hwnt i 150%, byddai angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o'r newydd.

6. DEFNYDD Y PREMIWM

6.1 Ers cyflwyno'r Premiwm ar gychwyn blwyddyn ariannol 2018/19, mae arian sy'n cael ei gasglu trwy'r Premiwm wedi cyfrannu at ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai. Ers blwyddyn ariannol 2023/24 mae £3m yn cael ei ddefnyddio yn y gyllideb refeniw tuag at ariannu gwasanaethau i bobl digartref.

6.2 Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn anelu i adeiladu, prynu neu adnewyddu dros 2,000 o unedau fydd yn helpu dros 15,000 o bobl Gwynedd dros oes y Cynllun.

6.3 Yn dilyn newidiadau i sefyllfa dai, anghenion pobl Gwynedd a ffynonellau ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn sgil pandemig Covid-19 a Brexit, cymerwyd y cyfle i adolygu'r Cynllun yn ddiweddar a'i ymestyn hyd at 2028/29, gan gymryd mantais o gyfleoedd newydd i ehangu a helpu hyd yn oed mwy o drigolion y sir gyda'u sefyllfa dai.

6.4 Bydd y Cynllun Gweithredu Tai yn buddsoddi dros £190m dros oes y Cynllun, a hynny trwy dynnu ar sawl ffynhonnell ariannol, megis Grant Cymorth Tai a Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ac wrth gwrs y Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag.

6.5 Mae'r cyllid a dderbynnir o'r gronfa Premiwm Treth Cyngor (gyfwerth ag oddeutu 26% o holl werth y Cynllun) wedi'i glustnodi'n llawn yn erbyn sawl prosiect yn y Cynllun Gweithredu Tai, megis cynlluniau llety â chefnogaeth, codi ein tai ein hunain, cyfrannu at elfennau trigiannol mewn cynlluniau cymunedol, dod â thai gwag y sir yn ôl i ddefnydd, a sicrhau bod pobl anabl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi presennol.

6.6 Mae gallu cynnwys y Premiwm fel ffynhonnell ariannol wedi galluogi i'r Adran ddenu sawl grant ychwanegol. Rhoddwyd blaenoriaeth i wario'r grantiau hynny'n gyntaf gan fod terfyn amser arnynt, ac mae hynny yn ei dro wedi caniatáu i ni flaenoriaethu gwariant o'r premiwm a sicrhau bod hynny'n dod â'r budd mwyaf i bobl Gwynedd.

6.7 O holl wariant/ymrwymiadau ariannol y Cynllun hyd yma, mae oddeutu £15.5m wedi dod o gronfa'r Premiwm (hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 24/25).

6.8 Mae'r arian hwn wedi'i wario ar sawl maes a chynllun, sydd wedi arwain ar helpu 11,385 o bobl Gwynedd. Mae rhai o'r uchafbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- **Cynlluniau Tai â Chefnogaeth (Cynllun 1a):** Mae gwaith yn parhau ar baratoi ac addasu hen Adeilad y Goron, Penrallt, Caernarfon, i'w drosi'n llety â chefnogaeth i'r rheiny mewn angen tai. Yn ddiweddar cwblhaodd pryniant Tŷ Glyn, Bangor er mwyn ei drosi i gyfarch anghenion tai ym Mangor.
- **Cynllun Prynu i Osod (Cynllun 2c):** Llwyddid i brynu 51 o dai dan faner y Cynllun Prynu i Osod hyd yma, ac mae 20 o'r rheiny wedi'u gosod i bobl leol mewn angen tai, gyda disgwyl i 6 arall gael eu gosod yn yr wythnosau nesaf a gwaith adnewyddu gwblhau ar 13 ohonynt cyn diwedd Rhagfyr. Trwy'r Cynllun hwn, mae'r Cyngor yn gallu cynnig cartref addas i'n trigolion, megis i Ffion a Rhodri a symudodd i mewn i'w tŷ newydd ym Mhorthmadog yn ddiweddar – gellir darllen eu stori yma: Cynllun Prynu i Osod Cyngor Gwynedd yn cynnig allwedd i'r dyfodol i gwpl ifanc
- **Tŷ Gwynedd (cynllun 3a):** Mae gwaith ar safle yn Llanberis a Choed Mawr ac yn gwneud cynnydd da. Disgwylir i'r gwaith adeiladu yn Llanberis gwblhau yn y misoedd nesaf, ac mae'r broses o farchnata'r tai ar gyfer darpar ymgeiswyr wedi dechrau. Disgwylir i'r contractwyr drosglwyddo'r tai i ni ym mis Tachwedd, a byddant yn cael eu gwerthu yn fuan iawn wedyn. Mae'r gwaith ar safle Coed Mawr hefyd yn gwneud cynnydd da, gyda'r gwaith strwythurol bron â chwblhau.
- **Ymgysylltu a chyfathrebu gyda chymunedau (Cynllun 3c):** Yn ystod mis Ebrill, Mai a Mehefin eleni, cynhaliwyd ail gyfres Tai ar Daith - cyfres o ddigwyddiadau sy'n mynd â swyddogion tai a meysydd cysylltiedig allan i'r gymuned i siarad gyda thrigolion Gwynedd. Ymwelwyd y tro yma â Bethesda (lle daeth 43 o aelodau o'r cyhoedd ac Aelodau i'n gweld), Porthmadog (40),

Tywyn (38) a Nefyn (37). Bwriedir cynnal 3edd gyfres yn 2026 gyda thrafodaethau wedi dechrau ar leoliadau a threfniadau.

- **Grant Cartrefi Gwag Gwynedd (Cynllun 3dd):** Fis Awst eleni, cyhoeddodd y Cyngor addasiad i feini prawf y Grant Cartref Gwag sy'n golygu bod mwy o bobl bellach yn gymwys amdano. Mae'r trothwy incwm wedi codi i £60,000, ac mae grant o hyd at £25,000 bellach ar gael. Mae'r dull o gymhwyso eiddo hefyd wedi newid, a defnyddir bandiau treth Cyngor bellach. Gellir darllen mwy yma: Mwy o drigolion Gwynedd bellach yn gymwys am grant i adnewyddu tai gwag. Hyd yma mae cyfanswm o 331 o dai gwag wedi'u hadfer trwy gefnogaeth y Cyngor, a 136 o'r rheiny wedi dod yn ôl i ddefnydd yn sgil cefnogaeth Grant Cartrefi Gwag Gwynedd.
- **Eithriad Treth Cyngor ar dai gwag (Cynllun 3e):** Mae cynllun 3e yn cynnig eithriad am hyd at flwyddyn ar dreth Cyngor ar dai gwag i berchnogion sydd angen cwblhau gwaith angenrheidiol ar eu cartref. Hyd yma mae 142 o aelwydydd wedi elwa o'r gefnogaeth yma, a hynny wedi cyfrannu felly at ddod â 142 o dai gwag yn ôl i ddefnydd yng Ngwynedd.
- **Siop un Stop i faterion tai (Cynllun 6)**: Ar 15 Medi, 2025, lansiodd y Siop un Stop, sef drws ffrynt i holl ymholiadau tai Gwynedd. Nod y gwasanaeth yw hwyluso a symleiddio mynediad i drigolion y sir at wybodaeth a chyngor ar faterion tai, ac mae'r adborth hyd yma'n gadarnhaol ac mae 83 o bobl wedi cael eu helpu (15-30 Medi). Yn y cyfnod yn arwain at y lansiad, cynhaliwyd sesiynau galw-i-mewn i Aelodau Etholedig a hyrwyddwyd y drefn newydd ar ein cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r wasg (cliciwch yma i weld y datganiad i'r wasg).

6.9 Os bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu cynyddu lefel y Premiwm ar eiddo gwag hirdymor o 100% i 150% ar gyfer 2026/27 bydd penderfyniad ffurfiol ar ddefnydd yr incwm ychwanegol yn cael ei wneud wrth osod Cyllideb 2026/27 ar 5 Mawrth 2026, gan ystyried gofynion y Canllawiau Statudol (Atodiad 2).

7. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1 Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd yn Atodiad 1c yn adlewyrchu gofynion a datblygiadau diweddar, amgylchiadau newidiol, a chanlyniadau'r ymgynghoriad cynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022.

7.2 Canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd yn 2022 wrth osod lefel gyfredol y Premiwm yw fod ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

7.3 Roedd asesiad 2022 hefyd yn dod i gasgliad y byddai'r Premiwm yn cael effaith bositif ar y cyfan ar yr iaith Gymraeg a chydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. Fodd bynnag, nodir fod hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau positif a negyddol sy'n effeithio ar yr Iaith, sy'n cael sylw mewn nifer o fannau yn yr adroddiad yma a'r atodiadau.

7.4 Mae'r asesiad wedi ei ddiweddaru ym mis Hydref 2025, ac yn dod i'r un casgliadau a nodwyd yn yr un blaenorol.

8. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

8.1 Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

8.2 Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

8.3 Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

8.4 Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

8.5 Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

8.6 Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

9. CAMAU NESAF

9.1 Bydd argymhelliad y Cabinet yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Rwyf wedi cael cyfle i gynghori ar yr adroddiad. Mae'r drefn ar gyfer penderfynu a'r camau i wneud yr argymhelliad yn cyd fynd a'r arweiniad cyfreithiol sydd wedi ei ddarparu.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

DOGFENNAU CEFNDIR

CYFARFOD:	**Y Cyngor Llawn**
DYDDIAD:	**1 Rhagfyr 2022**
AELOD CABINET:	**Cynghorydd Ioan Thomas** **Aelod Cabinet Cyllid**
TEITL:	**TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM**
AMCAN:	**Cadarnhad ffurfiol am 2022/23 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, ac i godi Premiwm o 150% neu 100% ar eiddo perthnasol o'r fath.**
SWYDDOG CYSWLLT:	**Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid**

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

1.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

1.3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

1.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" ychwanegol o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi perthnasol (Adran 12B).

1.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Penderfynodd y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2021 y byddai'n cadw'r lefel heb ei newid ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fod Cyngor Gwynedd yn:

- **Caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**
- **Caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. cynyddu o 100% i 150%).**
- **Caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid o 2022/23).**

2. CYFLWYNIAD

2.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

2.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

2.3. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

2.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi "Premiwm" o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)

2.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai'n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu'r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

2.6. Mae *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy'n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.

2.7. Er mwyn ei alluogi i wneud argymhelliad yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2022, penderfynodd y Cabinet ar 27 Medi 2022 y byddai'n cynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn derbyn barn y cyhoedd sut dylid ymateb i'r newid yn y Ddeddf. Mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben, a phwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad, yn ogystal ag ystyriaethau perthnasol eraill, fel bod modd i'r Cabinet bwyso a mesur yr adborth sydd wedi ei dderbyn cyn penderfynu ar argymhelliad i'w gynnig i'r Cyngor llawn.

2.8. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu cynnwys yn Rhan 4 yr adroddiad yma.

3. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Cyd-destun

3.1. Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (*dwellings occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

3.2. Yn *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105)* mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

3.3. Diffinnir "trigolyn" mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).

3.4. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi Premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).

3.5. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi Premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4

3.6. Ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu lefel y Premiwm i 100% ar eiddo perthnasol. Mae holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad hwn i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4215&ver=4&

3.7. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor llawn.

3.8. Mae strategaeth ariannol 2022/23, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2022/23.

3.9. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi Premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

3.10. Ar 9 Tachwedd 2022 roedd:

- **4,564** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- **229** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.
- **753** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

3.11. Ar yr un adeg, roedd **1,099** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

3.12. Gellir gweld sut mae'r niferoedd wedi newid yn y tabl isod:

	Gorffennaf 2016	Tachwedd 2020	Tachwedd 2022
Ail-gartrefi Dosbarth B*	4,841	4,718	4,564
Annedd gwag hirdymor	1,115	1,130	1,099

** eithriad ddim yn berthnasol*

Gofynion Statudol

3.13. Wrth roi'r grym i gynghorau i godi Premiwm (yn wreiddiol hyd at 100% ac yna hyd at 300%) ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu'r Premiwm, sef *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*. Mae copi o'r Canllawiau Statudol i'w gael yn Atodiad 1.

3.14. Mae paragraffau 20 i 22 o'r Canllawiau yn amlinellu'r hyn sydd angen i awdurdod lleol ei ystyried pan yn bwriad cyflwyno Premiwm. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i rhain yn 2016 pan benderfynodd Cyngor Gwynedd gyflwyno Premiwm o 50% ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, ac yna bob blwyddyn pan yn dod i benderfyniad ar y Premiwm ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Os bydd y Cabinet yn penderfynu argymell cynyddu lefel y Premiwm bydd angen iddo ystyried y canlynol eto, a sut mae'r dystiolaeth sydd i law yn cyflawni'r isod.

20. Bwriadwyd i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- **adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a**
- **chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.**

21. Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn. Dylai awdurdodau gymryd i ystyriaeth yr angen am dai a'r amgylchiadau neilltuol yn eu hardal.

22. Mae yna ystod o ffactorau a allai fod o gymorth i awdurdodau lleol i benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio. Tra y bydd rhai ffactorau yn benodol naill ai i gartrefi gwag hirdymor neu i ail gartrefi, bydd eraill yn gyffredin i'r ddau. Rhestrir y ffactorau hyn isod i fod o gymorth i awdurdodau lleol. Ni fwriadwyd i'r rhestr fod yn un derfynol.

- **Niferoedd a chanrannau o gartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi yn yr ardal;**
- **Dosbarthiad cartrefi gwag hirdymor neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd neilltuol;**
- **Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;**
- **Patrymau'r galw am gartrefi fforddiadwy a faint sydd ar gael;**

- **Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol;**
- **Yr effaith bosibl ar y gymuned leol;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i gynyddu'r cyflenwad tai;**
- **Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau i fod o gymorth i adfer defnydd eiddo gwag.**

3.15. Wrth gyflwyno'r Premiwm o 50%, rhoddwyd sylw penodol i ddau astudiaeth. Yn gyntaf, dadansoddiad manwl a gynhaliwyd yn 2013 oedd yn cefnogi cyflwyno premiwm, gan hefyd bwyso am gamau i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol a'r gyfundrefn treth busnes. Roedd y ddogfen yn cynnwys dadansoddiad fanwl yn cefnogi safbwynt y Cyngor y dylid rhoi'r hawl i ganiatáu premiwm ar ail gartrefi. Rhannwyd canlyniad y dadansoddiad yma gydag aelodau ar y pryd, a bu'n ystyriaeth allweddol wrth wneud y penderfyniad i godi Premiwm ar ail gartrefi.

3.16. Yn yr un modd, roedd Strategaeth Dai 2013-17 yn rhoi sylw i eiddo gwag o fewn Gwynedd, a datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag oedd: "Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".

3.17. Erbyn hyn, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Tai newydd (Cyngor llawn, 18 Gorffennaf 2019), ac mae tri adroddiad allweddol wedi cael sylw gan y Cabinet yn Rhagfyr 2020 a Mehefin 2021:

<u>15 Rhagfyr 2020</u>

Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau

Cynllun Gweithredu Tai.

<u>15 Mehefin 2021</u>

Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru

3.18. Mae'r uchod yn dystiolaeth allweddol er mwyn ystyried os oes cyfiawnhad dros newid lefel bresennol y Premiwm.

Ail Gartrefi

Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau

3.19. Mae canlyniad y Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau yn rhoi cefndir o'r sefyllfa yng Ngwynedd o safbwynt "cartrefi gwyliau", ac effaith gyfunol ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar ar gymdeithas Gwynedd:

Adroddiad Cabinet:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

Atodiad – Ymchwil:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27959/Eitem%207%20-%20Atodiad%20-%20Ymchwil.pdf?LLL=1

3.20. Cymeradwywyd y gwaith ymchwil hwn gan y Cabinet i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd y penderfyniad "yn wyneb yr angen i gael gwell rheolaeth ar dai sydd yn cael eu tynnu allan o'r cyflenwad sydd ar gael i bobl leol, a thrwy hynny i roi buddiannau trigolion lleol yn gyntaf".

3.21. Roedd y gwaith ymchwil yn ystyried "cartrefi gwyliau" fel cyfuniad o ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar. Roedd yr astudiaeth yn amlygu'r nifer uchel o anheddau a ddefnyddir o fewn Gwynedd at bwrpasau gwyliau, gyda dros 4,800 o ail-gartrefi ac oddeutu 2,000 o unedau gwyliau hunan-ddarpar (Tachwedd 2020):

	Gwynedd	Cymru
Nifer o unedau preswyl	61,645	988,418
Nifer o ail-gartrefi	4,873	18,547
Nifer o lety gwyliau hunan-ddarpar (uned busnes annomestig)	1,976	6,906
Cyfanswm cyfunol	6,849	25453
Canran cyfunol o lety gwyliau	10.76%	2.56%

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod 80.5% o'r ymatebwyr sydd yn berchen ar ail gartref yn meddwl fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai llai na hanner (39.4%) o'r ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor sydd o'r farn yma. Mae 48.7% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor yn meddwl bod ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra mai dim ond 5.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref sydd o'r farn yma.

Gwelir fod ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn eithaf cyfartal, gyda ychydig mwy ohonynt (35.3%) yn teimlo fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref mae'r farn eto yn fwy rhanedig ond gyda'r mwyafrif (55.6%) o'r farn fod ail gartrefi yn cael effaith gadarnhaol ar hyn o bryd.

	Effaith gadarnhaol		**Dim effaith**		**Effaith negyddol**		**Dim barn**		**Cyfanswm**	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,437	39.4%	275	7.5%	1,776	48.7%	158	4.3%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	2,776	80.5%	298	8.6%	184	5.3%	189	5.5%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	71	35.3%	27	13.4%	64	31.8%	39	19.4%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	20	55.6%	3	8.3%	6	16.7%	7	19.4%	36	100.0%
Cyfanswm	**4,304**	**58.7%**	**603**	**8.2%**	**2,030**	**27.7%**	**393**	**5.4%**	**7,330**	**100.0%**

3.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn.

Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim (siart isod), gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm.



"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (96.9%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi, gyda mwyafrif llai (54.1%) o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor yn rhannu'r un farn. Roedd 44.6% o'r ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor o'r farn y byddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefin yn briodol, ond dim ond 2.7% o berchnogion ail gartrefi oedd o'r un farn.

Roedd mwyafrif (76.1%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor hefyd yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi. Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 88.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi.

	Ydi		Nac Ydi		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,626	44.6%	1,973	54.1%	47	1.3%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	94	2.7%	3,339	96.9%	14	0.4%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	42	20.9%	153	76.1%	6	3.0%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	2	5.6%	32	88.9%	2	5.6%	36	100.0%
Cyfanswm	**1,764**	**24.1%**	**5,497**	**75.0%**	**69**	**0.9%**	**7,330**	**100.0%**

3.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o'r farn y byddai'n briodol cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi, roi eu barn wedyn ar y lefel y dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua dau-draean (66.1%, N=1,166) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300% gydag 16.6% arall (N=292) yn credu y dylid ei osod hyd at 200% (siart isod).



Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond dylid nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.

	Hyd at 150%		Hyd at 200%		Hyd at 250%		Hyd at 300%		Dim barn		C'swm
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	124	7.6%	268	16.5%	82	5.0%	1,119	68.8%	33	2.0%	1,626
Perchen ail gartref	44	46.8%	19	20.2%	1	1.1%	20	21.3%	10	10.6%	94
Perchen eiddo gwag hirdymor	3	7.1%	5	11.9%	2	4.8%	26	61.9%	6	14.3%	42
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	-	-	-	-	-	-	1	50.0%	1	50.0%	2
Cyfanswm	**171**	**9.7%**	**292**	**16.6%**	**85**	**4.8%**	**1,166**	**66.1%**	**50**	**2.8%**	**1,764**

Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi

3.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 1,764 o ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar ail gartrefi roi eu barn ar sut ddylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua tri-chwarter (74.1%, N=1,308) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 22.5% (N=397) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).



Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen ail gartref / eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.

	Ar unwaith mewn un cam		Yn raddol, dros sawl blwyddyn		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,256	77.2%	320	19.7%	50	3.1%	1,626	100.0%
Perchen ail gartref	26	27.7%	61	64.9%	7	7.4%	94	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	25	59.5%	15	35.7%	2	4.8%	42	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	50.0%	1	50.0%	-	-	2	100.0%
Cyfanswm	**1,308**	**74.1%**	**397**	**22.5%**	**59**	**3.3%**	**1,764**	**100.0%**

Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi

3.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd dros hanner yr ymatebwyr (59.0%, N=4,327) o'r farn na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar ail gartrefi yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd gweddill yr ymatebion yn eithaf cyfartal gyda 19.5% (N=1,432) yn meddwl byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a 16.5% (N=1,207) o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir tipyn o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 73.9% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 18.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.6% o'r farn na fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol ac 13.8% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (52.2%) yn teimlo na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith ar y Gymraeg.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd eu hanner (50.0%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg a thraean (33.3%) yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,328	36.4%	1,661	45.6%	502	13.8%	155	4.3%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	68	2.0%	2,549	73.9%	646	18.7%	184	5.3%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	33	16.4%	105	52.2%	41	20.4%	22	10.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	3	8.3%	12	33.3%	18	50.0%	3	8.3%	36	100.0%
Cyfanswm	**1,432**	**19.5%**	**4,327**	**59.0%**	**1,207**	**16.5%**	**364**	**5.0%**	**7,330**	**100.0%**

3.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (62.3%, N=4,566) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 23.0% (N=1,685) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol a 12.3% (N=902) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir peth gwahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod y mwyafrif llethol (81.4%) o'r ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. Roedd 13.7% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor mae'r farn yn rhanedig iawn gyda 44.8% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, 42.4% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 10.6% o'r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (51.2%) yn teimlo y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (63.9%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,547	42.4%	386	10.6%	1,634	44.8%	79	2.2%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	96	2.8%	472	13.7%	2,806	81.4%	73	2.1%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	39	19.4%	37	18.4%	103	51.2%	22	10.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	3	8.3%	7	19.4%	23	63.9%	3	8.3%	36	100.0%
Cyfanswm	**1,685**	**23.0%**	**902**	**12.3%**	**4,566**	**62.3%**	**177**	**2.4%**	**7,330**	**100.0%**

3.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn ei gael ar yr economi leol?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (70.9%, N=5,200) yn meddwl y byddai cynyddu lefel y premiwm treth cyngor ar ail gartrefi yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 16.4% (N=1,203) yn credu byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol a 9.6% (N=703) yn meddwl na fyddai'n cael effaith.

Drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (90.8%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 5.8% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 52.6% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, 30.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 12.9% o'r farn na fyddai yna effaith.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (61.7%) yn teimlo y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd y mwyafrif (75.0%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,119	30.7%	469	12.9%	1,918	52.6%	140	3.8%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	59	1.7%	201	5.8%	3,131	90.8%	56	1.6%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	24	11.9%	29	14.4%	124	61.7%	24	11.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	2.8%	4	11.1%	27	75.0%	4	11.1%	36	100.0%
Cyfanswm	**1,203**	**16.4%**	**703**	**9.6%**	**5,200**	**70.9%**	**224**	**3.1%**	**7,330**	**100.0%**

3.8 Oes yna ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r ail gartrefi canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog
- Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod
- Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn
- Anheddau cysylltiedig â gwaith

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o ail gartref arall ar y rhestr. Bu i 43.6% (N=3,195) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 32.4% (N=2,375) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 24.0% (N=1,760) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ail gartref yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill o awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 57.2% (N=1,994) o holl berchnogion ail gartrefi yn nodi hyn o'i gymharu â 31.2% (N=1,201) o'r holl ymatebwyr eraill.



"Ddim yn berchen ail gartref" yn y siart yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen annedd gwag hirdymor (ond ddim ail gartref), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen ail gartref" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref, p'run ai oeddent hefyd yn berchen eiddo gwag hirdymor ai peidio

3.9 Nodwch unrhyw ail gartrefi eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y rhestr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O'r 3,195 nododd "Oes" bu i 97.7% (N=3,122) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Ail gartrefi sy'n cael eu gosod ar gyfer gwyliau neu fusnesau neu at ddibenion twristiaeth	523	16.8%
Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio yn aml	373	11.9%
Pob ail gartref	366	11.7%
Cartrefi wedi eu hetifeddu a nawr yn cael eu defnyddio fel ail gartrefi / etifeddu ac yn bwriadu cadw / cartrefi sydd wedi bod 'yn y teulu' am gyfnod	268	8.6%
Ail gartref sydd wedi cael eu perchnogi am gyfnod penodol o amser neu a brynwyd cyn dyddiad penodedig	191	6.1%

Eiddo adeiladwyd fel Cartrefi Gwyliau neu lle gwaherddir preswylfa barhaol	152	4.9%
Ail gartrefi unigolion gyda cysylltiad lleol (ee teulu, wedi byw yng Ngwynedd neu Cymru ac ati) neu y mae eu prif gartref yn lleol	146	4.7%
Anheddau ar yr un safle â phreswylfa barhaol ee anecs, adeiladau fferm	108	3.5%
Lleoliad annymunol / Anheddau anghysbell / Mynediad cyfyngedig / Cyfleusterau cyfyngedig / Defnydd cyfyngedig o gyfleusterau'r Cyngor	105	3.4%
Defnydd personol yn unig neu ddim yn cynhyrchu incwm	101	3.2%
Yn cael ei adnewyddu neu yn aros am ganiatâd cynllunio	92	2.9%
Eiddo sydd ddim yn addas i fyw ynddo drwy'r flwyddyn oherwydd maint neu cyflwr y tŷ, neu ei fod yn gartref tymhorol, carafán, cabanau gwyliau ac ati	88	2.8%
Yn dibynnu ar amgylchiadau'r perchennog ee pensiynwyr, salwch, lle mae'r perchennog mewn cartref gofal neu berson sengl	85	2.7%
Cysylltiedig â swydd neu prifysgol - gweithio yn rhywle arall neu byw yn rhywle arall a gweithio yng Ngwynedd	76	2.4%
Eiddo a brynwyd cyn y premiwm	70	2.2%
Cartrefi anaddas i bobl leol neu brynwyr tro cyntaf	63	2.0%
Eiddo sydd wedi neu am gael eu osod ar gyfer rent tymor hir	59	1.9%
Bydd yr ail gartref yn dod yn brif breswylfa yn y dyfodol	58	1.9%
Cyfnod i feddwl ar ôl colled ag etifeddu cartref	55	1.8%
Defnydd elusennol, cymdeithasol ddefnyddiol neu galluogi gwaith elusennol ee Wcrain, gwirfoddoli tra yna, cartefu gweithwyr allweddol ac ati	53	1.7%
Cartrefi gwyliau	42	1.3%
Eiddo sydd ar werth neu am gael ei werthu	41	1.3%
Ail gartref sydd wedi neu sydd am gael ei adeiladu, datblygu neu gwella gan y perchennog	25	0.8%
Ail gartrefi o dan brydles sy'n gwahardd gosod neu isosod eiddo neu gyfyngu ar gyfer defnydd personol yn unig	22	0.7%
Lleoliad - Cartrefi mewn ardaloedd lle nad oes galw mawr neu mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ail gartrefi	22	0.7%
Adeiladau mewn cyflwr gwael	18	0.6%
Ail dai sydd o fudd i'r economi neu leol (ag eithrio twristiaeth neu categori arall) ee cyflogi staff	17	0.5%
Adeiladau rhestredig	12	0.4%
Ail gartref sydd yn ran o fusnes arall (dim yn gysylltiedig a twristiaeth) ee fferm	9	0.3%
Cartrefi gwerth uchel	7	0.2%
Ail gartrefi sydd ddim yn cael eu defnyddio yn aml	7	0.2%
Cartrefi gwerth isel	6	0.2%
Eiddo gwag	6	0.2%
Wedi cofrestru i bleidleisio yn eu ail dai	5	0.2%

Ail dai yn eu unig eiddo yn y DU	2	0.1%
Eiddo prydles	1	0.0%
Yn eiddo i unigolyn nid cwmni eiddo	1	0.0%
Lle mae un cartref o'r ddau gartref yn cael ei rentu gan yr unigolyn	1	0.0%
Eiddo sydd ddim yn wag am gyfnod hir	1	0.0%

Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%

3.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am ail gartrefi

Bu i 72.7% (N=5,329) o'r ymatebwyr wneud sylw pellach am ail gartrefi.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu i'r economi leol / cymuned leol. Byddai cyfyngu ar ail gartrefi yn niweidio'r economi	2731	51.2%
Byddai premiwm TC uwch yn targedu pobl sydd ag ail gartref, yn annheg / afresymol	892	16.7%
Mae ail gartrefi yn rhwystr i farchnad dai fforddiadwy i bobl leol / i gymunedau hyfyw	548	10.3%
Annheg ar deuluoedd sydd wedi etifeddu cartref (yn cynnwys pobl lleol) / Annheg ar deuluoedd sydd wedi buddsoddi yng Ngwynedd am ddegawdau / Annheg ar pob sydd wedi cynilo am flynyddoedd i brynu ail dŷ	508	9.5%
Pobl lleol ddim eisiau prynu'r tai / Y tŷ yn anaddas i deulu (cyflwr/lleoliad) / Y tŷ wedi bod ar y farchnad ers sbel cyn iddyn nhw ei brynu / Wedi gwario miloedd yn gwneud tŷ anaddas i fyny	459	8.6%
Dylai'r Cyngor wneud mwy i ddarparu a hybu tai fforddiadwy	426	8.0%
Byddwn i / pobl rwy'n eu hadnabod yn gwerthu eu ail gartref pe bai'r premiwm yn cynyddu	384	7.2%
Ni fyddai cynnydd yn y premiwm yn helpu gwneud tai yn fforddiadwy	371	7.0%
Pobl lleol hefyd yn berchen ar ail dŷ / Cosbi pobl lleol sydd wedi buddsoddi oherwydd twristiaeth	235	4.4%
Creu swyddi / economi hyfyw ydi'r ateb yn hytrach na chodi premiwm	216	4.1%
Angen cynyddu premiwm TC ar ail gartrefi cyn gynted â phosib	206	3.9%
Dim ond codi premiwm ar berchnogion ail dai sydd efo'i prif dŷ y tu allan i Wynedd / Gogledd Cymru / Cymru - dim cosbi trigolion Gwynedd	160	3.0%
Angen cau unrhyw 'loopholes' o ran trethiant (gan gynnwys trethiant llety gwyliau)	157	2.9%

Dylid delio efo problem tai fforddiadwy mewn ffyrdd eraill, e.e. rheoliadau cynllunio / cyfyngiadau ar brynu	156	2.9%
Byddai cynnydd yn y premiwm yn targedu pobl o Loegr / yn hiliol / yn erbyn hawliau dynol	131	2.5%
Dylid dim ond cyflwyno newidiadau Treth Cyngor mewn rhai ardaloedd, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol	122	2.3%
Ddim yn deg talu mwy o dreth, pan yn defnyddio llai o wasanaethau na thrigolion lleol	121	2.3%
Angen cyfyngiadau ar, a rheoli'n well, y farchnad llety gwyliau tymor-byr	118	2.2%
Y rheol '182 dydd' i lety gwyliau gael eu cyfrif fel busnes yn afrealistig / annheg ac yn golygu bydd mwy yn gorfod talu y premiwm	110	2.1%
Byddai cynnydd mewn premiwm yn achosi cynnydd yn nifer y llety gwyliau	98	1.8%
Ddim yn eglur sut byddai'r arian o unrhyw gynnydd (a / neu y cynnydd blaenorol) yn cael ei ddefnyddio	77	1.4%
Byddai cynyddu'r premiwm yn arwain at newid yn natur perchnogaeth ail gartrefi, gyda buddsoddwyr a phobl gyfoethog yn unig yn gallu eu fforddio	71	1.3%
Dylai unrhyw bremiwm gael ei gyfyngu i bryniannau newydd, nid i bobl oedd wedi prynu tai cyn hyn	57	1.1%
Byddai cynyddu premiwm yn achosi cwymp ym mhrisiau tai yn lleol, efo canlyniadau sylweddol / niweidiol	44	0.8%
Ail gartrefi ddim yn cael effaith ar y iaith Gymraeg (neu'n llai niweidiol na pe baent yn mynd i drigolion parhaol nad ydynt yn siarad Cymraeg)	27	0.5%
Mae ail gartrefi yn broblem gymhleth, ac angen cymryd unrhyw gamau gyda gofal / ar sail tystiolaeth fanwl	26	0.5%
Dylai tai sydd yn y broses o gael eu atgyweirio gael eu eithrio / Tai sydd ddim mewn cyflwr i gael eu gwerthu neu rhentu	23	0.4%
Rhai tai wedi cael eu hadeiladu yn benodol fel ail gartrefi a /neu cyfyngiadau ar faint o amser ellir bod yno	19	0.4%
Ni fyddai'n 'edrych yn dda' i Wynedd fod yn cynyddu premiwm TC - delwedd anghroesawgar / mewnblyg	18	0.3%
Ddim yn adeg da i wneud unrhyw newid, oherwydd cyflwr yr economi	8	0.2%
Ni fyddai cynyddu'r premiwm ddim ond yn symud y broblem i ran arall o Gymru	7	0.1%
Dylid eithrio mentrau cymdeithasol nid er elw sy'n rhedeg unedau gwyliau	1	0.0%

Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%

4. Canlyniadau ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor

Mae'r rhan yma yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn ag eiddo gwag hirdymor.

4.1 Pa effaith mae eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar gymunedau lleol yng Gwynedd ar hyn o bryd?

Mewn cyfanswm roedd mwyafrif yr ymatebwyr (72.9%, N=5,342) yn meddwl fod eiddo gwag hirdymor yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol ar hyn o bryd, tra fod 16.2% (N=1,191) o'r farn nad ydynt yn cael effaith ac 1.3% (N=96) yn meddwl eu bod yn cael effaith gadarnhaol. Nid oedd gan 9.6% (N=701) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori o ymatebwyr. Y prif wahaniaeth amlwg ydi bod ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i fod o'r farn nad yw yn cael effaith ar gymunedau lleol: roedd 37.3% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor, a 30.6% o'r rhai sydd ag eiddo gwag hirdymor ac ailgartref, yn meddwl nad oes effaith. Mae hyn yn cymharu ag 13.4% o'r ymatebwyr oedd heb eiddo gwag hirdymor nag ail gartref, ac 17.9% o ymatebwyr sydd ag ail gartref.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	45	1.2%	487	13.4%	2,886	79.2%	228	6.3%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	48	1.4%	618	17.9%	2,341	67.9%	440	12.8%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	3	1.5%	75	37.3%	95	47.3%	28	13.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	-	-	11	30.6%	20	55.6%	5	13.9%	36	100.0%
Cyfanswm	**96**	**1.3%**	**1,191**	**16.2%**	**5,342**	**72.9%**	**701**	**9.6%**	**7,330**	**100.0%**

4.2 Ar hyn o bryd mae Premiwm Treth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn 100%. Mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor. A yw hyn yn briodol yn eich barn chi?

At ei gilydd roedd barn yr ymatebwyr yn rhanedig iawn gyda 43.8% (N=3,210) yn meddwl na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, a 43.4% (N=3,181) yn credu y byddai yn briodol. Nid oedd gan 12.8% (N=939) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag o edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymatebion fesul categori, ac yn dangos bod mwyafrif llethol (84.1%) yr ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm ar yr eiddo yma, tra ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref nac eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (55.8%) o blaid cynyddu'r premiwm.

Ymhlith perchnogion ail gartrefi roedd yr ymateb yn fwy cymysg gyda 48.9% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor a 32.4% o blaid ei gynyddu. O ran y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref, roedd 69.4% yn gwrthwynebu cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor.

	Ydi		Nac Ydi		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	2,035	55.8%	1,330	36.5%	281	7.7%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	1,116	32.4%	1,686	48.9%	645	18.7%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	23	11.4%	169	84.1%	9	4.5%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	7	19.4%	25	69.4%	4	11.1%	36	100.0%
Cyfanswm	**3,181**	**43.4%**	**3,210**	**43.8%**	**939**	**12.8%**	**7,330**	**100.0%**

4.3 Ar ba lefel rydych chi'n credu dylai'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei osod?

Roedd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn wedyn ar y lefel dylid ei osod.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd 42.4% (N=1,350) yn credu dylid cynyddu'r premiwm hyd at 300%, gyda 25.4% arall (N=808) yn credu y dylid ei gynyddu hyd at 200% a 20.3% (N=645) am ei gynyddu hyd at 150% (siart isod).



Dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr yn y tabl isod ond gan nodi, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau yn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.

	Hyd at 150%		Hyd at 200%		Hyd at 250%		Hyd at 300%		Dim barn		C'swm
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	320	15.7%	462	22.7%	70	3.44%	1,083	53.2%	100	4.9%	2,035
Perchen ail gartref	317	28.4%	338	30.3%	25	2.2%	259	23.2%	177	15.9%	1,116
Perchen eiddo gwag hirdymor	6	26.1%	8	34.8%	-	-	7	30.4%	2	8.7%	23
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	2	28.6%	-	-	-	-	1	14.3%	4	57.1%	7
Cyfanswm	**645**	**20.3%**	**808**	**25.4%**	**95**	**3.0%**	**1,350**	**42.4%**	**283**	**8.9%**	**3,181**

Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor

4.4 Sut ddylai'r cynnydd yn y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor gael ei gyflwyno?

Roedd hefyd cyfle i'r 3,181 o ymatebwyr oedd o'r farn bod cynyddu'r lefel premiwm treth cyngor ar eiddo gwag hirdymor yn briodol, roi eu barn ar sut dylai'r cynnydd gael ei gyflwyno.

Ymhlith yr ymatebwyr yma, roedd tua'u hanner (52.9%, N=1,684) yn credu dylid cynyddu'r premiwm ar unwaith mewn un cam, gyda 40.6% (N=1,290) yn credu dylid ei gyflwyno'n raddol dros sawl blwyddyn (siart isod).



Unwaith eto dangosir y canlyniadau llawn fesul categori ymatebwyr isod ond gan nodi eto, gan nad oedd llawer o ymatebwyr sy'n berchen eiddo gwag hirdymor o blaid cynyddu'r premiwm o gwbl, bod y canrannau o fewn y categorïau yma yn seiliedig ar niferoedd bychan.

	Ar unwaith mewn un cam		Yn raddol, dros sawl blwyddyn		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,313	64.5%	645	31.7%	77	3.8%	2,035	100.0%
Perchen ail gartref	365	32.7%	623	55.8%	128	11.5%	1,116	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	5	21.7%	17	73.9%	1	4.3%	23	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	14.3%	5	71.4%	1	14.2%	7	100.0%
Cyfanswm	**1,684**	**52.9%**	**1,290**	**40.6%**	**207**	**6.5%**	**3,181**	**100.0%**

Cwestiwn ddim ond yn berthnasol i ymatebwyr oedd o blaid cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor

4.5 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Mewn cyfanswm roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55.1%, N=3,433) yn meddwl na fyddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Roedd 21.7% (N=1,588) yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 10.2% (N=748) yn meddwl y byddai yna effaith negyddol.

O edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, fe welir (siart isod) bod perchnogion eiddo gwag hirdymor rywfaint yn fwy tueddol i gredu y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg pe cynyddid y premiwm (a llai tueddol i gredu y byddai yna effaith gadarnhaol).



"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio.

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 58.7% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu na fyddai cynyddu lefel y premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, gyda 21.4% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol.

Roedd mwyafrif perchnogion ail gartrefi (67.3%) o'r farn na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg. Ond ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor, roedd y farn rywfaint yn fwy rhanedig gyda 45.3% o'r farn na

fyddai'n cael effaith ar y Gymraeg, 36.7% yn credu byddai'n cael effaith gadarnhaol a 9.5% yn credu byddai'n cael effaith negyddol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,339	36.7%	1,650	45.3%	346	9.5%	311	8.5%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	234	6.8%	2,321	67.3%	349	10.1%	543	15.8%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	14	7.0%	118	58.7%	43	21.4%	26	12.9%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	1	2.8%	18	50.0%	10	27.8%	7	19.4%	36	100.0%
Cyfanswm	**1,588**	**21.7%**	**4,107**	**56.0%**	**748**	**10.2%**	**887**	**12.1%**	**7,330**	**100.0%**

4.6 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar y gymuned leol?

Mewn cyfanswm roedd y farn ar y cwestiwn yma yn eithaf rhanedig gyda 40.0% (N=2,935) o'r ymatebwyr yn meddwl byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 26.0% (N=1,905) yn credu na fyddai effaith a 22.1% (N=1,619) o'r farn y byddai yna effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=871) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahân ar ymatebion y rhai sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 42.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol, gyda 34.8% yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd y mwyafrif (53.6%) yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol, 21.5% o'r farn na fyddai yna unrhyw effaith, ac 17.7% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig iawn gyda 30.1% o'r farn na fyddai unrhyw effaith, 27.6% o'r farn y byddai effaith gadarnhaol a 25.4% yn credu y byddai effaith negyddol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 38.9% yn meddwl na fyddai effaith ar y gymuned leol, a 33.3% yn credu y byddai effaith negyddol.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,954	53.6%	783	21.5%	645	17.7%	264	7.2%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	952	27.6%	1,038	30.1%	877	25.4%	580	16.8%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	27	13.4%	70	34.8%	85	42.3%	19	9.5%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	2	5.6%	14	38.9%	12	33.3%	8	22.2%	36	100.0%
Cyfanswm	**2,935**	**40.0%**	**1,905**	**26.0%**	**1,619**	**22.1%**	**871**	**11.9%**	**7,330**	**100.0%**

4.7 Sut effaith y byddai cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar yr economi leol?

At ei gilydd 'roedd cryn wahaniaeth barn ar y cwestiwn yma hefyd gyda 37.5% (N=2,752) o'r holl ymatebwyr yn credu y byddai cynyddu lefel y premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol. Roedd 26.8% (N=1,964) o'r farn na fyddai unrhyw effaith, a 23.7% (N=1,740) yn credu y byddai effaith negyddol. Nid oedd gan 11.9% (N=874) o'r ymatebwyr farn ar hyn.

Fodd bynnag drwy edrych ar wahaniaethau rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor a'r rhai sydd ddim, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn y farn fel ddangosir yn y siart isod.



"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr ymateb fesul categori, ac yn dangos bod 48.3% o'r ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn credu byddai cynyddu lefel y premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol. Roedd 29.4% yn credu na fyddai cynyddu'r premiwm yn cael unrhyw effaith.

Ymhlith ymatebwyr sydd ddim yn berchen ar ail gartref nag eiddo gwag hirdymor roedd 49.3% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, 23.4% yn credu byddai'n cael unrhyw effaith ac 19.6% o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol.

Ymhlith y rhai sy'n berchen ar ail gartref roedd y farn yn rhanedig gyda 30.2% yn teimlo na fyddai cynyddu'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cael unrhyw effaith ar yr economi leol, 26.8% yn meddwl y byddai yna effaith gadarnhaol a 26.5% yn credu y byddai yna effaith negyddol.

Ymhlith y nifer fychan o ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartref roedd 41.7% yn credu y byddai cynyddu'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, a 25.0% yn credu na fyddai'n cael unrhyw effaith.

	Effaith gadarnhaol		Dim effaith		Effaith negyddol		Dim barn		Cyfanswm	
	Nifer	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**	**Nifer**	**Canran**
Ddim yn berchen ail gartref nag eiddo gwag hirdymor	1,799	49.3%	854	23.4%	714	19.6%	279	7.7%	3,646	100.0%
Perchen ail gartref	924	26.8%	1,042	30.2%	914	26.5%	567	16.4%	3,447	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor	24	11.9%	59	29.4%	97	48.3%	21	10.4%	201	100.0%
Perchen eiddo gwag hirdymor ac ail gartref	5	13.9%	9	25.0%	15	41.7%	7	19.4%	36	100.0%
Cyfanswm	**2,752**	**37.5%**	**1,964**	**26.8%**	**1,740**	**23.7%**	**874**	**11.9%**	**7,330**	**100.0%**

4.8 Oes yna eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor?

Mae'r eiddo gwag hirdymor canlynol wedi eu heithrio'n statudol rhag bod yn destun y Premiwm:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn
- Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd
- Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog

Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ystyried a oedd angen ychwanegu unrhyw fath o eiddo gwag hirdymor arall ar y rhestr. Bu i 16.3% (N=1,196) o'r ymatebwyr nodi bod angen gwneud hyn, gyda 45.4% (N=3,329) yn nodi nad oedd angen ychwanegu at y rhestr a 38.3% (N=2,805) heb farn.

Fel ddangosir yn y siart isod roedd ymatebwyr sy'n berchen ar eiddo gwag hirdymor yn fwy tebygol nag ymatebwyr eraill i awgrymu eithriadau i'r premiwm, gyda 65.8% (N=156) o holl berchnogion eiddo gwag hirdymor yn nodi hyn o'i gymharu ag 14.7% (N=1,040) o'r holl ymatebwyr eraill.



"Ddim yn berchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys ymatebwyr oedd yn berchen ail gartref (ond ddim eiddo gwag hirdymor), yn ogystal ag ymatebwyr oedd ddim yn berchen ar yr un o'r ddau

"Perchen eiddo gwag hirdymor" yn cynnwys holl ymatebwyr oedd yn berchen eiddo gwag hirdymor, p'run ai oeddent hefyd yn berchen ail gartref ai peidio

4.9 Nodwch unrhyw eiddo gwag hirdymor eraill rydych chi'n credu y dylid eu heithrio rhag talu'r Premiwm Treth Cyngor

Roedd gan y rhai nododd bod angen ychwanegu at y restr eithrio gyfle i fanylu ar hyn. O'r 1,196 nododd "Oes" bu i 92.7% (N=1,109) fanylu ar hynny mewn sylwadau.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Eiddo sydd yn cael gwaith adnewyddu sylweddol (anodd cael gweithwyr)	230	20.7%
Eiddo wedi eu hetifeddu/"probate"	188	17.0%
Gwag oherwydd wedi gorfod mynd i ofal/ysbyty	111	10.0%
Eiddo sydd wedi bod ar werth/i'w rentu am gyfnod hir	95	8.6%
Angen cynyddu'r cyfnod eithriad i fwy na 12mis	89	8.0%
Eiddo sydd ddim ffit i fyw ynddynt	79	7.1%
Pob eiddo gwag hirdymor	78	7.0%
Llety gwyliau	49	4.4%
Ail gartrefi sydd yn cael eu defnyddio	48	4.3%
Cytuno gyda'r rhestr	39	3.5%

Eiddo gwag sydd yn rhan o'r prif gartref ac yn anodd ei wahanu i'w werthu/rhentu e.e. eiddo ar ffermydd	36	3.2%
Eiddo wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers cenedlaethau	34	3.1%
Eiddo yn aros am ganiatad cynllunio/newid defnydd / trwy'r llysoedd	32	2.9%
Eiddo mewn perchnogaeth Cymry Cymraeg/person lleol	30	2.7%
Eiddo ble mae'r perchennog wedi gorfod mynd i ffwrdd i weithio ond yn bwriadu dychwelyd yn y dyfodol	26	2.3%
Eiddo gyda gwerth hanesyddol/rhestredig	26	2.3%
Eiddo gwag gyda busnes yn rhan ohono	16	1.4%
Eiddo sydd ddim yn derbyn gwasanaethau gan y Cyngor	15	1.4%
Ni ddylid codi mwy o dreth ar unrhyw eiddo boed yn wag neu beidio	14	1.3%
Angen gwell diffiniad o "hirdymor"	12	1.1%
Eiddo gwag ble mae'r perchennog yn bwriadu dod i fyw yn barhaol iddo yn y dyfodol	12	1.1%
Eiddo gwag yn berchen elusen/y gymuned	10	0.9%
Pwerau i'r Cyngor i orfodi rhywun werthu yr eiddo iddynt os ydi o wedi bod yn wag am gyfnod penodol	9	0.8%
Eiddo gyda cyfyngiadau neu weithredoedd cyfamod	9	0.8%
Eiddo gwag yn berchen i bensiynwyr	8	0.7%
Eiddo ble mai cartref gwyliau oedd y pwrpas gwreiddiol	7	0.6%
Carafanau statig / chalet / annex	5	0.5%
Eiddo gwag oherwydd bod y perchenog yn y carchar	3	0.3%
Tai amlfeddiannaeth (HMO) gwag	3	0.3%
Angen edrych ar pob cais yn unigol	3	0.3%
Eiddo sydd wedi bod yn wag am llai na 5 mlynedd	2	0.2%
Eiddo ble mae pobl yn berchen arnynt ers blynyddoedd e.e. 10 mlynedd	2	0.2%
Perchenog eiddo hefo anabledd neu yn sâl hirdymor	1	0.1%
Eiddo masnachol	1	0.1%
Angen codi premiwm ar adeiladau masnachol gwag	1	0.1%
Ddim yn cytuno hefo'r rhestr - ddylai annex ddim cael eu heithrio	1	0.1%

Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%

4.10 Unrhyw sylwadau eraill sydd gennych am eiddo gwag hirdymor

Bu i 32.9% (N=2,415) o'r ymatebwyr wneud sylw pellach am eiddo gwag hirdymor.

Sylwad	Nifer sylwadau	% o'r nifer roddodd sylwadau
Gyda gymaint o brinder tai yn yr ardal angen annog/cymhell perchnogion eiddo gwag hirdymor i'w gwerthu/rhentu i bobl leol	477	19.8%
Prynu Gorfodol gan y Cyngor ar ôl cyfnod penodol o eiddo fod yn wag - datblygu i fod yn gartrefi i bobl leol	306	12.7%
Ydi'r Cyngor wedi siarad efo perchnogion eiddo gwag i ddeall pam ei fod yn wag yn hytrach na chodi y premiwm - angen penderfynu lefel premiwm achos wrth achos	274	11.3%
Eiddo gwag hirdymor yn gallu bod yn fler a chael effaith ar eiddo cyfagos/delwedd yr ardal/fandaliaeth	260	10.8%
Eiddo gwag hirdymor yn llawer mwy o broblem i gymunedau na ail gartrefi	259	10.7%
Premiwm yn syniad da ond rhaid cael eithriadau e.e. pan mae rhywun yn gorfod mynd i gartref gofal/mynd drwy "probate"/gwaith adnewyddu sylweddol	238	9.9%
Eiddo gwag hirdymor yn ddim help i'r economi leol	200	8.3%
Dylai'r premiwm orfodi perchnogion wneud rhywbeth efo nhw	152	6.3%
Angen cynyddu'r cyfnod eithrio - mwy na 12 mis	127	5.3%
Grantiau i bobl leol ddatblygu eiddo gwag	122	5.1%
Ffordd ddiog gan y Cyngor i godi arian yn lle edrych ar eu gwariant	98	4.1%
Angen gwell diffiniad o "hirdymor" a'r gwahaniaeth rhwng ail gartref/llety gwyliau ac eiddo gwag	97	4.0%
Eiddo gwag hirdymor yn cael effaith ar y gymuned leol a'r iaith Gymraeg	93	3.9%
Byddai ffigyrau am nifer yr eiddo gwag sydd yng Ngwynedd wedi bod yn ddefnyddiol wrth ateb yr ymgynghoriad	80	3.3%
Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag gael eu rhoi ar y farchnad	78	3.2%
Nid dyma'r amser i godi treth cyngor - costau byw ddigon uchel yn barod	77	3.2%
Eiddo gwag yn mynd yn anoddach i'w gwerthu/rhentu oherwydd sefyllfa'r economi	71	2.9%
Fe gaiff effaith negyddol ar dwristiaeth	69	2.9%
Caiff codi y premiwm o bosib yr effaith groes i'r hyn mae'n bwriadu ei gael	64	2.7%
Byddai premiwm yn rwystr i fuddsoddiad/gwariant yn yr ardal	59	2.4%
Nifer o'r eiddo gwag yma ddim yn mynd i fod yn addas ar gyfer anghenion tai yn y gymuned, gan gynnwys teuluoedd ifanc	56	2.3%

Angen sicrhau nad oes rhai yn cymryd mantais o'r eithriadau i osgoi talu treth ychwanegol	49	2.0%
Angen i Gyngor Gwynedd ganolbwyntio ar greu mwy o swyddi yn yr ardal	46	1.9%
Dylai eiddo gwag hirdymor ble nad oes unrhyw fwriad gwella neu werthu dalu y premiwm	45	1.9%
Dylai'r Cyngor fod wedi adeiladu llawer iawn mwy o dai fforddiadwy nac maent wedi ei wneud	42	1.7%
Oes tystiolaeth fod y premiwm 100% yn cael ei fuddsoddi yn y cymunedau?	41	1.7%
Angen edrych ar reolau cynllunio - gwneud hi yn haws dod a eiddo gwag yn ôl i ddefnydd / rheoliadau sydd ddim ond caniatau pobl leol	40	1.7%
Dylai'r premiwm aros yn 100%	39	1.6%
Holiadur yn rhagfarnllyd a chul a ddim yn ddiduedd	34	1.4%
Angen deddfwriaethau pellach i warchod eiddo er lles cymunedau ac unigolion lleol ac nid eu cosbi	33	1.4%
Rhai eiddo gwag wedi bod ym mherchnogaeth y teulu ers canrifoedd	31	1.3%
Y premiwm yn mynd yn erbyn hawliau dynol/hiliol	31	1.3%
Dylid helpu pobl i adnewyddu adfeilion	29	1.2%
Angen canolbwyntio ar eiddo masnachol gwag yn gyntaf	27	1.1%
Rhai eiddo gwag wedi eu prynu er mwyn dod i fyw iddynt yn y dyfodol	26	1.1%
Dylai eiddo gwag dalu llai o dreth cyngor ac nid mwy - ddim yn derbyn dim gwasanaethau	20	0.8%
Dylai'r Cyngor helpu perchnogion i ddod ag eiddo i ddefnydd yn hytrach na'u cosbi: cydweithredu	20	0.8%
Ni ellid rhoi bai ar eiddo gwag am ddirywiad yn yr iaith Gymraeg	17	0.7%
Premiwm ddim yn deg os nad ydi o yn cael ei ddefnyddio yr un fath drwy'r wlad	16	0.7%
Angen gwneud yn glir/digon o rybudd pryd fydd y newidiadau yn digwydd	15	0.6%
Dylai premiwm fod yn daladwy gan bobl leol yn union yr un fath	13	0.5%
Rheolau llym ar gyfer landlordiaid yn stopio nhw rentu y tai i bobl	12	0.5%
Ni ddylid cynnwys eiddo sydd wedi eu dodrefnu er nad oes neb yn byw ynddynt	11	0.5%
Byddai codi'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi	10	0.4%
Dylid codi treth cyngor ar garafanau sydd yn ail-gartrefi	7	0.3%
Bydd hyn yn arwain at fwy o eiddo gwag droi yn lety gwyliau	7	0.3%
Ni fyddai codi'r premiwm yn cael llawer o effaith ynddo'i hun ar y defnydd o eiddo gwag	6	0.2%
Bydd codi y premiwm yn creu mwy o waith i staff y Cyngor e.e. mynd ar ôl rhai sydd ddim yn talu	4	0.2%
Eiddo gwag ddim yn broblem anferth yn yr ardal	4	0.2%
Cynnig canran premiwm gwahanol	2	0.1%

Ni ddylai neb o du allan i Wynedd gael ymgynghori ar y polisi Treth Cyngor	1	0.0%
Ni ddylid caniatau newid enwau eiddo i enwau Saesneg	1	0.0%
Dylai'r premiwm fod yn ddibynnol ar brofi incwm	1	0.0%

Gan fod nifer o ymatebwyr wedi gwneud mwy nag un sylwad mae'r niferoedd yn adio i fwy na 100%

Atodiad : Cwestiynau Cydraddoldeb

1. Rhyw

Categori	Nifer	Canran
Dynes / Benyw	3,162	43.1%
Dyn / Gwryw	3,491	47.6%
Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol	25	0.3%
Gwell gennyf beidio â dweud	652	8.9%
Cyfanswm Ymatebwyr	**7,330**	**100.0%**

2. Oedran

Categori	Nifer	Canran
15 oed neu'n iau	1	0.0%
16 - 24 oed	106	1.4%
25 - 34 oed	428	5.8%
35 - 44 oed	772	10.5%
45 - 54 oed	1,474	20.1%
55 - 64 oed	1,806	24.6%
65 - 74 oed	1,405	19.2%
75 - 84 oed	626	8.5%
85 + oed	101	1.4%
Gwell gennyf beidio â dweud	611	8.3%
Cyfanswm Ymatebwyr	**7,330**	**100.0%**

3. Cenedligrwydd neu Hunaniaeth Genedlaethol

Categori	Nifer	Canran
Albanaidd	41	0.6%
Cymreig	2,556	34.9%
Gwyddelig o Ogledd Iwerddon	20	0.3%
Prydeinig	2,111	28.8%
Seisnig	1,702	23.2%
Arall	249	3.4%
Gwell gennyf beidio â dweud	651	8.9%
Cyfanswm Ymatebwyr	**7,330**	**100.0%**

4. Hil

Categori	Nifer	Canran
Asiaidd	15	0.2%
Cymysg / sawl grŵp ethnig	50	0.7%
Du / Affricanaidd / Caribiaidd	7	0.1%
Gwyn	6,319	86.2%
Sipsiwn / teithiwr Gwyddelig	1	0.0%
Arall	52	0.7%
Gwell gennyf beidio â dweud	886	12.1%
Cyfanswm Ymatebwyr	**7,330**	**100.0%**

5. Crefydd

Categori	Nifer	Canran
Bwdhaidd	15	0.2%
Cristion	3,744	51.1%
Hindw	3	0.0%
Iddewig	9	0.1%
Mwslim	8	0.1%
Sîc	2	0.0%
Dim crefydd	2,249	30.7%
Arall	115	1.6%
Gwell gennyf beidio â dweud	1,185	16.2%
Cyfanswm Ymatebwyr	**7,330**	**100.0%**

6. Rhywioldeb

Categori	Nifer	Canran
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus Premiwm Treth Cyngor rhwng 30 Medi a 28 Hydref 2022. Derbyniwyd 7,330 o ymatebion ar yr holiadur ffurfiol, yn ogystal ag oddeutu 100 o lythyrau a negeseuon ar wahân yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig. Roedd 7,277 o ymatebion i'r holiadur ar-lein a 53 o ymatebion papur. Dyma'r nifer fwyaf o ymatebion mae'r Cyngor wedi ei weld i unrhyw ymgynghoriad yn y blynyddoedd diwethaf

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (50.3%, N=3,684) yn berchen ar un ai ail gartref neu annedd gwag hirdymor yng Ngwynedd (neu'r ddau).

Mewn cyfanswm roedd tri-chwarter yr ymatebwyr (75.0%, N=5,497) o'r farn nad yw'n briodol cynyddu lefel y Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi. Roedd 24.1% (N=1,764) yn credu ei bod yn briodol ei gynyddu, gyda 0.9% (N=69) heb farn. Fodd bynnag drwy wahanu'r atebion rhwng ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref a'r rhai sydd ddim, gwelir rhywfaint o wahaniaeth barn gyda mwyafrif llethol yr ymatebwyr sy'n berchen ar ail gartref yn gwrthwynebu cynyddu lefel y premiwm. Ymhlith ymatebwyr nad ydynt yn berchen ar ail gartref roedd y farn yn fwy rhanedig, ond gyda'r mwyafrif yma hefyd o'r farn na fyddai'n briodol cynyddu'r premiwm.

Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Roedd nifer o'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynnydd yn nodi eu bod yn berchen ar eu heiddo yng Ngwynedd ers sawl blwyddyn, ac yn hoff iawn o'r ardal. Ar y llaw arall, roedd rhai o'r rhai oedd yn ymateb yn honni fod cymhelliad hiliol tu ôl i'r bwriad i godi Premiwm gan fod y Cyngor yn erbyn pobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma.

Mae dau gategori gwahanol o eiddo sy'n destun y Premiwm, sef ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Ychydig iawn o bobl sydd eisiau talu mwy o dreth, ac roedd gwrthwynebiad chwyrn gan berchnogion ail gartrefi yn arbennig. Mae'n sefyll i reswm byddai cynyddu lefel y Premiwm yn cael effaith ariannol ar yr unigolion yma, ond ni welwyd tystiolaeth y byddai unrhyw grŵp gwarchodedig yn cael eu heffeithio. Serch hynny, mae nifer o'r rhai sydd wedi ymateb i'r ymholiad yn honni fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol, gwrth-Seisnig, er nad oes unrhyw wahaniaethu yn bodoli pan yn gosod y premiwm.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur cydraddoldeb. Roedd hyn yn awgrymu fod cyfran uwch o berchnogion ail gartrefi na'r boblogaeth gyffredinol yn bobl hŷn.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor i leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy ar gyfer unigolion, neu ar gyfer dosbarthiadau o drethdalwyr. Mae angen polisi mewn lle er mwyn rhoi arweiniad a ffiniau clir i swyddogion ar y defnydd o'r pwerau yma.
Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei dderbyn yn dangos nad yw blwyddyn a ganiateir o dan Eithriad Lleol A i adnewyddu eiddo yn ddigonol bellach, gyda nifer o drethdalwyr mewn sefyllfaoedd lle mae'r Premiwm Treth Cyngor yn daladwy cyn iddynt allu symud i fewn i'r eiddo. Mae hwn yn ei dro yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y trethdalwyr ar ben y costau sylweddol sydd ganddynt wrth adnewyddu'r eiddo. O ganlyniad, mae'r Polisi yn caniatáu eithriad o 12 mis ychwanegol i'r premiwm ar gyfer perchnogion sy'n ceisio mynediad i'w prif neu unig gartref.

Mae ail gartrefi yn cael ei ddiffinio gan y Ddeddf fel eiddo sydd ddim yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu, ac nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau. Er ein bod wedi derbyn nifer o gwynion gan drethdalwyr ail gartrefi, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ganiatáu eithriadau dewisol rhag y Premiwm i garfan eang o eiddo heb danseilio'r rheswm dros gyflwyno'r Premiwm yn y lle cyntaf. Felly ar y sail yma, nid yw'r polisi yn cynnig eithriad penodol i ail gartrefi, ond mae'n caniatáu i unrhyw un roi cais am eithriad neu leihad o'r Premiwm os ydynt yn gallu arddangos pam fod ei sefyllfa yn wirioneddol eithriadol, a fod gosod y Premiwm yn mynd yn groes i ganllawiau'r Llywodraeth ar osod y Premiwm. Mae'r dystiolaeth sydd gennym yn dangos bod y nifer o drethdalwyr sydd yn gwrthwynebu'r premiwm, yn drethdalwyr sydd heb gyrraedd y meini prawf yn Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 o 252/182 diwrnod ac felly wedi trosglwyddo o'r rhestr ardrethi annomestig lle nad oedd trethi yn daladwy, i fand Treth Cyngor lle mae angen iddynt dalu y dreth cyngor sylfaenol a 150% o bremiwm treth cyngor. Nid yw hyn yn ei hun yn ddigonol i achos fod yn eithriadol.

Mae'r dystiolaeth sydd gennym hefyd yn datgan yr angen i asesu sefyllfaoedd unigryw Mentrau Cymunedol a'r effaith y mae Premiwm Treth Cyngor yn ei gael arnynt i weithredu'n llwyddiannus. Mae'r polisi yn cydnabod hyn ac yn rhoi y cyfle iddynt gyflawni eu hachosion unigol i'r panel i'w ystyried.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na, nid oes bylchau yn y dystiolaeth.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	**Sut fath o effaith? ***	**Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?**
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif Negyddol	Bwriad y polisi yw rhoi cymorth i drigolion sy'n wynebu caledi ariannol eithriadol neu amgylchiadau anarferol ac mae'r effaith yn bositif ar y garfan yma. Nid yw'r polisi yn caniatáu eithriadau dewisol rhag y Premiwm i ail gartrefi, ond yn cydnabod bod angen ei adolygu'n rheolaidd i gyd-fynd â newid mewn deddfwriaeth. Gall y polisi effeithio ar bobl o'r tu allan i Wynedd ac roedd rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Premiwm Treth Cyngor yn honni y byddai'r Premiwm yn hiliol gan ei fod yn targedu pobl o'r tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo pan fydd premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor. Codir y Premiwm ar bob ail gartref ac eiddo gwag hirdymor heb wahaniaethu mewn unrhyw fodd ar lle mae'r perchnogion yn byw na beth yw eu hil neu genedligrwydd. Er hynny, rydym yn cydnabod fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dangos fod cyfran arwyddocaol o berchnogion ail gartrefi yn adnabod eu hunain fel Saeson ac felly mae'n debyg nad yw'r polisi yn dileu yr effaith ariannol negyddol y Premiwm ar y garfan yma. Serch hynny, mae'r polisi yn caniatáu i unrhyw un roi cais am eithriad neu leihad o'r Premiwm os ydynt yn gallu arddangos pam fod ei sefyllfa yn wirioneddol eithriadol.
Anabledd	Positif	Mae posibilrwydd bychan o wahaniaethau yn anuniongyrchol ar sail anabledd o oes rhywun anabl yn cadw eiddo sydd wedi ei addasu yng Ngwynedd gan nad oes modd iddynt gael

		gwyliau mewn man arall. Serch hynny, mae'r polisi yn caniatáu i unrhyw un roi cais am eithriad neu leihad o'r Premiwm os ydynt yn gallu arddangos pam fod ei sefyllfa yn wirioneddol eithriadol.
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Oedran	Positif	Mae'r polisi yn berthnasol i drigolion sy'n wynebu caledi ariannol eithriadol neu amgylchiadau anarferol a gall y trigolion sydd mewn y math yma o amgylchiadau ddisgyn ym mhob un o'r categorïau oedran. Felly, gall y polisi roi effaith gadarnhaol ar bobl o bob oedran yn ein cymunedau. Mae'r polisi yn cynnig blwyddyn o eithriad ychwanegol o dreth Cyngor a'r Premiwm ar gyfer prynwyr tro cyntaf i gyflawni gwaith adfer hanfodol - mae hyn yn debygol o gael effaith bositif rhan amlaf ar bobl ifanc ein cymdeithas. Hefyd, drwy roi blwyddyn o eithriad ychwanegol o'r Premiwm i berchnogion sy'n ceisio mynediad i'w prif neu unig gartref mae'n ymestyn y gefnogaeth i bobl o bob oedran yn ein cymunedau.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Ailbennu rhywedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod.
Yr iaith Gymraeg	Positif	Mae'r rhan "Eithriadau Lleol Eiddo Gwag" o'r polisi yn rhoi eithriad ychwanegol o 12 mis o'r Treth Cyngor a Premiwm (prynwyr tro cyntaf) ac eithriad o 12 mis o'r Premiwm yn unig (perchnogion sy'n ceisio mynediad i'w darpar prif neu unig gartref) a hynny lle mae adnewyddu sylweddol yn cael ei wneud i'r eiddo. Mae'r polisi felly yn rhoi yr hawl i deuluoedd sydd yn byw yng Ngwynedd i dderbyn yr eithriadau yma gan gynorthwyo teuluoedd lleol i aros yn yr ardal ac adnewyddu tai.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	Wrth sefydlu'r Premiwm Treth Cyngor yng Ngwynedd, pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i

		drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai. Mae'r Polisi Lleihau Treth Cyngor yn cynnig cymorth i rhai sy'n wynebu caledi ariannol ynghyd â grwpiau eraill o'r gymuned gan gynnwys rhai bregus.

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	**A yw'n cael effaith?***	**Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?**
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal drwy adnabod a diffinio carfan penodol o drethdalwyr neu eiddo sy'n gymwys i dderbyn lleihad mewn Treth Cyngor (neu Premiwm). Gall ddarparu cymorth i grwpiau bregus o fewn ein cymunedau gan gynnwys grwpiau sy'n dioddef o galedi ariannol neu amgylchiadau eithriadol.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Gall y polisi hyrwyddo perthnasau da gyda trethdalwyr Gwynedd drwy leihau Treth Cyngor i unigolion sy'n profi caledi ariannol neu rhai sydd mewn amgylchiadau annisgwyl neu eithriadol. Gall hefyd ganiatáu eithriadau o'r Premiwm Treth Cyngor a hynny yn ychwanegol i eithriadau statudol sydd wedi eu hamlinellu mewn deddfwriaeth.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Fel nodir yn 3.1 uchod, bydd effaith bositif ar ein cymunedau gan ei fod yn rhoi yr hawl i deuluoedd sydd yn byw yng Ngwynedd i dderbyn eithriadau Treth Cyngor a'r Premiwm ac felly yn cynorthwyo teuluoedd lleol i aros yn yr ardal ac adnewyddu tai.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Polisi trethiant yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae'r polisi yn cwmpasu nifer o achosion gwahanol a fydd yn effeithio ar ystod o drigolion yn ein cymdeithas:-

- Unigolion sy'n profi caledi ariannol dros dro.
- Grwpiau bregus.
- Achosion lle mae'r atebolrwydd i dalu Treth Cyngor a Premiwm yn codi oherwydd digwyddiadau annisgwyl neu eithriadol.

Mae hefyd yn benodol yn cyfeirio at brynwyr tro cyntaf, perchnogion sy'n ceisio mynediad i'w darpar prif neu unig gartref, gofalwyr maeth a mentrau cymunedol.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Credwn fod y polisi eisoes yn dangos ymrwymiad llwyr i roi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol ac nad oes angen mesurau neu newidiadau eraill.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'r trigolion sy'n wynebu caledi ariannol eithriadol neu amgylchiadau anarferol am ddisgyn ym mhob un o'r categorïau oedran, felly mae'r polisi'n rhoi effaith gadarnhaol ar bobl o bob oedran yn ein cymunedau.

Mae'r rhan "Eithriadau Lleol Eiddo Gwag" o'r polisi yn berthnasol i brynwyr tro cyntaf ac i berchnogion eiddo sy'n ceisio mynediad i'w darpar prif neu unig gartref ac felly yn rhoi yr hawl i deuluoedd sydd yn byw yng Ngwynedd i dderbyn eithriadau gan gynorthwyo teuluoedd lleol i aros yn yr ardal ac adnewyddu tai.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Na, er nad yw'r polisi yn caniatáu eithriadau dewisol rhag y Premiwm i ail gartrefi, mae'n cydnabod bod angen ei adolygu'n rheolaidd i gyd-fynd â newid mewn deddfwriaeth.
Mae hefyd yn caniatáu i unrhyw un roi cais am eithriad neu leihad o'r Premiwm os ydynt yn gallu arddangos pam fod ei sefyllfa yn wirioneddol eithriadol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	✓
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

- Ffurflenni hygyrch (Braille, print mawr, iaith syml).
- Cymorth drwy linell ffôn.
- Cyfeiriad at Cyngor ar Bopeth.
- Hyfforddi staff ar y polisi gan gynnwys ymwybyddiaeth o anghenion gwarchodedig.
- Bydd Panel sy'n cynnwys yr Aelod Cabinet Cyllid, Pennaeth Cyllid / Pennaeth Cyllid Cynorthwyol a'r Rheolwr Trethi yn ystyried ceisiadau unigol am ostyngiadau dan Adran 13A.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

- Casglu data ar geisiadau yn ôl nodweddion gwarchodedig lle bo'n bosibl.
- Monitro'r effaith a chwynion.
- Adolygu'r polisi'n flynyddol.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	**Trosolwg Arbedion:** **Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid**
Swyddog perthnasol:	**Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau**
Dyddiad y cyfarfod:	**11 Tachwedd 2025**

1. Penderfyniad a geisir

1.1 I dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol.

1.2 Cymeradwyo dileu un cynllun arbedion gwerth £25k perthnasol i 2025/26 yn y maes Cyswllt Cwsmer yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arbedion a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb gorfforaethol.

1.3 Cymeradwyo arian pontio o £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer 2025/26 a 2026/27 i gynllun arbedion Neuadd Dwyfor yn yr Adran Economi a Chymuned.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2025/26 a blynyddoedd blaenorol yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Awst 2025.

3.2 Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Bu i werth £100k o arbedion ei gymeradwywyd yng Nghabinet 11 Chwefror 2025, tra fod y £3.4 miliwn yn gynlluniau arbedion sydd wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, ond sydd yn berthnasol i 2025/26.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

5. Cynlluniau Arbedion Adrannol Hanesyddol 2015/16 – 2025/26

5.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn eu targedau arbedion o **£34.4m** yn seiliedig ar adolygiad Awst 2025**. Gellir adrodd bod gwerth £33.8m, neu 98% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion yn parhau.

5.2 Mae tri cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, gwerth £399k ac un cynllun gwerth £20k gan yr Adran Economi a Chymuned yn wynebu risgiau i'w cyflawni, gweler rhan 8 o'r adroddiad am fanylion pellach.

5.4 Mae pump cynllun sydd yn weddill gwerth £209k wedi llithro ond nid yw'r adrannau yn rhagweld problem eu gwireddu.

6. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2023/24 – 2025/26

6.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion **sydd yn gyfanswm dros £15m,** yn seiliedig ar adolygiad Awst 2025. **Gellir adrodd fod £12m, neu 77% o'r cynlluniau yma eisoes wedi eu gwireddu, gyda £659k pellach, neu 4% ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol.**

6.2 Mae risgiau sylweddol i wireddu un cynllun gwerth £50k yn y maes Cartrefi Pobl Hŷn gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac mae'r adran yn edrych ar sut i'w wireddu.

6.3 Ar hyn o bryd rhagwelir bod rhai risgiau gwireddu gwerth £2.3m o gynlluniau arbedion sydd yn cynnwys tri cynllun gan yr Adran Addysg (£66k), pump cynllun gan yr Adran Amgylchedd (£1,018k), pump gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (£835k), dau gan yr Adran Priffyrdd a Pheirianneg (£321k) ac un cynllun gan yr Adran Tai ac Eiddo (£95k).

6.4 Mae llithriad ar rai cynlluniau gwerth £90k oedd wedi eu rhaglennu i'w gwireddu yn 2023/24 a pheth oediad i wireddu cynlluniau gwerth £469k perthnasol i 2024/25, ond nid yw'r adrannau'n rhagweld problemau i'w gwireddu, o'r swm yma mae bron i hanner sef gwerth £243k ohono yn berthnasol i'r Adran Amgylchedd. Mae oediad ar un cynllun perthnasol i 2025/26 gwerth £20k.

7. Cynlluniau Arbedion Adrannol 2026/27 ymlaen

7.1 Rhestrir arbedion presennol 2026/27 ymlaen fesul Adran, sydd werth £681k yn **Atodiad 3**, mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

7.2 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig eisoes wedi ei gyflwyno i Gabinet 16 Medi 2025 sydd yn ystyried y bwlch cyllidol ar gyfer 2026/27 a'r bwriad o ran ymateb i'r sefyllfa ariannol sydd yn ein wynebu fel Cyngor er mwyn gosod cyllideb hafal yn 2026/27.

8. Adolygiad gwireddu arbedion

8.1 O ganlyniad i'r risg o beidio gallu gwireddu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor gan yr Adran Economi a Chymuned, derbyniwyd cais i leihau y targed incwm o £100k i £20k ar sail dros dro ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Bydd £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd yn cael ei bontio o Ddarpariaeth Arbedion y Cyngor.

8.2 Derbyniwyd cais gan yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol i ddileu un cynllun arbedion yn y maes Cyswllt Cwsmer ar gyfer adolygu oriau agor Siop Gwynedd yn y dair brif swyddfa, sydd werth £25k ac yn berthnasol i 2025/26. Awgrymir fod yr arbediad yn cael ei ddileu gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arbedion a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb gorfforaethol.

9. Casgliad

9.1 Gellir adrodd bod cyfanswm o bron i £46 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 92% o'r £50 miliwn gofynnol dros y cyfnod. Mae'n anorfod bod gwireddu'r arbedion wedi bod yn heriol ac rwyf yn ddiolchgar i'r holl adrannau a'r Aelodau Cabinet am sicrhau'r llwyddiant yma.

9.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 gyda 92% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

Tabl 1: Crynodeb o statws yr holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015

Statws yr Arbediad	**Porth**	**£m**	**%**
Wedi gwireddu	1	45.8	91.5
Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol	2	0.6	1.3
Oediad, ond yn symud yn ei flaen	3	0.8	1.6
Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu methu	4	2.4	4.7
Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol	5	0.4	0.9
Cyfanswm arbedion		**50.0**	**100**

9.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, dileu un cynllun arbedion gwerth £25k perthnasol i 2025/26 a phontio £80k o Ddarpariaeth Arbedion y Cyngor am gyfnod o ddwy flynedd.

10. Camau nesaf ac amserlen

10.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2025.

11. Sylwadau Swyddogion Statudol

11.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

11.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Trosolwg cynlluniau arbedion hanesyddol 2015/16 - 2025/26 fesul adran
Atodiad 2 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2023/24 - 2025/26 fesul adran
Atodiad 3 - Trosolwg cynlluniau arbedion 2026/27 ymlaen fesul adran

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION HANESYDDOL 2015/16 I 2025/26 FESUL ADRAN

TABL 1

CYNLLUNIAU WEDI EU GWIREDDU

Adran	Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2025/26 £	Cynlluniau wedi eu gwireddu £	Canran cynlluniau wedi eu gwireddu
Addysg	1,659,740	1,659,740	100%
Ysgolion	4,331,620	4,331,620	100%
Amgylchedd	2,972,463	2,922,463	98%
Gwasanaethau Corfforaethol	2,569,218	2,569,218	100%
Cyllid	1,881,636	1,881,636	100%
Economi a Chymuned	2,916,422	2,851,422	98%
Oedolion, Iechyd a Llesiant	6,794,981	6,317,451	93%
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,318,908	2,318,908	100%
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	6,531,580	6,496,580	99%
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	403,240	403,240	100%
Tai ac Eiddo	843,230	843,230	100%
Is-gyfanswm	**33,223,038**	**32,595,508**	98%
Arbedion Rheolaethol	1,200,360	1,200,360	100%
CYFANSWM	**34,423,398**	**33,795,868**	98%

TABL 2

CYNLLUNIAU ETO I'W GWIREDDU

Adran	2019/20 £	2020/21 £	2021/22 £	2022/23 £	2023/24 £	2024/25 £	2025/26 £	Cyfanswm £
Amgylchedd			37,500	12,500				50,000
Economi a Chymuned		45,000					20,000	65,000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	215,600	49,360			12,570		200,000	477,530
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd		8,750	26,250					35,000
CYFANSWM	**215,600**	**103,110**	**63,750**	**12,500**	**12,570**	**0**	**220,000**	**627,530**

Adran *(nifer cynlluniau)*	**Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:**
Amgylchedd *(1 cynllun)*	Llithriad ar un cynllun sef *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio* (£50k).
Economi a Chymuned *(2 gynllun)*	Bu oediad ar y cynllun *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15* (£45k), bwriedir i drefniadau parhaol i godi ffi parcio ddod yn weithredol yn ystod 2026/27. Oherwydd y risg o beidio gallu gweithredu arbedion cynllun Neuadd Dwyfor, penderfynwyd lleihau y targed incwm o £100k i £20k ar gyfer 2025/26 a 2026/27, er mwyn rhoi amser i adnabod cyfleon i weithredu. Mae'r monitro diweddaraf yn awgrymu bod pethau yn edrych yn fwy addawol gyda chynnydd yn yr incwm cysylltedig.
Oedolion, Iechyd a Llesiant *(5 cynllun)*	Mae risgiau sylweddol o gyflawni arbedion gwerth £200k ar y cynllun *Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)* a £186k ar y cynllun *Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn.* Yn ogystal mae rhai risgiau cyflawni arbedion y cynllun *Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran Oedolion* (£13k). Bu llithriad ar 2 gynllun sef *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes gan leihau cefnogaeth i dimau oddi fewn i'r Adran ac i'r Adran Plant* (£49k) a *Cynyddu incwm a lleihau costau eraill* sydd gyda balans o £30k ond nid yw'r Adran yn rhagweld problemau eu gwireddu.
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd *(1 cynllun)*	Mae'r cynllun Pont Abermaw – peidio talu Network Rail am yr hawl tramwy dros y bont (£35k) wedi llithro ond mae'r adran yn parhau i fod mewn trafodaethau efo Network Rail.

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2025/26 FESUL ADRAN

Adran	Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 £ - *nifer*		Cynlluniau wedi eu gwireddu £ - *nifer*		Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol £ - *nifer*		Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion £ - *nifer*		Sylwadau'r Pennaeth Cyllid
Addysg	1,456,510	*34*	1,390,770	*31*	-		65,740	*3*	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 3 cynllun (2 wedi eu proffilio yn 2024/25) sef *Trosglwyddo Canolfan Ieuenctid Maesgeirchen i Hwb Cymunedol Maes Ni* (£25k), *Torri 25% o gyllideb hybiau Ymddygiad Cyfnod Allweddol 4* (£18k) a *Dileu swydd cymhorthydd lefel 3 y Tîm Cynhwysiad* (£23k).
Ysgolion	1,966,100	*1*	1,966,100	*1*	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
Amgylchedd	2,147,380	*36*	617,880	*23*	250,000	*3*	1,279,500	*10*	Mae'r adran yn rhagweld rhai risgiau i wireddu 5 cynllun arbedion gwerth cyfanswm o £1,018k sydd yn cynnwys y cynlluniau *Rhesymoli trefniadau cefnogaeth adrannol* (£150k), *arbedion yn y gwasanaethau Gwastraff* (£200k) a *gwasanaeth Gwastraff Masnachol* (£430k), *Parcio a Gwaith Stryd - Ymestyn Oriau Gorfodaeth Parcio ym Meysydd Parcio Arhosiad Byr y Cyngor* (£78k) a *Parcio a Gwaith Stryd - Addasiad i Strwythur Ffioedd Arhosiad Hir Band 2* (£160k). Mae llithriad/oediad ar 5 cynllun gwerth £262k ond maent yn symud yn eu blaen a 3 cynllun ar drac i wireddu'n amserol.
Gwasanaethau Corfforaethol	711,410	*25*	558,410	*21*	153,000	*4*	-		Mae 4 cynllun ar drac i wireddu'n amserol.
Cyllid	977,640	*22*	757,030	*17*	90,000	*2*	130,610	*3*	Bu llithriad ar 3 cynllun ond nid yw'r adran yn rhagweld risgiau o'u gwireddu a 2 ar drac i wireddu'n amserol.
Economi a Chymuned	648,780	*41*	623,780	*40*	25,000	*1*	-		Mae 1 cynllun gan Byw'n Iach ar drac i gyflawni'n amserol.
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,498,770	*27*	1,482,850	*18*	50,680	*2* *	965,240	*7* *	Mae'r Adran yn rhagweld risgiau i wireddu 6 cynllun gwerth cyfanswm o £884k sydd yn cynnwys y cynlluniau *Cartrefi Preswyl a Nyrsio: Helpu 20 o unigolion i barhau i fyw yn y gymuned (yn hytrach na chartref gofal preswyl) dros amser* (£100k), 4 cynllun yn y maes *Anableddau Dysgu* (cyfanswm o £734k) a *Chartrefi Pobl Hŷn: Edrych ar drefniadau ar gyfer paratoi ail ddewis prydau bwyd mewn cartrefi gofal* (£50k). Bu llithriad o 2024/25 ar 1 cynllun ac yn rhannol ar 2, gwerth cyfanswm o £81k.
Plant a Chefnogi Teuluoedd	308,140	*8*	238,140	*6*	70,000	*2*	-		Mae 2 gynllun ar drac i wireddu'n amserol.
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	1,558,940	*22*	1,131,940	*18*	-		427,000	*4*	Mae'r adran yn rhagweld risgiau i wireddu 2 gynllun sef *Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Priffyrdd* (£250k) a *Lleihau adnodd drwy gyfuno'r Gwasanaeth Cynnal Tiroedd gyda'r gwasanaeth Edrychiad Stryd* (£71k) . Bu llithriad o 2024/25 yn ymwneud â 2 gynllun sef *Gwella effeithlonrwydd/rhesymoli safleoedd depos priffyrdd* (£60k) a *Newid trefn torri gwledig ucheldir/amlder/fertigol a'r amser rhwng y tymor tyfu* (£46k).

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2023/24 I 2025/26 FESUL ADRAN

Adran	**Cyfanswm Arbedion newydd 2023/24 i 2025/26**		**Cynlluniau wedi eu gwireddu**		**Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol**		**Cynlluniau sydd yn llithro a chynlluniau gyda rhai risgiau i gyflawni'r arbedion**		**Sylwadau'r Pennaeth Cyllid**
	£	***nifer***	**£**	***nifer***	**£**	***nifer***	**£**	***nifer***	
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	161,190	*8*	161,190	*8*	-		-		Y cynlluniau am y cyfnod i gyd wedi eu gwireddu.
Tai ac Eiddo	780,350	*14*	664,850	*12*	20,000	*1*	95,500	*1*	Mae peth risg i gyflawni arbedion o £95.5k ar y cynllun *Lleihau ein gofod swyddfa yn sgil dulliau newydd o weithio,* ac 1 cynllun ar drac i wireddu'n amserol.
Arbedion Rheolaethol	2,400,000	*1*	2,400,000	*1*	-		-		Yr un cynllun am y cyfnod wedi ei wireddu.
CYFANSWM	**15,615,210**	***239***	**11,992,940**	***196***	**658,680**	***15***	**2,963,590**	***28***	**Yn nhermau ariannol (£), mae 77% o gynlluniau arbedion newydd 2023/24 i 2025/26 eisoes wedi eu gwireddu a 4% pellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.**

** cynlluniau gyda rhaniad statws gwahanol yn y blynyddoedd maent wedi eu proffilio*

ATODIAD 3

TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2026/27 YMLAEN FESUL ADRAN

Adran	**2026/27** **£**	**2027/28** **£**	**Cyfanswm Arbedion 2026/27 a 2027/28** **£ - *nifer***	
Addysg	98,500	98,500	197,000	*1*
Amgylchedd	200,000	-	200,000	*1*
Gwasanaethau Corfforaethol	50,000	-	50,000	*1*
Oedolion, Iechyd a Llesiant	143,090	-	143,090	*2*
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd	91,000	-	91,000	*1*
CYFANSWM	**582,590**	**98,500**	**681,090**	***6***

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Cyllideb Refeniw 2025/26 – Adolygiad Diwedd Awst 2025
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	11 Tachwedd 2025

1. Penderfyniad a geisir

Fod y Cabinet yn:

1.1 Cymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol sydd yn amcanu i fod yn £219k i Gwmni Byw'n Iach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

1.2 Gofyn i'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Amgylchedd gyflwyno adroddiad pellach ar yr opsiynau posib ar gyfer ariannu'r costau o ddiogelu/dymchwel adeilad y Corbett Arms yn Nhywyn.

1.3 Cymeradwyo trosglwyddiad o £3.757 miliwn o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, gyda'i ddefnydd i'w ystyried cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol fel yr amlinellir yn **Atodiad 3** yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan ddileu gwerth £576k o falansau negyddol ar gronfeydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sef £300k a'r Adran Plant a Theuluoedd £276k, yn dilyn i'r adrannau fethu cyflawni gwasanaethau o fewn eu cyllideb dros y tair blynedd ddiwethaf.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio rhoi tafluniad o'n sefyllfa refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly mae'r symiau a nodir isod yn amcan o'r hyn a ragwelwn erbyn Mawrth 2026 ac nid symiau sy'n cynrychioli gorwariant heddiw.

2.2 Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Cefndir / Cyflwyniad

3.1 Cyflwynir yr adroddiad ar yr adolygiad diweddaraf diwedd Awst o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2025/26, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae'r rhagolygon presennol yn awgrymu y bydd gan bump o'r adrannau ddiffyg cyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y prif ddiffyg yn:

- Oedolion, Iechyd a Llesiant – Gofal Cartref a Chartrefi Preswyl
- Adran Amgylchedd – Gwastraff
- Adran Plant a Theuluoedd – lleoliadau all sirol, Derwen ac Ôl 16
- Adran Tai ac Eiddo - Digartrefedd
- Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC – llai o incwm na'r disgwyl ar yr ochr priffyrdd

3.2 Isod, ac yn **Atodiad 2,** rhoddir manylion pellach yn ymwneud â'r prif faterion a'r penawdau ble rhagwelir diffyg cyllideb , ynghyd ag argymhellion penodol lle'n briodol.

4. Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Sefyllfa Arbedion

4.1 Yn adroddiad Cyllideb 2025/26 i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025, adroddwyd fod arbedion gwerth £3.5 miliwn wedi eu proffilio ar gyfer cyllideb 2025/26. Mae'r cyllidebau wedi eu lleihau o'r swm yma; ac felly adroddir ar y sefyllfa yn dilyn ystyriaeth o'r arbedion.

4.2 Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi adrodd ar risgiau i gyflawni arbedion. O ran y cynlluniau sydd yn weddill, mae yna risgiau o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau.

4.3 Y sefyllfa ddiweddaraf o ran yr arbedion yw bod bron i £46 miliwn, sef 92% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015 bellach wedi eu gwireddu.

5. Adrannau'r Cyngor

5.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Ceir sefyllfa gymysg ar gyfer cyllideb 2025/26 gyda gwerth dros £3 miliwn o arian parhaol ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r Adran tra bod y gyllideb ar yr un pryd wedi ei lleihau gan doriadau o dros £1m eleni ynghyd â £500k o arbedion hanesyddol dynnwyd o'r gyllideb ond na wireddwyd hyd yn hyn (cyfanswm arbedion o £1.5m). Awgryma'r rhagolygon diweddaraf pe na fyddai newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn hon y byddai diffyg cyllideb o £3.1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cynyddodd y galw am wasanaethau gofal preswyl gyda 29 preswylydd ychwanegol mewn cartrefi preifat, yn rhannol oherwydd heriau staffio yn y cartrefi preswyl mewnol a arweinia at leihad yn y gwelyau sydd ar gael, gan gynyddu'r costau'n sylweddol. Bu cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer (12 ers Tachwedd 2024) o unigolion sydd angen gofal preswyl oherwydd materion iechyd meddwl ac mae hynny'n ychwanegu at y galw.

Yn ychwanegol at hynny bu cynnydd costau cartrefi preswyl arwyddocaol yn sgil y cynnydd yng nghostau yswiriant cenedlaethol i'r darparwyr gofal. Yn yr un modd gwelir darpariaeth gofal cartref yn costio uwchlaw'r gyllideb a hynny yn dangos costau ychwanegol yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael. Gwelodd y gwasanaeth gofal cartref mewnol gostau ychwanegol o tua chwarter miliwn yn sgil cynnydd yn y cyfraddau salwch diweddar. Mae'r Adran yn ymrwymedig i leihau'r costau hyn, a'r gorwariant yn sgil hynny, yn ystod y flwyddyn hon.

5.2 Adran Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd cynnydd yng nghyllideb yr Adran ar gyfer 2025/26 o £2.175 miliwn. Ceir sawl achos ychwanegol lle mae unigolion angen gofal arbenigol tu allan i'r sir a'r gofal hwnnw yn gostus; hefyd gwelir cynnydd yn y ddarpariaeth am ofal i blant ag anableddau yn y sir drwy wasanaethau Derwen a Hafan y Sêr; ac o'r herwydd rhagwelir y bydd diffyg cyllideb oddeutu £1.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol os na fydd newid yn yr hyn ddarperir yn ystod y flwyddyn.

5.3 Adran Addysg

Rhagwelir tanwariant o (£20k) gan yr Adran Addysg. Yn dilyn gorwariant sylweddol ar y maes cludiant ysgolion dros y blynyddoedd diwethaf, bu i'r maes dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig, i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Bu gwelliant yn y darlun maes cludiant ac felly mae modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £639k yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf.

5.4 Byw'n Iach

Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cwmni Byw'n Iach wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau yn 2025/26 gyda'r swm gofynnol yn £219k erbyn diwedd y flwyddyn. Byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r cwmni cyn sefydlu os yw'n briodol i'r Cyngor roi cefnogaeth ariannol eto eleni.

5.5 Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

Rhagwelir diffyg cyllideb o £522k gan yr adran erbyn diwedd y flwyddyn. Gwelwyd lleihad yn y gwaith sydd yn cael ei gomisiynu gan asiantaethau allanol sydd yn cael effaith negyddol ar incwm gwasanaethau priffyrdd. Mae'r adran yn ddarbodus wrth geisio rhagamcanu gwariant fydd yn codi wrth ymateb i stormydd a thywydd garw. Mae gwariant ar ymateb tywydd garw yn rhan o weithredu blynyddol yr Adran erbyn hyn ac fe ymgeisir i ymdopi gyda'r gwariant drwy waith rhaglenedig yn y man cyntaf, ond dros y 3 blynedd diwethaf mae'r ymateb wedi bod uwchlaw'r rhaglenedig ac wedi arwain at orwariant. Yn y gwasanaeth Bwrdeistrefol, mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau ychwanegol ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Tra bod colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus.

5.6 Adran Amgylchedd

Rhagwelir diffyg cyllideb oddeutu 740K erbyn diwedd y flwyddyn. Y tueddiad blynyddol o orwariant yn y maes gwastraff yn parhau ac yn gyfrifol am £662k o'r gorwariant adrannol. Mae sawl cynllun ar y gweill gan yr Adran er mwyn mynd i'r afael â'r gorwariant hwn. Ar un adeg roedd y gorwariant yn £1.4M felly mae llawer wedi ei gyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er mwyn gwneud y cam olaf bydd angen cwblhau ail strwythuro o'r Gwasanaeth gwastraff ac yna newidiadau gweithredol pellach.

Ymhellach i hyn, yn dilyn i Gyngor Gwynedd gyflawni cyfradd o 65.3% ar ailgylchu ar gyfer 2024/25 sydd islaw targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru, mae risg i'r Cyngor dderbyn dirwy o £612k sydd yn ddarostyngedig i asesiad yn erbyn gwahanol feini prawf gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, gan fod gennym gynllun ffurfiol mewn lle i geisio mynd i'r afael a chyrraedd y targed cenedlaethol, a'n bod yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hwnnw, credwn fod y risg o orfodi'r ddirwy arnom yn isel ac felly nid ydym wedi cynnwys y swm yma yn y tafluniad at ddiwedd y flwyddyn.

Derbyniwyd £3.7 miliwn o incwm newydd sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu gan y cwmnïau sy'n creu'r gwastraff hwn. Pwrpas yr incwm yw gallu buddsoddi yn ein hisadeiledd ailgylchu, er yn dechnegol nid yw wedi ei gyfyngu i hynny yn unig. Am eleni, bydd rhaid defnyddio cyfran

gyntaf yr incwm hwn ar gyfer cyfarch unrhyw ddiffyg yng nghyllideb refeniw y gwasanaeth gwastraff cyn trosglwyddo'r gweddill i gronfa am y tro.

Byddwn angen rhoi ystyriaeth hefyd sut i ariannu costau diogelu a/neu ddymchwel adeilad Gwesty'r Corbett Arms yn Nhywyn dros yr wythnosau nesa. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd gan ei fod mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd. Mae posib i'r gost derfynol fod rhywle rhwng £1m a £1.5M. Ni all yr Adran ymdopi gyda'r fath wariant unwaith ac am byth yn ddirybudd o fewn eu cyllideb refeniw arferol ac felly bydd angen adroddiad ar wahân maes o law i ystyried pa opsiynau eraill sydd gennym i gyfarch y gost yma.

5.7 Tai ac Eiddo

Y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.7 miliwn eleni, hyn i gymharu â £6 miliwn y llynedd. Mae'r sefyllfa ariannol a adroddir yn dilyn ystyried cyllideb ychwanegol o £3m sydd wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor a hefyd cyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau cynyddol. Rhagwelir y bydd yr adran yn ei gyfanrwydd yn gorwario £167k, sydd yn gyfuniad o gostau uwch ar gyfer symud a storio eiddo personol aelwydydd sy'n derbyn llety argyfwng; cynnydd yn y nifer o unigolion sy'n cyflwyno'n ddigartref ac angen llety; a chynnydd ym mhris y noson ar gyfer llety argyfwng gan rai darparwyr.

5.8 Corfforaethol

Tanwariant o £3.8 miliwn ar benawdau corfforaethol o ganlyniad i gynnyrch treth ychwanegol a rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2025/26. Yn dilyn cadarnhad diweddar am setliad tâl cenedlaethol 2025/26, roedd y setliad yn is na'r hyn a ddarparwyd gennym yn ein cyllideb ar gyfer 25/26 ac yn ychwanegol i hyn bu i ni dderbyn grant tuag at dâl athrawon. Yn dilyn i Lywodraeth Cymru oedi ar gadarnhau eu cyfraniad tuag at gostau ychwanegol yswiriant gwladol cynghorau tan yr haf, erbyn hyn rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd y Cyngor yn derbyn grant oedd yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

5.9 Cronfeydd

Adolygwyd cronfeydd fel yr amlinellir yn **Atodiad 3**, yn dilyn i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd orwario dair blynedd yn olynol, golyga fod eu cronfeydd adrannol gyda balansau negyddol gwerth £576k. Awgrymir fod y balans yn cael ei ddileu i ganiatáu'r adrannau ganolbwyntio ar heriau 2025/26.

6. Casgliad

6.1 Rhagwelir sefyllfa o wario £2.5 miliwn yn uwch na'r gyllideb sydd ar gael erbyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gallu parhau i gyfarfod y galw cynyddol am wasanaethau gweddill y flwyddyn ar sail yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar ddiffyg cyllideb o £6.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn gan yr adrannau, gyda'r effaith yn cael ei liniaru gan y ffaith fod tanwariant tebygol o £3.8 miliwn ar gyllidebau corfforaethol

7. Camau nesaf ac amserlen

7.1 Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 20 Ionawr 2026 yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd.

8. Sylwadau Swyddogion Statudol

8.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

8.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu os safbwynt priodoldeb.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r adrannau

Atodiad 2 - Manylion y cyllidebau a'r gwahaniaethau sylweddol

Atodiad 3 - Adolygiad o Gronfeydd

Cyllideb Refeniw 2025/26 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Diwedd Awst			
	Cyllideb Arfaethedig 2025/26	Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26	Addasiadau a Argymhellir	Amcan Gor/ (Tan) Wariant Addasedig 2025/26
	£'000	£'000	£'000	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	84,181	3,133	0	3,133
Plant a Theuluoedd	26,548	1,561	0	1,561
Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	3,163	(93)	0	(93)
Addysg	125,492	(20)	0	(20)
Economi a Chymuned	6,307	296	(219)	77
Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	19,037	522	0	522
Amgylchedd	18,952	740	0	740
Tai ac Eiddo	12,389	167	0	167
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,937	(21)	0	(21)
Gwasanaethau Corfforaethol	8,473	(6)	0	(6)
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,361	(8)	0	(8)
Cyllidebau Corfforaethol *(Gwahaniaethau yn unig)*	*	(3,757)	3,757	0
Cyfansymiau (net)	326,201	2,514	3,538	6,052

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Oedolion						
Rheolaeth	598	536	(62)		(62)	(114)
Anabledd Dysgu	31,213	31,402	189		189	(92)
Iechyd Meddwl	6,076	6,636	560		560	(218)
Pobl Hŷn						
Preswyl a Nyrsio - Cartrefi	24,516	25,428	912		912	(750)
Gofal Cartref	11,700	13,258	1,558		1,558	2,125
Anabledd Corff	3,653	2,581	(1,072)		(1,072)	(1,214)
Taliadau Uniongyrchol	2,194	2,011	(183)		(183)	(433)
Eraill	3,057	3,147	90		90	408
	45,120	46,425	1,305	0	1,305	136
Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion	**83,007**	**84,999**	**1,992**	**0**	**1,992**	**(288)**
Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)						
Gofal Preswyl	26	1,073	1,047		1,047	504
Gofal Cartref	1,147	1,251	104		104	614
Eraill	1	(9)	(10)		(10)	27
Cyfanswm Gwasanaethau Darparu	**1,174**	**2,315**	**1,141**	**0**	**1,141**	**1,145**
Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25					**0**	**(757)**
Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant	**84,181**	**87,314**	**3,133**	**0**	**3,133**	**100**

Oedolion, Iechyd a Llesiant

Dyrannwyd gwerth dros £3.1 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26 ymlaen. Awgryma'r rhagolygon diweddaraf pe na byddai newid mewn gweithredu yn ystod y flwyddyn hon y byddai diffyg cyllidebol o £3.1m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth yr Adran - tanwariant ar y gyllideb gyfreithiol a throsiant staff.

Anabledd Dysgu - er y bu i'r gwasanaeth dderbyn dyraniad cyllideb ychwanegol o £400k yn 2025/26, nid yw'r cynlluniau arbedion newydd gwerth £735k yn cael eu gwireddu ac felly yn arwain at orwariant. Mae pwysau ar lety cefnogol ac ar y gwasanaeth preswyl yng nghartrefi'r Cyngor. Mae'r gwaith o adolygu pecynnau gofal yn parhau ac yn dwyn ffrwyth.

Iechyd Meddwl - er bod £177k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yn 2025/26, rhagwelir diffyg cyllidebol o £693k ar yr elfen breswyl a nyrsio yn dilyn cynnydd annisgwyl ac anarferol yn y nifer gyda saith o achosion newydd yn ystod blwyddyn ariannol yma (12 ers Tachwedd 2024). Mae cynlluniau cefnogol a llety cefnogol yn tanwario ac felly yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Pobl Hŷn - dyrannwyd £1.5 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r maes ar gyfer 2025/26, gyda £1.2 miliwn ohono i Ofal Cartref. Er hyn rhagwelir diffyg cyllidebol o £1.3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Ym mhreswyl a nyrsio, cynyddodd y galw am wasanaethau gofal preswyl gyda 29 preswylydd ychwanegol mewn cartrefi preifat, yn rhannol oherwydd heriau staffio yn y cartrefi preswyl mewnol a arweinia at leihad yn y gwelyau sydd ar gael, gan gynyddu'r costau'n sylweddol. Yng Ngofal cartref, y costau £1.6 miliwn uwchlaw'r gyllideb o ganlyniad i gostau ychwanegol yr ymdrechion i ddarparu gofal mewn ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hawdd i'w gael. Yn y maes anabledd corff, llai o alw am ofal cartref yn parhau. Yn 'Eraill', cynlluniau arbedion sydd eto i'w gwireddu.

Gwasanaethau Darparu - gorwariant staff yng ngofal preswyl yn cynnwys £755k o orwariant ar ddefnydd o staff asiantaeth. Cyllideb ychwanegol o £1 miliwn wedi ei fuddsoddi yn barhaol yng ngofal cartref yn 2025/26 ac felly lleihad yn y gorwariant a adroddir eleni, serch hynny costau staff uwchlaw'r gyllideb, gyda lefelau salwch a chyfraddau oriau di-gyswllt uchel.

Arbedion - o ran sefyllfa gwireddu arbedion yr adran, er bod cynnydd wedi bod mewn gwireddu arbedion mae gwerth £1.5 miliwn o arbedion eto ar ôl i'w gwireddu.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Plant a Theuluoedd	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	708	825	117		117	(3)
Gweithredol	3,075	3,450	375		375	433
Lleoliadau						
Lleoliadau All-Sirol	6,930	7,339	409		409	2,107
Cartrefi Grwpiau Bychan	196	208	12		12	28
Maethu Drwy Asiant	1,755	1,523	(232)		(232)	(427)
Maethu Mewnol	3,120	3,138	18		18	(201)
Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill	2,211	2,429	218		218	427
	14,212	14,637	425	0	425	1,934
Ôl-16	1,779	2,008	229		229	273
Gwasanaeth Derwen	3,662	4,177	515		515	1,235
Cyfiawnder Ieuenctid	274	269	(5)		(5)	(41)
Blynyddoedd Cynnar	156	(15)	(171)		(171)	(119)
Uned Datblygu'r Gweithlu	311	311	0		0	0
Eraill	2,371	2,447	76		76	93
Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25			0		0	(3,705)
Cyfanswm Plant a Theuluoedd	**26,548**	**28,109**	**1,561**	**0**	**1,561**	**100**

Plant a Theuluoedd

Dyrannwyd gwerth £2.175 miliwn o arian parhaol ychwanegol i'r Adran ar gyfer cyllideb 2025/26. Er hyn, rhagwelir y bydd diffyg cyllideb yr adran yn £1.5 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rheolaeth - costau staffio ychwanegol un tro.

Gweithredol - er bod adnodd ychwanegol parhaol gwerth £365k wedi ei ddyrannu i'r maes ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae'r tueddiad gorwariant yn parhau o ganlyniad i bwysau sylweddol ar gefnogaeth cynlluniau cefnogol ynghyd â staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr maes.

Lleoliadau - er bod cynnydd yn y nifer cyfartalog lleoliadau all-sirol unwaith eto eleni i 37 (34.3 yn 2024/25, 32.5 yn 2023/24, 25.7 yn 2022/23), gan fod tri achos eithriadol mewn lleoliadau heb eu cofrestru eisoes wedi dod i ben eleni a thri pellach yn dod i ben cyn diwedd Hydref, golyga fod y costau wedi lleihau yn sylweddol gan eu bod yn costio £675k yr un ar gyfartaledd. Gwelwyd cost cyfartalog y lleoliadau eraill yn lleihau i £205k o'i gymharu â 2024/25.

Mae niferoedd cyfartalog Maethu drwy Asiant a Maethu Mewnol yn gyson â niferoedd 2024/25. Gwelwyd fod yr incwm gan y Swyddfa Gartref wedi lleihau ar gyfer y ceiswyr lloches heb rieni neu warcheidwaid sydd yn derbyn gwasanaeth. Yng nghefnogol ac eraill pwysau cynyddol ar y gyllideb gweithwyr cefnogol ac ar y gwasanaeth mabwysiadu gogledd Cymru.

Cartrefi Grwpiau Bychan - mae'r cartrefi wrthi'n cael eu sefydlu yng Ngwynedd gydag un cartref bellach yn weithredol, yr ail yn yr Hydref a'r trydydd yn Chwefror. Mae'r ddarpariaeth fewnol yma yn golygu y bydd modd lleoli plant yn fewnol yn hytrach nac efo darparwyr allanol all-sirol. Bu i'r Cyngor dderbyn grantiau i sefydlu'r cartrefi ynghyd â chyfraniad tuag at gostau rhedeg y cartrefi eleni.

Ôl-16 - pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth gan gynnwys ar yr elfen ceiswyr lloches dros 18 oed, gan nad yw'r cyfraniad gan y Swyddfa Gartref yn ddigonol i gyfarch y costau. Staffio uwchlaw'r gyllideb gweithwyr cymdeithasol hefyd yn cyfrannu at y gorwariant.

Derwen - i ymateb i'r tueddiad gorwariant bu i Derwen dderbyn dyraniad adnoddau parhaol ychwanegol o £1 miliwn ar gyfer cyllideb 2025/26. Serch hyn, mae'r rhagolygon gorwariant yn £515k, gyda phwysau ar weithwyr cynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol.

Blynyddoedd Cynnar - trosiant staff a grantiau cynyddol ar gael i gyllido gwariant craidd wedi arwain at danwariant.

Eraill - nifer o ffactorau gan gynnwys gorwariant ar ffioedd gwasanaethau arbenigol ac ar y gwasanaeth tu allan i oriau.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cefnogaeth a Chomisiynu	1,328	1,328	0		0	(77)
Incwm a Chyllid	1,556	1,492	(64)		(64)	83
Gwasanaethau Ataliol	279	250	(29)		(29)	(21)
Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 - peidio caniatáu cario tanwariant			0		0	15
Cyfanswm Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal	**3,163**	**3,070**	**(93)**	**0**	**(93)**	**0**

Gwasanaeth Busnes a Chomisiynu Gofal

Cefnogaeth a Chomisiynu - staffio uwchlaw'r gyllideb ar Gynllun Gofalwyr yn cael ei wrthbwyso gan gwtogi ar wariant ar y gyllideb gwasanaeth proffesiynol a derbyniad grant yn yr Uned Ddatblygu.

Incwm a Chyllid - derbyniad grant tuag at amser staff ynghlwm â gwaith i weithredu meddalwedd achosion gofal ar hyd gogledd Cymru yw'r prif reswm am y tanwariant a ragwelir.

Gwasanaeth Ataliol - derbyniad grant ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau ataliol yn golygu bod tanwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Addysg	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	2,516	2,564	48		48	33
Ysgolion Datganoledig	105,017	105,017	0		0	0
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	(2,205)	(2,226)	(21)		(21)	(43)
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol						
Cludiant	8,380	8,380	0		0	0
Gwasanaeth Atodol	1,087	1,000	(87)		(87)	(182)
Eraill	4,208	4,268	60		60	(18)
	13,675	13,648	(27)	0	(27)	(200)
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad	5,477	5,449	(28)		(28)	24
Gwasanaeth Ieuenctid	1,012	1,020	8		8	(5)
Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25 - peidio caniatáu cario tanwariant			0		0	191
Cyfanswm Addysg	**125,492**	**125,472**	**(20)**	**0**	**(20)**	**0**

Addysg

Arweinyddiaeth a Rheolaeth - gwariant un tro ar system rheoli gwybodaeth newydd ar gyfer yr ysgolion.

Gwasanaeth Ansawdd Ysgolion - cyfnod trosianol i'r gwasanaeth newydd gyda swyddi gwag ond fod pwysau ar y gyllideb cyfundrefn drochi.

Cludiant - yn dilyn gorwariant sylweddol yn y maes dros y blynyddoedd diwethaf, dyranwyd cyllideb o £896k ar sail barhaol a £939k pellach am flwyddyn yn unig i gyfarch y pwysau ar y maes bysus a thacsis ysgolion. Yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf mae modd cwtogi'r cyfraniad un tro i £639k, felly adroddir ar sefyllfa ariannol gytbwys.

Mae'r maes cludiant yn parhau i fod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, fel bod modd ceisio lleihau'r gorwariant a manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol - rhagolygon o incwm uwch a chostau is ar gyfer arlwyaeth yn dilyn derbyniad grant ar gyfer cinio ysgol am ddim ysgolion cynradd. Gorwariant ar gostau staff oherwydd salwch yn faterion yn glanhau a gofalu ysgolion. Yr elfen gofal o'r clybiau brecwast hefyd yn parhau i orwario £89k o ganlyniad i gostau staff uwch a diffyg incwm.

Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill - costau un tro sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gyllidebau eraill.

Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o drosiant staff a derbyniad grant ond pwysau ar benawdau amrywiol eraill. Mae'r amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol bellach wedi dod i ben ac yn gyfrifol am orwariant o £66k.

Gwasanaeth Ieuenctid - gwariant uwch mewn nifer o feysydd gan gynnwys Cymorth Ieuenctid a Chlybiau Ieuenctid.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Economi a Chymuned	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	407	403	(4)		(4)	(269)
Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau	644	644	0		0	113
Morwrol a Pharciau Gwledig	(138)	(112)	26		26	195
Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill	2,194	2,527	333	(219)	114	151
Rhaglenni Datblygu Economaidd	(67)	(67)	0		0	(200)
Marchnata a Digwyddiadau	269	269	0		0	(27)
Llyfrgelloedd Gwynedd	1,854	1,829	(25)		(25)	(105)
Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd	1,095	1,110	15		15	147
Defnydd o Gronfa Tanwariant yr Adran	49	0	(49)		(49)	(5)
Cyfanswm Economi a Chymuned	**6,307**	**6,603**	**296**	**(219)**	**77**	**0**

Economi a Chymuned

Rheolaeth - derbyniad grant yn arwain at danwariant ar y gyllideb graidd.

Morwrol a Pharciau Gwledig - darlun cymysg sydd yn cynnwys gwariant uwchlaw'r gyllideb o £66k yn Noc Fictoria, Caernarfon tra bod Parciau Gwledig yn tanwario (£45k) o ganlyniad i danwariant staff a rhagori incwm ym Mharc Padarn, tra bod llai o wariant ar nifer o benawdau ym Mharc Glynllifon.

Cytundebau Byw'n Iach a Hamdden Eraill - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Gwmni Byw'n Iach yn Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r cwmni wedi derbyn cefnogaeth ariannol flynyddol gan y Cyngor oedd yn £550k yn 2022/23, £308k yn 2023/24 ac yn £281k yn 2024/25, oedd uwchlaw'r taliad cytundebol y contract ddarparu, i'w galluogi i gynnal eu gwasanaethau. Rhagwelir fod y galw am gefnogaeth ariannol yn parhau eleni a'r swm gofynnol yn £219k erbyn diwedd y flwyddyn.

Ymhellach, gorwariant o £150k ar gyllideb rhedeg yr adeiladau hamdden gan yr Adran Economi a Chymuned.

Llyfrgelloedd Gwynedd - cyfnod trosiannol yn dilyn y gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaeth sydd yn golygu bod rhai swyddi wedi bod yn wag am ran o'r flwyddyn. Derbyniad incwm rhent yn uwch ynghyd â llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd - gorwariant yn bennaf gan fod costau staff uwchlaw'r gyllideb a diffyg incwm yn faterion yn Storiel £27k ac Amgueddfa Lloyd George £24k. Bu gwelliant yn y rhagolygon incwm ar gyfer Neuadd Dwyfor.

Er mwyn lleihau'r gorwariant a adroddir, mae'r adran yn defnyddio £49k o gronfa tanwariant adrannol.

Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo cymorth ariannol ychwanegol i Gwmni Byw'n Iach os yw'r gorwariant yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r rhagolygon presennol yn amcanu cymorth gwerth £219k.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (yn cynnwys Cefnffyrdd)	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau:						
Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)	12,249	12,437	188		188	241
Peirianneg	486	455	(31)		(31)	(25)
Bwrdeistrefol	6,098	6,543	445		445	674
Ymgynghoriaeth Gwynedd	204	124	(80)		(80)	(234)
Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25			0		0	(556)
Cyfanswm Priffyrdd, Peirianneg ac YGC	**19,037**	**19,559**	**522**	**0**	**522**	**100**

Priffyrdd, Peirianneg ac YGC (gan gynnwys Cefnffyrdd)

Gwasanaethau Priffyrdd - er y gwelwyd cynnydd mewn gwireddu arbedion yn y maes, rhai arbedion newydd yn parhau angen eu cyflawni. Ymhellach i hyn, lleihad yn yr incwm gan asiantaethau allanol.

Gwasanaethau Peirianneg - tanwariant ar amrywiol benawdau ynghyd â derbyniad incwm uwch.

Gwasanaethau Bwrdeistrefol - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gan gynnwys yr angen i wireddu arbedion. Pwysau hefyd ar gyllidebau staff glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus. Colledion incwm yn faterion yn cynnal tiroedd a thoiledau cyhoeddus. Yn dilyn gwaith diweddar yn yr Amlosgfa, o ganlyniad gwelwyd lleihad yn y rhagolygon incwm cysylltiedig.

Ymgynghoriaeth Gwynedd - rhagolygon o ragori ar yr incwm gan sefydliadau allanol megis cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru yn y maes ffyrdd a pheirianneg ynghyd â swyddi gwag a throsiant staff.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Amgylchedd	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	783	944	161		161	212
Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	777	844	67		67	189
Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth						
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)	356	(18)	(374)		(374)	(547)
Parcio a Gorfodaeth Parcio	(2,623)	(2,417)	206		206	753
Cludiant Integredig	2,313	2,383	70		70	(68)
	46	(52)	(98)	0	(98)	138
Marchnadoedd	11	10	(1)		(1)	0
Cefn Gwlad a Mynediad	738	745	7		7	(7)
Gwarchod y Cyhoedd	1,938	1,880	(58)		(58)	(283)
Gwastraff	14,659	15,321	662		662	1,100
Defnydd o Gronfa Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer			0		0	(1,100)
Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25			0		0	(149)
Cyfanswm Amgylchedd	**18,952**	**19,692**	**740**	**0**	**740**	**100**
Derbyniad Incwm / Grant yn 2025/26 i'w roi mewn Cronfeydd						
Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer		*(187)*	*(187)*	***187***	***0***	
Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu		*(3,713)*	*(3,713)*	***3,713***	***0***	
Cyfanswm	***0***	***(3,900)***	***(3,900)***	***3,900***	***0***	

Amgylchedd

Rheolaeth yr Adran - oediad mewn gwireddu gwerth £150k o gynlluniau arbedion ynghyd â gorwariant ar gostau cerbydau.

Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu - mae diffyg incwm yn faterion yn Rheolaeth Datblygu a Pridiannau Tir, ond sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar gostau staff.

Rhagwelir costau gwerth £1.5 miliwn yn ymwneud ag adeilad peryglus sef Gwesty Corbett Arms, Tywyn, sef adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn achos pryder i Gyngor Gwynedd a'r gymuned leol ers blynyddoedd gan ei fod mewn cyflwr strwythurol peryglus ac sydd wedi golygu fod y Cyngor wedi gorfod gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu'r cyhoedd. Ni all yr Adran ymdopi gyda'r fath wariant yn ddi-rybudd o fewn eu cyllideb refeniw arferol ac felly bydd angen adroddiad ar wahân maes o law i ystyried pa opsiynau eraill sydd gennym i gyfarch y gost yma.

Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth
Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) - rhagori ar incwm ffioedd gwaith stryd, swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

Parcio a Gorfodaeth Parcio - yn dilyn i ffioedd parcio gael eu codi yn Ebrill 2025, y rhagolygon incwm parcio yn well na'r diffyg o £826k a adroddwyd yn 2024/25, ond yn parhau i fod £319k yn is na'r targed. Tanwariant ar staff a chyllidebau eraill yn gwella'r sefyllfa.

Cludiant Integredig - nid yw'r grantiau a dderbynnir i'r maes yn cyfarch yr holl gostau. Rhagolygon o danwariant ar gostau staff a chyllidebau eraill yn lleihau'r gorwariant a adroddir.

Gwarchod y Cyhoedd - swyddi gwag a llai o wariant ar nifer o benawdau'r gyllideb gan gynnwys gwasanaethau a chyflenwadau. Rhagolygon o ragori ar incwm yn safonau masnach ond incwm i lawr ar gyfer y maes trwyddedu tacsis, trwyddedau a gwarchod yr amgylchedd.

Gwastraff - er bod cyllideb ychwanegol o £400k wedi ei dyrannu ar gyfer 2025/26 ymlaen, mae nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant o £662k a ragwelir. Y gwaith o gyflwyno'r newidiadau i'r maes yn parhau ond gorwariant ar gasglu gwastraff ac ailgylchu, rhedeg y canolfannau ailgylchu ac ar y safleoedd trin a throsglwyddo gwastraff. Mae yna nifer o gynlluniau arbedion yn llithro o ganlyniad i heriau ail-strwythuro. Disgwylir lleihad yn y costau gwaredu gwastraff Parc Adfer sydd yn cynorthwyo'r sefyllfa.

Targed Ailgylchu 2024/25 - yn dilyn i Gyngor Gwynedd gyflawni cyfradd o 65.3% ar ailgylchu ar gyfer 2024/25 sydd islaw targed ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru, golyga fod y Cyngor yn wynebu dirwy o £612k, sydd yn ddarostyngedig i asesiad yn erbyn gwahanol feini prawf gan y Llywodraeth. Credwn fod y risg o orfodi'r ddirwy arnom yn isel ac felly nid ydym wedi cynnwys y swm yma yn y tafluniad at ddiwedd y flwyddyn.

Adennill Enillion Cyfrannol Parc Adfer - Arbediad un-tro i'r holl gynghorau o enillion ail-ariannu Parc Adfer. Mae'r cyfraniad wedi ei roi mewn cronfa, gyda'r galwad cyntaf ohono i'w ddefnyddio i gyllido gorwariant yn y maes gwastraff.

Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu - derbyniad incwm newydd i gynghorau sydd yn deillio o ardoll ar ddeunyddiau pacio i gynhyrchwyr a mân-werthwyr, er mwyn hybu ailgylchu. Bydd rhaid defnyddio cyfran gyntaf yr incwm hwn ar gyfer cyfarch unrhyw ddiffyg gan y gwasanaeth gwastraff a'r gweddill yn cael ei roi mewn cronfa i'w flaenoriaethu.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adran Tai ac Eiddo	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rheolaeth	795	659	(136)		(136)	(35)
Gwasanaethau Tai						
Digartrefedd	6,795	7,258	463		463	(34)
Tai Sector Breifat	478	412	(66)		(66)	15
Eraill	426	327	(99)		(99)	(9)
	7,699	7,997	298	0	298	(28)
Gwasanaethau Eiddo						
Eiddo	3,882	3,876	(6)		(6)	41
Gofalu, Arlwyo a Glanhau	13	24	11		11	19
	3,895	3,900	5	0	5	60
Addasiad Cau Cyfrifon 2024/25			0		0	3
Cyfanswm Tai ac Eiddo	**12,389**	**12,556**	**167**	**0**	**167**	**0**

Tai ac Eiddo

Rheolaeth - tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ac ar gostau staff.

Digartrefedd - y tueddiad o bwysau sylweddol ar y gwasanaeth llety argyfwng yn parhau, gyda rhagolygon fod gwariant ar y maes am fod yn £6.7 miliwn eleni, sydd yn cymharu â £6 miliwn y llynedd. Mae cyllideb ychwanegol o £3 miliwn wedi ei ddyrannu o bremiwm treth cyngor i lety argyfwng ynghyd â chyllideb un-tro ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r drefn bidiau i gynorthwyo gyda'r pwysau cynyddol. Gwelir cyfuniad o gostau uwch ar gyfer symud a storio eiddo personol aelwydydd sy'n derbyn llety argyfwng, cynnydd yn y nifer o unigolion sy'n cyflwyno'n ddigartref ac angen llety a chynnydd ym mhris y noson ar gyfer llety argyfwng gan rai darparwyr.

Tai Sector Breifat - trosiant staff a thanwariant ar gyflenwadau a gwasanaethau.

Gwasanaethau Tai, Eraill - tanwariant ar gostau staff ac ar gyllidebau eiddo ynghyd â derbyniad grant.

Gwasanaethau Eiddo - tanwariant ar gostau staff ac ar gostau teithio ond pwysau ar y gyllideb gwasanaethau a chyflenwadau yn Eiddo tra fod diffyg incwm yn broblem yn Difa Pla.

Gofalu, Arlwyo a Glanhau - gorwariant ar gostau gwasanaethau a chyflenwadau a diffyg yn yr incwm.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Adrannau Canolog	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	2,937	2,916	(21)		(21)	0
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	9,361	9,353	(8)		(8)	0
Gwasanaethau Corfforaethol	8,473	8,467	(6)		(6)	0
Cyfanswm Adrannau Canolog	**20,771**	**20,736**	**(35)**	**0**	**(35)**	**0**

Adrannau Canolog

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol - rhagori ar incwm a throsiant staff mewn gwahanol feysydd yn gyfrifol am y tanwariant a ragwelir. Bydd costau un-tro amrywiol hefyd yn cael eu cyllido o fewn y tanwariant.

Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) - trosiant staff a denu incwm ychwanegol yn cynorthwyo'r adran i ymdopi efo'r cynnydd sylweddol yng nghostau prosesu incwm gan gwsmeriaid a thrigolion Gwynedd.

Gwasanaethau Corfforaethol - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y sefyllfa a ragwelir, ond yn bennaf tanwariant ar gostau staff a rhagori ar incwm. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd yr Argraffdy yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn.

CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST

Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)	Amcan Cyllideb 2025/26	Amcan Sefyllfa 2025/26	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2025/26**	Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir	**Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2025/26**	Gor / (Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2024/25
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treth Cyngor	*	*	(1,986)	1,986	0	0
Gostyngiadau Treth Cyngor	*	*	258	(258)	0	0
Llogau	*	*	(104)	104	0	0
Darpariaeth Arbedion	*	*	0	0	0	0
Chwyddiant Tâl			(601)	601	0	0
Yswiriant Gwladol	*	*	(289)	289	0	0
Dileu Balansau Negyddol Cronfeydd Maes Gofal	*	*	576	(576)	0	0
Eraill	*	*	(1,611)	1,611	0	0
Cyfanswm Corfforaethol	*	*	**(3,757)**	**3,757**	**0**	**0**

Corfforaethol

Treth Cyngor - cynnyrch treth ychwanegol o ganlyniad i ragdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2025/26. Yn dilyn y tueddiad a welwyd yn 2024/25 gyda chynnydd o 387 yn y nifer o ail gartrefi'r premiwm, bu cynnydd pellach o 79 hyd at ddiwedd Awst eleni. Ymhellach i hyn, hyd at ddiwedd Awst gwelwyd 347 eiddo yn trosglwyddo o drethi annomestig i dreth cyngor (692 yn 2024/25, 381 yn 2023/24). Ond, yn groes i'r darlun yma, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatáu 81 eiddo i drosglwyddo o dreth cyngor i drethi annomestig (189 yn 2024/25, 193 yn 2023/24, 452 yn 2022/23). Yn 2025/26 mae £6 miliwn o bremiwm treth cyngor wedi ei neilltuo ar gyfer y Strategaeth Dai a £3 miliwn pellach ar gyfer y maes Digartrefedd.

Gostyngiadau Treth Cyngor - yn dilyn ymgyrch i dargedu grwpiau gwahanol i gynyddu niferoedd y ceisiadau, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd dros y 12 mis diwethaf o'i gymharu â'r tueddiad mewn blynyddoedd blaenorol.

Llogau - rhagwelir y bydd llogau yn rhagori'r targed disgwyliedig eleni.

Darpariaeth Arbedion - yn dilyn anallu rhai adrannau i wireddu arbedion mewn rhai meysydd, mae darpariaeth gorfforaethol wedi ei wneud fel ei fod ar gael i ddileu arbedion problemus a phontio gwireddu arbedion.

Chwyddiant Tâl - yn dilyn cadarnhad diweddar am setliad tâl 2025/26 athrawon a gweddill y gweithlu, y setliad yn is na'r hyn a ddarparwyd yn y gyllideb ynghyd â derbyniad grant tuag at dâl athrawon.

Yswiriant Gwladol - bu i Lywodraeth Cymru oedi ar gadarnhau eu cyfraniad tuag at gostau ychwanegol yswiriant gwladol cynghorau tan yr haf, derbyniodd y Cyngor grant oedd yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol.

Dileu Balansau Negyddol Cronfeydd Maes Gofal - mae gwerth £576k o gronfeydd gorwariant wedi cronni gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, awgrymir eu bod yn cael eu dileu i ganiatau'r adrannau i roi sylw i'r heriau presennol.

Argymhellir fod £3.757 miliwn yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor, gyda'i ddefnydd i'w ystyried cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn dilyn ymarferiad adolygiad o'r cronfeydd a fanylir yn **Atodiad 3**, fod cronfeydd gorwariant yr:
- Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sydd werth £300k
- Adran Plant a Theuluoedd gwerth £276k

felly cyfanswm o £576k yn cael eu dileu i ganiatau i'r adrannau ganolbwyntio ar heriau 2025/26.

Adolygiad o Gronfeydd

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir dileu y balansau negyddol sydd yn y cronfeydd canlynol yn dilyn i'r adrannau yn y maes gofal orwario dair blynedd yn olynol:

Cronfa	**Swm i'w ddileu £'000**
Cronfa Gorwariant Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	300
Cronfa Gorwariant Adran Plant a Theuluoedd	276
Cyfanswm	**576**

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Rhaglen Gyfalaf 2025/26 – Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2025)
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid
Swyddog perthnasol:	Ffion Madog Evans, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau
Dyddiad y cyfarfod:	11 Tachwedd 2025

1. **Penderfyniad a Geisir:**
   - Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2025) o'r rhaglen gyfalaf.
   - Cymeradwyo'r addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
     - cynnydd o £290,000 mewn defnydd o fenthyca
     - cynnydd o £13,390,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
     - cynnydd o £36,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
     - lleihad o £2,743,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
     - cynnydd o £29,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
   Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

   Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2025/26 – 2027/28.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

   3.1 Cefndir/ Cyflwyniad
   Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2025/26. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhannau 3.2.2 a rhan 3.2.3 o'r adroddiad (rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad) fel a ganlyn:

- Rhan 3.2.1: Prif Gasgliadau
- Rhan 3.2.2: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £152.94m am y 3 blynedd 2025/26 – 2027/28.
- Rhan 3.2.3: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £11.002m ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.4: Manylder grantiau ychwanegol ers y gyllideb agoriadol.
- Rhan 3.2.5: Dadansoddiad dangosyddion darbodus cyfalaf.

Mae gan y Cabinet rôl i gymeradwyo'n ffurfiol yr ymgorfforiad o ariannu trwy grant i mewn i'r gyllideb gyfalaf, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw:

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £100.7m yn 2025/26 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £47.4m (47%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae £12.4m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2025/26 i 2026/27 a 2027/28, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

3.2.2 Rhaglen Gyfalaf 2025/26 i 2027/28

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2025, gyda'r sefyllfa arfaethedig ddiwygiedig i'r blynyddoedd dilynol:

ADRAN	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb	Addasiad Llithriad	Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb heb Lithriadau
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000	£000	£000	£000
Addysg	16,301	8,218	3,451	27,970	**9,547**	8,125	**1,422**
Amgylchedd	10,106	1,917	479	12,502	**4,587**	(73)	**4,660**
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-	-	-	**-**	-	**-**
Cyllid	1,130	722	1,249	3,101	**925**	915	**10**
Economi a Chymuned	26,964	6,826	2,383	36,173	**5,036**	1,746	**3,290**
Tai ac Eiddo	28,314	8,052	4,102	40,468	**18,335**	17,249	**1,086**
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,701	2,700	-	5,401	**648**	2,098	**(1,450)**
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,731	764	700	4,195	**2,475**	163	**2,312**
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth	12,161	3,793	5,881	21,835	**6,057**	6,385	**(328)**
Corfforaethol	295	500	500	1,295	**295**	295	**-**
CYFANSWM	**100,703**	**33,492**	**18,745**	**152,940**	**47,905**	**36,903**	**11,002**

3.2.3 Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu

Mae cynnydd o £47.905m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol gyda £36.903m yn deillio o ail broffilio ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol a £11.002m yn ariannu o'r newydd. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ddiwygiedig ar gyfer hyn :

ARIANNU	ADOLYGIAD DIWEDD AWST				Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb	Addasiad Llithriad	Cynnydd/(Lleihad) ers y Gyllideb heb Lithriadau
	2025/26 £000	2026/27 £000	2027/28 £000	Cyfanswm £000	£000	£000	£000
Benthyca gyda chefnogaeth	4,070	4,070	4,070	12,210	**-**	-	**-**
Benthyca Arall	18,115	4,119	-	22,234	**13,737**	13,447	**290**
Grantiau a Chyfraniadau	52,467	9,803	4,903	67,173	**20,416**	7,026	**13,390**
Derbyniadau Cyfalaf	160	-	-	160	**160**	160	**-**
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	1,185	-	-	1,185	**56**	20	**36**
Cronfa Cyfalaf	6,821	11,111	4,477	22,409	**5,623**	8,366	**(2,743)**
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	17,885	4,389	5,295	27,569	**7,913**	7,884	**29**
CYFANSWM	**100,703**	**33,492**	**18,745**	**152,940**	**47,905**	**36,903**	**11,002**

3.2.4 Grantiau Ychwanegol

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol o £13.390m a rhestrir y rhai mwyaf isod (gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion):

- £2.940m Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau
- £1.972m Grant Ynni Cymru gan Lywodraeth Cymru tuag at fatris trydanol a gwaith ym Mhlas Ogwen
- £1.839m Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru

- £1.443m Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru
- £0.823m Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- £0.509m Rhan o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd
- £0.500m Cyfraniad Parc Cenedlaethol Eryri tuag at y cynllun prynu tai

3.2.5 Dangosyddion Darbodus Cyfalaf

Mae Cod Darbodus CIPFA yn nodi'r angen i adrodd ar y Dangosyddion Darbodus (gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion).

3.3 Camau nesaf

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 - Manylion y Prif Newidiadau

Atodiad 2 - Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Atodiad 3 - Gwariant Cyfalaf 5 mis cyntaf 2025/26

Atodiad 4 – Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

Rhestr Dogfennau Cefndir:

Cyllideb 2025/2026 : Cyllidebau Blynyddol

Strategaeth Cyfalaf 2025/26 : Cyngor Llawn 06/03/25: Eitem 10 - Strategaeth Gyfalaf 2025-26 yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyca.pdf

ATODIAD 1

Manylion y Prif Newidiadau

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr gyllideb wreiddiol:

	2025/26 £'000	2026/27-2027/28 £'000
Benthyca Arall		
• Tŷ Gofal Maethu ac addasiad ariannu eitem o'r flwyddyn blaenorol *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).*	250	
• Cerbydau yn y meysydd gwastraff ac ailgylchu *(Adran Amgylchedd).*	40	
Grantiau a Chyfraniadau		
• Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – addasu ac ychwanegu amrywiol gynlluniau *(Adran Addysg).*	823	
• Rhan o'r Grant Her Ysgolion Cynaliadwy tuag at Ysgol Bontnewydd *(Adran Addysg).*	509	
• Grant Economi Gylchol gan Lywodraeth Cymru *(Adran Economi a Chymuned).*	102	
• Addasiad Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig - telir swm i Gyngor Gwynedd i'w ddosrannu ar draws siroedd gogledd Cymru *(Adran Economi a Chymuned).*	1,839	
• Grant o Gronfa Y Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru tuag at Barc Gwledig Padarn *(Adran Economi a Chymuned).*	250	50
• Grant gan Lywodraeth Cymru i Leihau Ôl Troed Carbon *(Adran Economi a Chymuned).*	200	
• Grant gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i'r Archifdy *(Adran Economi a Chymuned).*	142	
• Grant gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu system ar gyfer rheoli llyfrgelloedd *(Adran Economi a Chymuned).*	29	

• Grant Chwaraeon Cymru tuag at Canolfan Tennis Arfon *(Adran Economi a Chymuned).*	15
• Grant Cronfa Gylchol trwy law Menter Môn tuag at Pwll Nofio Arfon *(Adran Economi a Chymuned).*	26
• Grant Cyfalaf Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).*	1,443
• Grant Cronfa Tai Gofal ar gyfer cartrefi i blant gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).*	413
• Grant Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail bwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd).*	205
• Grant Cyfalaf 20 milltir yr awr a Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).*	80
• Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).*	2,940
• Grant o'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth (RRF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).*	275
• Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRiC) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).*	160
• Grant a chyfraniadau gan Lywodraeth Cymru , Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC(WCVA)) a Partneriaethau Natur Lleol tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).*	395
• Grant Gwella Mynediad gan Lywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig *(Adran Amgylchedd).*	146
• Grant Tirweddau Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru tuag gynlluniau yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn *(Adran Amgylchedd).*	195

• Grant Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEVTF) ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan a phwyntiau solar *(Adran Amgylchedd).*	105
• Grant Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP) gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).*	225
• Cyfraniad Parc Cenedlaethol Eryri tuag at y cynllun prynu tai *(Adran Tai ac Eiddo).*	500
• Grant cynllun "Enable" gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).*	350
• Grant Ynni Cymru gan Lywodraeth Cymru tuag at fatris trydanol a gwaith ym Mhlas Ogwen *(Adran Tai ac Eiddo).*	1,972
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	
• Cyfraniadau refeniw tuag at amrywiol gynlluniau *(Adrannau Addysg; Economi a Chymuned; Amgylchedd).*	36
Cronfa Cyfalaf	
• Addasiadau ar amrywiol gynlluniau i sicrhau'r Cynllun Rheolau Asedau yn cyd-fynd o ran cynlluniau a phroffilio diwygiedig yn dilyn llithriadau o 24/25. Proffiliau nifer o gynlluniau wedi addasu heibio'r tair mlynedd yn y Rhaglen Gyfalaf *(Adrannau Addysg; Oedolion, Iechyd a Llesiant; Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Tai ac Eiddo).*	(2,743)
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	
• Addasiadau ar amrywiol gynlluniau i sicrhau'r Cynllun Rheolau Asedau yn cyd-fynd o ran cynlluniau a phroffilio diwygiedig yn dilyn llithriadau o 24/25. Proffiliau nifer o gynlluniau wedi addasu heibio'r tair mlynedd yn y Rhaglen Gyfalaf *(Adrannau Oedolion, Iechyd a Llesiant; Tai ac Eiddo).*	(1,555)
• Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned).*	542

- Adnewyddu Cerbydau ac Offer o gronfeydd adrannol *(Adran Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Adran Amgylchedd).* 283

- Cyfraniad y Gronfa Hinsawdd tuag at gynllun Gwefru Gwynedd ac uwchraddio goleuadau mewn sefydliadau *(Adrannau Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth; Tai ac Eiddo).* 496

- Cyfraniad tuag at brosiectau gwledig a gwastraff *(Adran Amgylchedd).* 124

- Cyfraniad tuag at y Prosiect Swyddfeydd (*Adran Tai ac Eiddo).* 126

ATODIAD 2

Manylion Ailbroffilio'r Gyllideb

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hailbroffilio ers y gyllideb wreiddiol:

	2025/26 £'000	2026/27 - 2027/28 £'000
Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill) *(Adran Addysg)*	(4,507)	4,507
Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol *(Adran Economi a Chymuned)*	(1,048)	1,048
Cronfa Ffyniant Bro *(Adran Economi a Chymuned)*	(3,450)	3,450
Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)*	(136)	136
Sefydliadau Plant *(Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)*	(764)	764
Darpariaeth Cyd-Ariannu Prosiectau Gofal *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)*	(1,200)	1,200
Cynlluniau Trafnidiaeth a Gwelliannau Trefol *(Adran Amgylchedd)*	(188)	188
Systemau TG arbenigol Adran Amgylchedd *(Adran Amgylchedd)*	(48)	48
Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai *(Adran Tai ac Eiddo)*	(1,048)	1,048
Cynlluniau Mân-ddaliadau *(Adran Tai ac Eiddo)*	(50)	50

Noder :

Ni fydd yr ailbroffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ailbroffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

ATODIAD 3

Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2025/26

CRYNODEB	RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2025/26 £'000	GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2025 £'000
Addysg	16,301	3,224
Amgylchedd	10,106	805
Cefnogaeth Gorfforaethol	-	-
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	1,130	230
Economi a Chymuned	26,964	2,592
Tai ac Eiddo	28,314	3,986
Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,701	645
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2,731	1,202
Priffyrdd, Peirianneg ac Ymgynghoriaeth	12,161	2,834
Corfforaethol	295	-
CYFANSWM	**100,703**	**15,518**

Noder:
Mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni (15%) yn debyg i'r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2024/25 yn 15%), ac yn uwch na dwy flynedd yn ôl (11% yn 2023/24).

ATODIAD 4

Dangosyddion Darbodus Cyfalaf 2025/26

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei wariant cyfalaf a benthyca gan gyfeirio at y dangosyddion dilynol.

Mae bellach yn ofyniad yn y Cod Darbodus CIPFA i adrodd ar rhain yn rheolaidd.

Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gwariant Cyfalaf
Mae'r Cyngor yn ymgymryd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf fel a grynhoir isod.

	Gwir 2024/25 £m	**Amcan 2025/26 £m**	**Cyllideb 2026/27 £m**	**Cyllideb 2027/28 £m**
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	85.0	101.1	33.9	19.1
Prydlesu Cronfa Gyffredinol	5.3	0.0	0.0	0.0
CYFANSWM	**90.3**	**101.1**	**33.9**	**19.1**

Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2025/26 yn cynnwys (gweler yr adroddiadau adolygiad am fanylion ailbroffilio lle bo'n berthnasol) :

- Cynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - £12.4m
- Cynlluniau Cronfa Ffyniant Bro - £11.0m
- Cynlluniau/Strategaeth Tai - £7.5m
- Cerbydau Adrannol - £6.9m
- Cartrefi/Canolfannau Oedolion - £4.5m
- Cynlluniau Eiddo - £3.9m

Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mesurir cyllid sy'n ariannu dyled cronnus y Cyngor yn ôl y gofyn cyllido cyfalaf (GCC). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir drwy ddyled, ac mae'n lleihau gyda Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled.

	Gwir 31.3.2025 £m	**Amcan 31.3.2026 £m**	**Cyllideb 31.3.2027 £m**	**Cyllideb 31.3.2028 £m**
Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol	179.9	196.2	198.0	195.5

Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Yn ôl y canllaw statudol, dylai dyled aros islaw'r gofyn cyllido cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn disgwyl y bydd yn parhau i gydymffurfio â'r gofyn hyn yn y tymor canolig fel a ddangosir isod.

	Gwir 31.3.2025 £m	**Amcan 31.3.2026 m**	**Cyllideb 31.3.2027 £m**	**Cyllideb 31.3.2028 £m**	**Dyled ar 31.08.2025 £m**
Dyled (gan gynnwys Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau)	100.1	79.2	73.8	71.8	100.1
Gofyn Cyllido Cyfalaf	179.9	196.2	198.0	195.5	

Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Gweithredol

Mae'n ofyn cyfreithiol i'r Cyngor bennu terfyn benthyg fforddiadwy (fe'i gelwir hefyd y terfyn dyled awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllaw statudol, pennir "ffin gweithredol" is. Dyma'r lefel rhybudd os bydd dyled yn agosáu at y terfyn.

	Uchafswm Dyled 2025/26 £m	Dyled ar 31.08.2025 £m	Terfyn Awdurdodedig 2025/26 £m	Ffin Gweithredol 2025/26 £m	Wedi cydymffurfio ?
Benthyca	94.1	94.1			
Menter Cyllid Preifat (MCP) a phrydlesau	6.0	6.0			
Cyfanswm Dyled	**100.1**	**100.1**	200	190	Do

Oherwydd mai offeryn rheolaeth at ddiben monitro o fewn y flwyddyn yw'r ffin gweithredol, nid yw'n arwyddocaol os eir yn uwch na'r ffin ar achlysur oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac nid yw hyn yn cael ei ystyried yn fethiant i gydymffurfio.

Cyfran Costau Ariannu i'r Llif Refeniw Net

Er nad yw'r gyllideb refeniw yn talu am wariant cyfalaf yn uniongyrchol, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) yn gost ar refeniw. Gelwir y ffi net flynyddol yn gostau ariannu. Cymharir hyn gyda'r ffrwd refeniw net h.y. y swm a gyllidir drwy Dreth Cyngor, Trethi Annomestig Cenedlaethol a grantiau cyffredinol gan y llywodraeth.

	Gwir 2024/25	Amcan 2025/26	Cyllideb 2026/27	Cyllideb 2027/28
Costau Ariannu (£m)	8.5	10.2	10.6	10.7
Cyfran y Llif Refeniw Net (%)	2.5%	2.9%	2.9%	2.9%

Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r dangosyddion hyn (Meincnod Ymrwymiad, Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau, Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Tymor Hir) yn cael eu hadrodd ar wahân fel rhan o'r Adroddiad Rheolaeth Trysorlys am y cyfnod dan sylw.